Planning Pembrokeshire's Future

Local Development Plan

Cynllun Datblygu Lleol

Cynllunio Dyfodol Sir Benfro

Cyngor Sir Penfro

# Cynllun Datblygu Lleol

## Adroddiad Monitro Blynyddol – 3

## 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016

# Tudalen Gynnwys

Tudalen Gynnwys ........ 3

1 Cyflwyniad ........ 9

2. Gwybodaeth Gyd-destunol ........ 13

3. Crynodeb o Ganlyniadau Monitro'r CDLl ........ 35

Polisiau sy'n cyrraedd y trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach ........ 43

4 Crynodeb o Ganlyniadau Monitro Arfarniadau o Gynaliadwyedd ac Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd ........ 54

5 Adborth o Ddigwyddiadau Ymgynghori ........ 58

6. Casgliadau ac Argymhellion ........ 65

7. Atodiadau ........ 66

Atodiad 1 – Fframwaith Monitro'r CDLl ........ 67

Atodiad 2 – Cynnydd tuag at ddarparu llwybrau trafnidiaeth a ddiogelwyd a gwelliannau (GN.39) ........ 120

Atodiad 3 – Fframwaith Monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ........ 136

Atodiad 4 – Dyraniadau lle mae angen Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect ........ 151

Atodiad 5 – Dadansoddiad o Dai Wedi'u Cwblhau 2013-2016 yn ôl lleoliad ........ 153

# Crynodeb Gweithredol

i. Mabwysiadodd Cyngor Sir Penfro y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Chwefror 2013. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB), bob blwyddyn, gyda mewnbwn gan Randdeiliaid, a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref. Mae'r AMB yn seiliedig ar y targedau a'r trothwyon a nodir yn Atodiad 5 i'r Cynllun Datblygu Lleol – mae'r rhain yn asesu sut mae'r Cynllun yn gweithio ac a oes unrhyw feysydd sy'n achosi pryder y mae angen ymchwilio iddynt ymhellach. Ar ôl pedair blynedd mae'n rhaid i'r Awdurdod adolygu'r Cynllun yn ei gyfanrwydd, ond ceir darpariaethau ar gyfer adolygiad rhannol interim o'r Cynllun os bydd meysydd polisi penodol yn gofyn am hyn.

ii. Hwn yw'r trydydd AMB sydd wedi cael ei baratoi ers i CDLl Cyngor Sir Penfro gael ei fabwysiadu. Mae'n gyfle pwysig i'r Cyngor asesu effaith y CDLl ar lesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yr ardal. Mae'r ddogfen yn rhoi dadansoddiad manwl o'r ffordd y mae'r Cynllun yn gweithio, o'r cyd-destun strategol y mae'r Cynllun yn cyflawni oddi mewn iddo, ei berfformiad yn erbyn amcanion strategol i b'un a yw polisïau unigol, sydd â gofyniad monitro a nodwyd, yn cyflawni yn ôl y disgwyl. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn adrodd, ond cyfeirir at newidiadau sylweddol sydd wedi digwydd ar ôl y flwyddyn adrodd.

**Canfyddiadau Allweddol**

iii. Mae cynnydd da wedi'i wneud o ran cyflawni'r Cynllun yn 2015-2016. Mae llai o adnoddau staff yn ystod rhan o'r flwyddyn wedi golygu bod oedi wedi bod cyn cyflwyno rhai agweddau ar y rhaglen o Ganllawiau Cynllunio Atodol, a gaiff eu cyhoeddi yn 2016-2017 yn lle hynny.

Ar y cyfan, mae'r fframwaith monitro yn dangos bod y Cynllun yn cyflawni'n dda:

- Mae nifer y cartrefi a nifer y cartrefi fforddiadwy a adeiladwyd ac a ganiatawyd yn cyflawni'r targedau a bennwyd, er eu bod ychydig yn is na'r hyn a geir yn AMB 2;
- Mae gwaith monitro prisiau tai yn dangos nad oes angen addasu targedau cyfraniadau tai fforddiadwy;
- Mae amrywiaeth dda o safleoedd cyflogaeth a thir wedi cael caniatâd cynllunio ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu. Yn 2015, cyflwynwyd methodoleg newydd ar gyfer paratoi arolygon cyflogaeth, gyda 2013 yn llinell sylfaen. Mae hon yn monitro'r sefyllfa o ran dyraniadau cyflogaeth a defnydd cymysg y CDLl, ar y prif safleoedd cyflogaeth sy'n bodoli eisoes ac ar hap-safleoedd

dros 0.5 hectar a gymeradwywyd ers i’r CDLl gael ei fabwysiadu. Arwynebedd safle llinell sylfaen 2013 ar gyfer safleoedd a gaiff eu monitro oedd 1137 hectar, a gynyddodd i 1145 hectar yn 2015. O’r arwynebedd hwn, roedd 945 yn cael ei ddefnyddio yn 2013, a ostyngodd i 839 hectar yn 2015 (yn bennaf yn sgil cau purfa Aberdaugleddau[1]). Yn 2013 roedd 193 hectar o diroedd cyflogaeth gwag (tir ac adeiladau), a gynyddodd i ffigur cyfun o 316 hectar (189 hectar o dir a 127 hectar o adeiladau) ac unwaith eto roedd hyn yn adlewyrchu’r ffaith bod gweithgarwch ym Mhurfa Aberdaugleddau wedi dod i ben.

- Mae cynlluniau ynni adnewyddadwy eraill wedi cael caniatâd cynllunio, a ddylai ddarparu o leiaf 34.77MW o allu cynhyrchu ychwanegol, os cânt eu gweithredu’n llawn. Cyfrifir am lawer o hyn gan y caniatâd a roddwyd am orsaf bŵer tanwydd coed i greu ynni o fiomas yn Nhrecŵn. Heblaw am y caniatâd hwnnw, byddai’r ffigur ychydig o dan 5MW, sy’n adlewyrchu’r gostyngiadau sylweddol mewn tariffau cyflenwi trydan ar gyfer datblygiadau newydd / estynedig ac sydd wedi cael effaith enfawr ar nifer y ceisiadau a gyflwynwyd ar gyfer cynigion ynni’r gwynt ac ynni’r haul. Mae nifer sylweddol o’r ceisiadau am ynni adnewyddadwy a gyflwynwyd yn ystod blwyddyn 3 yr AMB wedi bod ar gyfer diwygiadau ansylweddol i gynlluniau sydd eisoes wedi cael caniatâd.
- Mae’r capasiti ar gyfer cyfleusterau gwastraff wedi ehangu 3.32 hectar yn ystod cyfnod yr AMB hwn.

v. Mae gwaith monitro ar wahân o amcanion Arfarniadau o Gynaliadwyedd ac Arfarniadau Rheoliadau Cynefinoedd yn dangos nad oes unrhyw faterion sylweddol y mae angen cymryd camau gweithredu yn eu cylch.

## Newid Cyd-destunol

vi. Mae nifer o newidiadau sylweddol wedi cael eu cyflwyno drwy ddeddfwriaeth, canllawiau a dogfennau eraill a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn adrodd:

- Bydd cyflwyno Deddf Tai (Cymru) 2014 a’i chanllawiau ategol yn ei gwneud yn ofynnol cynnal arolygon newydd a newid y fethodoleg a ddefnyddiwyd gan yr Awdurdod yn ystod AMB 3 i asesu anghenion Sipsiwn a Theithwyr.
- Bydd angen ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth adolygu’r Cynllun.
- Mae’r Ddeddf Cynllunio (Cymru) yn cynnig newidiadau eang i’r system Gynllunio yng Nghymru – bydd AMBau yn y dyfodol yn nodi’r goblygiadau i’r CDLl.

[1] y mae llawer ohoni wedi cael ei defnyddio fel cyfleuster storio ers hynny

- Bydd angen i Filiau eraill i Gymru, a fydd yn cael eu cyflwyno yn ystod AMB 3 mewn perthynas â'r Amgylchedd a'r Amgylchedd Hanesyddol gael eu hystyried mewn AMBau yn y dyfodol.
- Cyflwynwyd newidiadau i Bolisi Cynllunio Cymru (PCC) (Argraffiad 7 a'r Nodiadau Cyngor Technegol) o ganlyniad i newidiadau i Ran L o'r Rheoliadau Adeiladu mewn perthynas ag effeithiolrwydd ynni.
- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn datblygu Cynlluniau Perygl Llifogydd a Rheoli Basn Afonydd y bydd angen eu hystyried hefyd wrth fonitro ac adolygu.
-

vii. O ran yr ardal leol – caeodd Purfa (Murco) Aberdaugleddau yn ystod blwyddyn 2 yr AMB, gan arwain at golli cryn nifer o swyddi lleol. Mae llawer o weithwyr lleol wedi symud i wahanol rannau o'r DU i gael swyddi tebyg. Mae'r perchenogion newydd Puma Energy wedi troi llawer o'r safle yn gyfleuster storio yn ystod blwyddyn 3 yr AMB. Felly, er bod y cynnig y dylai'r burfa ei hun gael ei dymchwel, y bwriad yw cadw'r cyfleusterau storio cysylltiedig.

viii. Ar ôl cryn ansicrwydd, mae ymadawiad Catrawd y Signalau o Freudeth wedi cael ei ganslo, gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cadarnhau y bydd Catrawd y Signalau yn aros yn sir Benfro ar gyfer y dyfodol rhagweladwy.

ix. Ni fydd caniatâd blaenorol ar gyfer safle pŵer 500MW yn Ne Hook (AMB 2) yn mynd rhagddo.

x. Mae Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau wedi datblygu cynnig ar gyfer y datblygiad defnydd cymysg ym marina Aberdaugleddau yr argymhellodd y pwyllgor cynllunio y dylid ei gymeradwyo ym mis Chwefror 2015, ond mae'r cytundeb cyfreithiol A.106 cysylltiedig eto i'w lofnodi.

xi. Gwnaed newidiadau i gylchfannau Churnworks a Ffordd Dewi Sant ac i Ffordd Thomas Parry, er mwyn caniatáu mynediad i gerbydau i'r safle tai strategol yn Slade Lane South, Hwlffordd. Cafodd hyn ei ariannu drwy gyfraniadau i'r Awdurdod oddi wrth y datblygwr.

**Targedau Monitro – Trothwyon**

xii. Mae 9 dangosydd o fewn y fframwaith monitro wedi cyrraedd eu trothwyon; fodd bynnag dengys dadansoddiadau nad oes yr un o'r rhain yn codi materion sylfaenol ynglŷn â'r Cynllun na'i Strategaeth. Y dangosyddion hyn yw:

- (Craidd) Faint o brif ddatblygiadau manwerthu, swyddfeydd a hamdden (metr sgwâr) a ganiateir yng Nghanol Trefi a fynegir fel canran o bob datblygiad mawr a ganiatawyd.
- Lefel yr arwynebedd ar gyfer datblygiadau manwerthu a ganiateir y tu allan i ganol trefi ac eithrio cynlluniau sy'n dod o dan Bolisi GN. 15 Manwerthu ar Raddfa Fach neu GN.10 (siop fferm).
- Newid defnyddiau A1 (nifer yr unedau a'u harwynebedd ar gyfer manwerthu cynradd) ffryntiadau – islaw'r targed yn Abergwaun a Phenfro.
- Canran yr unedau gwag llawr gwaelod yng Nghanol Trefi lle mae 5% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (y DU) – Aberdaugleddau, Hwlffordd a Doc Penfro.
- Banc tir ar gyfer Mwynau – 12 mlynedd (craig galed) neu 9 mlynedd (tywod a gro), er mwyn sicrhau darpariaeth ddigonol ar ddiwedd cyfnod y Cynllun. Monitro tunelli a ganiateir.
- Lleiniau Sipsiwn a Theithwyr – mae cynnydd yn cael ei wneud o ran cyflawni.
- (Craidd) Y cyflenwad tir sydd ar gael ar gyfer tai (TAN 1) – 5 mlynedd o gyflenwad tir. Y trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach os bydd y cyflenwad tir o dan 5.5 mlynedd.
- Nifer y caniatadau cynllunio a roddwyd yn groes i Bolisi GN.1, sef nod diogelu maen prawf 3.
- Nifer y caniatadau cynllunio a roddwyd yn groes i Bolisi GN.38.

**Casgliadau ac Argymhellion**

xiii. Nid yw'r trothwyon yn yr un o'r achosion hyn yn awgrymu bod diffyg sylfaenol yn strategaeth neu bolisïau'r CDLl. Mae ymchwiliad pellach wedi dangos bod rhesymau priodol dros y caniatadau hyn a bod cam(au) gweithredol gan randdeiliaid eraill eisoes ar waith o fynd i'r afael ag unrhyw faterion ehangach – er enghraifft, gwaith gan y Cyngor a phartneriaid eraill ar adfywio canol trefi.

xiv. Nid oes dim yng ngwaith monitro eleni sy'n awgrymu bod angen adolygiad cynnar o'r CDLl a fabwysiadwyd.

xv. Dros y flwyddyn adrodd nesaf bydd Cyngor Sir Penfro yn parhau i gyflwyno ei raglen o Ganllawiau Cynllunio Atodol a'i Arfarniadau o Gymeriad Ardaloedd Cadwraeth a bydd yn cynnal ymchwiliadau pellach lle y nodwyd bod angen gwneud hyn yn yr adroddiad hwn.

xvi. Bydd yr Adroddiad Monitro Blynyddol nesaf (AMB 4) yn rhoi'r wybodaeth gefndirol i lywio Adroddiad yr Adolygiad o'r CDLl, gyda'r gwaith ar yr Adolygiad o'r CDLl yn debygol o ddechrau o fis Mehefin 2017.

# 1 Cyflwyniad

1.1 Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Cyngor Sir Penfro yn ffurfiol gan Gyngor Sir Penfro (CSP) ar 28 Chwefror 2013. Ar ôl mabwysiadu ei CDLl, mae rhwymedigaeth statudol ar y Cyngor o dan adran 76 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 i baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

1.2 Hwn yw'r trydydd AMB a gyhoeddwyd. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y cyfnod 2013-2014 a 2014-2015 yn y tablau, er mwyn ei gwneud yn bosibl i gymharu â blynyddoedd blaenorol.

1.3 Prif nod yr AMB yw asesu i ba raddau y mae Strategaeth ac Amcanion Strategol y CDLl yn cael eu cyflawni. Felly mae'n chwarae dwy brif rôl: yn gyntaf, i ystyried a yw'r canlyniadau monitro allweddol a nodwyd o fewn y fframwaith monitro yn cael eu cyflawni; ac yn ail, i ystyried y cynllun yn ei gyfanrwydd yn erbyn yr holl wybodaeth a gasglwyd, er mwyn penderfynu a oes angen adolygiad cyflawn neu rannol o'r cynllun. Ochr yn ochr â'r prif rolau hyn, mae'r AMB hefyd yn ystyried cydymffurfiaeth ag Arfarniadau o Gynaliadwyedd ac Arfarniadau Rheoliadau Cynefinoedd.

1.4 Yr AMB yw'r prif ddull o adolygu perthnasedd a llwyddiant y CDLl a nodi unrhyw newidiadau a allai fod eu hangen. Prif swyddogaeth y broses fonitro yw nodi a ddylai'r CDLl gael ei adolygu neu a oes angen cymryd camau gweithredu eraill.

**Y gofyniad i fonitro'r CDLl**

1.5 Mae Pennod 7 ac Atodiad 5 i'r CDLl yn nodi'r targedau a'r dangosyddion monitro a gaiff eu defnyddio fel sail i'r AMB hwn. Mae'r rhain yn sicrhau bod gwaith monitro o flwyddyn i flwyddyn yn gyson ac yn cydymffurfio â gofynion rheoleiddio Rheoliad 37 y CDLl. Yn y cyd-destun hwn, mae'n ofynnol i'r AMB:

- Nodi'r polisïau nad ydynt yn cael eu gweithredu ar gyfer pob polisi o'r fath:
    - Amlinellu'r rhesymau pam nad yw'r polisi yn cael ei weithredu;
    - Nodi'r camau y gellir eu cymryd i'w gwneud yn bosibl i'r polisi gael ei weithredu;
    - Nodi a oes angen diwygio'r cynllun.

- Nodi'r cyflenwad tir sydd ar gael ar gyfer tai o'r Adroddiad ar y Tir sydd ar gael ar gyfer Tai ar gyfer y flwyddyn honno, ac ar gyfer y cyfnod llawn ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu.
- Nodi nifer yr anheddau fforddiadwy a marchnad gyffredinol ychwanegol net a adeiladwyd yn ardal y CDLl ar gyfer y flwyddyn honno, ac ar gyfer y cyfnod llawn ers i'r cynllun gael ei fabwysiadu.

1.6 Mae'r Llawlyfr ar CDLlau yn ategu'r gofyniad hwn drwy nodi ffactorau ychwanegol a ddylai gael eu hasesu yn yr AMB, sef:

- A yw'r strategaeth sylfaenol yn dal i fod yn gadarn ai peidio (os nad ydyw, efallai y bydd adolygiad llawn o'r cynllun);
- Pa effeithiau y mae'r polisïau yn eu cael yn fyd-eang, yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol;
- A oes angen i'r polisïau gael eu newid er mwyn adlewyrchu newidiadau yn y polisi cenedlaethol;
- A yw'r polisïau a'r targedau cysylltiedig yn y CDLl wedi cael eu cyflawni neu a oes cynnydd yn cael ei wneud i'w cyflawni, gan gynnwys cyhoeddi Canllawiau Cynllunio Atodol perthnasol;
- Pan na fydd cynnydd wedi'i wneud, y rhesymau dros hyn a'r effeithiau canlyniadol y gall hynny eu cael;
- Pa agweddau ar y CDLl y mae angen eu haddasu neu eu newid, os o gwbl, am nad ydynt yn gweithio yn ôl y bwriad neu nad ydynt yn cyflawni amcanion y strategaeth a / neu amcanion cynaliadwyedd;
- Os bydd angen newid y polisïau neu'r cynigion, y camau gweithredu a awgrymir i gyflawni hyn.

1.7 Mae monitro'r CDLl hefyd yn gyson â'r gofynion ar gyfer monitro perfformiad cynaliadwyedd y cynllun drwy'r Asesiad Amgylcheddol Strategol / Arfarniad o Gynaliadwyedd (AAS/AoG). Ceir gorgyffwrdd, yn ei hanfod, rhwng y wybodaeth a ddefnyddir i lywio'r gwaith o fonitro'r AAS/AoG a'r hyn a ddefnyddir i fonitro'r cynllun yn uniongyrchol. Wrth ddatblygu'r Cynllun, cynhaliwyd Arfarniad o'r Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect, gan nodi lle y gall fod angen asesiadau unigol ar gam cais. Mae'r AMB yn diweddaru'r Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd.

**Fformat a chynnwys yr Adroddiad Monitro Blynyddol**

1.8 Mae'r broses fonitro, yn anochel, yn cynnwys casglu a dehongli cryn dipyn o wybodaeth. Er mwyn sicrhau bod yr AMB yn hawdd ei ddarllen, cyflwynir llawer

o'r dadansoddiadau o ddata sy'n ei lywio yn yr Atodiadau, gyda'r prif gasgliadau yn cael eu cyflwyno yn yr AMB ei hun.

1.9 Mae strwythur yr AMB fel a ganlyn:

- Crynodeb Gweithredol – mae hwn yn rhoi crynodeb cyffredinol o ganfyddiadau AMB y CDLl.
- Newidiadau Cyd-destunol – mae'r adran hon yn cynnwys dadansoddiad o unrhyw newid mewn amgylchiadau sydd y tu hwnt i gylch gwaith y cynllun a allai effeithio ar y ffordd y cyflawnir y fframwaith polisi.
- Crynodeb o Ganlyniadau Monitro'r CDLl – mae'r adran hon yn nodi prif ganfyddiadau'r fframwaith monitro, gan gynnwys nodi unrhyw bolisïau sydd wedi cyrraedd eu trothwyon ac unrhyw gamau gweithredu cysylltiedig y mae angen eu cymryd o ganlyniad i hynny.
- Crynodeb o Ganlyniadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Arfarniad o'r Rheoliadau Cynefinoedd – mae'r adran hon yn nodi prif ganfyddiadau gwaith monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd, gan nodi prif effeithiau'r Cynllun ac ystyried a oes angen adolygu'r cynllun ar y seiliau hyn.
- Casgliadau ac Argymhellion – mae'r adran hon yn cyflwyno casgliadau'r AMB a'i argymhellion ar gyfer camau gweithredu, gan gynnwys datganiad ynghylch a oes angen addasu unrhyw bolisïau a/neu ddiwygio'r cynllun ymhellach.
- Atodiadau – mae'r adran hon yn cynnwys tablau manwl sy'n cyflwyno'r data crai a dadansoddiad o dargedau a throthwyon y fframwaith monitro.

**Beth y dylid ei fonitro?**

1.10 Er mwyn monitro llwyddiant Strategaeth y CDLl, mae'r AMB yn monitro'r polisïau hynny a nodir yn Atodiad 5 i'r Cynllun fel rhai sy'n allweddol i wireddu'r strategaeth drwy gyflawni'r amcanion strategol. Mae'r polisïau hyn yn cynnwys cymysgedd o bolisïau Strategol a Chyffredinol.

**Sut y caiff y Cynllun ei Fonitro?**

1.11 Mae Atodiad 5 i'r Cynllun yn nodi Amcanion Strategol y Cynllun, y canlyniadau monitro allweddol i'w cyflawni, y polisïau i gyflawni hyn a dangosyddion, targedau polisi a throthwyon perthnasol ar gyfer ymchwiliadau pellach.

1.12 Mae'r dangosyddion a amlinellir yn Atodiad 1 yn nodi'r hyn sy'n cael ei fesur ac mae'r targedau yn nodi'r hyn a fyddai'n cael ei gyflawni gan bolisïau, o dan amgylchiadau delfrydol ac unffurf. Mae trothwyon ar gyfer ymchwiliadau pellach

yn nodi pwyntiau neu lefelau sy'n berthnasol i darged. Os bydd dangosydd yn cyrraedd trothwy neu'n mynd y tu hwnt iddo, caiff y polisi perthnasol ar gyfer y targed hwnnw ei nodi a'i ystyried yn yr AMB fel polisi sy'n methu o bosibl. Dylid pwysleisio nad polisïau sy'n methu fydd pob polisi sy'n cael ei nodi a'i ystyried yn yr AMB, gan y bydd ffactorau dilys o bosibl sy'n peri i un, neu fwy, o'r targedau gyrraedd eu trothwyon.

**Asesiadau a chasgliadau**

1.13 Yn gyntaf, mae'r AMB yn ystyried a yw'r polisïau a nodwyd yn y broses fonitro yn cael eu gweithredu. Mae hefyd yn ystyried y Cynllun yn ei gyfanrwydd yn erbyn yr holl wybodaeth a gasglwyd er mwyn penderfynu a oes angen adolygiad cyflawn neu rannol o'r Cynllun.

1.14 Mae'n bwysig bod y AMB, er ei fod yn anochel yn dibynnu ar gryn dipyn o wybodaeth ystadegol, hefyd yn defnyddio dadansoddiadau beirniadol o'r cyd-destun a'r materion ehangach. Dylai AMBau fynd ati i gyflwyno dadansoddiad pwyllog ac ystyriol o'r holl wybodaeth, er mwyn sicrhau y caiff y cynllun ei fonitro'n effeithiol o flwyddyn i flwyddyn.

1.15 Bydd yr AMB yn nodi sut y cyflawnir y Cynllun mewn ffordd benodol ac uniongyrchol. Os canfyddir bod polisïau'n methu, caiff argymhellion clir ynglŷn â'r hyn y bydd angen ei wneud er mwyn mynd i'r afael â hyn eu nodi yng Nghasgliadau ac Argymhellion yr Adroddiad. Os bydd angen newid polisïau, bydd yr AMB yn awgrymu camau gweithredu priodol er mwyn sicrhau'r canlyniadau a ddymunir.

# 2. Gwybodaeth Gyd-destunol

2.1. Mae i'r adran hon ddwy ran:

- Mae'r rhan gyntaf yn crynhoi'r Cynlluniau, y Polisïau a'r Strategaethau hynny sydd wedi cael eu cyhoeddi neu eu diwygio'n helaeth ers cyfnod adrodd AMB 2 y CDLl. Cyfeirir at ddeddfwriaeth arfaethedig ac ymgynghoriadau diweddar a chyfredol hefyd. Nodir goblygiadau posibl i'r CDLl a'r ffordd y mae'n gweithredu ac yn cael ei gyflawni. Ni chaiff dogfennau a gyhoeddwyd cyn cyfnod monitro'r trydydd AMB, a lle na fu unrhyw newid sylweddol, eu cynnwys.
- Mae'r ail ran yn ystyried data a thueddiadau cymdeithasol ac economaidd ehangach. Y rhai a nodir yma yw'r rhai a ddigwyddodd yn ystod trydedd flwyddyn gweithrediad y Cynllun. Ystyrir a yw'r tueddiadau a nodwyd yn debygol o effeithio ar y ffordd y cyflawni'r CDLl.

## Rhan 1: Newidiadau Deddfwriaethol

2.2. Deddfwriaeth Sylfaenol – Cymru

- **Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016 (21/03/16)**

  Mae'r Ddeddf hon yn rhoi mesurau ar waith a fydd yn caniatáu cynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn modd rhagweithiol, cynaliadwy ac integredig. Bydd yn helpu i fynd i'r afael â nifer o heriau amgylcheddol, pennu targedau lleihau allyriadau statudol, rhoi trefniadau cyllidebu ar gyfer carbon ar waith, gwella prosesau rheoli gwastraff ac egluro'r gyfraith ar gyfer cyfundrefnau rheoleiddio amgylcheddol. Bydd yr olaf yn cwmpasu trefniadau rheoli perygl llifogydd, draenio tir a hefyd amrywiol faterion sy'n ymwneud â thrwyddedu a rheoli morol.

  Goblygiadau i'r CDLl – mae'r Ddeddf newydd eisoes yn ystyriaeth gynllunio berthnasol. Bydd is-ddeddfwriaeth a chanllawiau yn llywio'r adolygiad o'r CDLl.

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (29/04/15)**

  Diben y Ddeddf hon yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd disgwyl i gyrff cyhoeddus ddechrau meddwl yn yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl leol, cymunedau a chyda'i gilydd a gweithio mewn modd cydgysylltiedig. Mae'r Ddeddf wedi rhoi saith nod llesiant ar waith:

  - Cymru lewyrchus;
  - Cymru gydnerth;
  - Cymru iachach;
  - Cymru sy'n fwy cyfartal;

- Cymru o gymunedau cydlynus;
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu;
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Mae'r Ddeddf yn ceisio ateb heriau allweddol sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd, tlodi, anghydraddoldebau iechyd, swyddi a thwf. Mae'r Ddeddf wedi'i hategu gan y cysyniad o ddatblygu cynaliadwy a dyletswyddau llesiant.

Goblygiadau i'r CDLl – mae'r Ddeddf newydd eisoes yn ystyriaeth gynllunio berthnasol. Bydd is-ddeddfwriaeth a chanllawiau yn llywio'r adolygiad o'r CDLl.

- **Deddf Cynllunio (Cymru) 2015** (06/07/15)

Mae'r Ddeddf hon yn diwygio'r system gynllunio yng Nghymru, gyda'r nod o'i gwneud yn deg, yn gydnerth ac yn gefnogol i ddatblygiadau priodol. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi pum amcan allweddol y mae'r Ddeddf yn ceisio mynd i'r afael â hwy:

- Rhoi fframwaith modern ar waith ar gyfer darparu gwasanaethau cynllunio wedi'i ategu gan y cysyniad o ddatblygu cynaliadwy;
- Atgyfnerthu dull gweithredu seiliedig ar gynllun, gyda sylfaen gyfreithiol ar waith i baratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Chynlluniau Datblygu Strategol;
- Gwella cydnerthedd (gan gynnwys cyflwyno pwerau a fydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdodau cynllunio lleol i gyd-weithio ac i awdurdodau cynllunio gael eu huno);
- Blaenlwytho a gwella'r system datblygu rheoli;
- Galluogi trefniadau gorfodi effeithiol ac apeliadau;
- Rhoi darpariaethau newydd ar waith mewn perthynas â meysydd tref a phentref.

Goblygiadau i'r CDLl – mae'r Ddeddf newydd eisoes yn ystyriaeth gynllunio berthnasol a bydd is-ddeddfwriaeth a chanllawiau yn llywio'r adolygiad o'r CDLl.

## 2.3. Rheoliadau Llywodraeth Cymru

- **Rheoliadau Diwygiedig ynglŷn â CDLlau**

Diwygiwyd proses y CDLl yn 2015, gyda newidiadau i'r Rheoliadau ynglŷn â CDLlau, i Bennod 2 o Bolisi Cynllunio Cymru ac i'r Llawlyfr ar CDLlau.

Mae'r diwygiadau i'r Rheoliadau yn adlewyrchu dull newydd, mwy integredig o ymgorffori'r Arfarniad o Gynaliadwyedd, gweithdrefnau wedi'u newid o ran Safleoedd Ymgeisiol a Safleoedd Amgen, profion cadernid

wedi'u haddasu a rhai newidiadau eraill, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud ag adolygu a diwygio cynlluniau.

Goblygiadau i'r CDLl – caiff y Rheoliadau newydd eu dilyn ar gyfer yr adolygiad o'r CDLl.

## Rhan 2: Polisi a Chanllawiau

2.4. Polisi Cynllunio Cymru Llywodraeth Cymru

- **PCC argraffiad 8.**

Dyma argraffiad diweddaraf PCC ac mae'n cyfeirio at y materion canlynol:

- Mireinio proses y CDLl;
- Diwygiadau i Reoliadau Cynllun Gwlad a Thref (CDLl) (Cymru) 2005;
- Diweddaru'r Llawlyfrau ar CDLlau (argraffiad 2, 2015);
- Tynnu CDLl yn ôl: Polisi ar Baratoi CDLlau (2005);
- Darpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – cyflwyno 7 nod llesiant ac egwyddor datblygu cynaliadwy;
- Darpariaethau Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 ynglŷn â'r Gymraeg – sy'n atgyfnerthu'r ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg yn y system gynllunio;
- Ymgorffori polisïau cynllunio ar gyfer datblygiadau mwynau ym mhennod 14 newydd CCP – sef Polisi Cynllunio Cymru Mwynau (MPPW) (2001) gynt;
- Datblygu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru Llywodraeth Cymru;
- Darpariaeth Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2015;
- Mewn perthynas ag ynni adnewyddadwy, diweddari a fydd yn cyfeirio at gyfarpar microgynhyrchu annomestig ar raddfa fach.

Goblygiadau i'r CDLl – caiff y newidiadau i broses y CDLl eu dilyn wrth adolygu'r Cynllun.

2.5. Llawlyfr Llywodraeth Cymru ar CDLlau

- **Llawlyfr ar CDLlau Argraffiad 2 (2015) – dogfen gyfeirio i ymarferwyr – 07/10/15**

Mae'r ddogfen hon wedi'i llunio i'w darllen ar y cyd â rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, y Rheoliadau ynglŷn â CDLlau a Pholisi Cynllunio Cymru (Pennod 2 yn benodol). Mae'n rhoi cyngor ymarfer a thechnegol manwl ynglŷn â pharatoi CDLl.

Goblygiadau i'r CDLl – bydd argraffiad newydd y Llawlyfr ar CDLlau yn tywys y Cyngor drwy'r gweithdrefnau diwygiedig i'w dilyn wrth adolygu'r Cynllun.

2.6. Nodiadau Cyngor Technegol Llywodraeth Cymru

- **TAN 12 Dylunio 2016 – Mawrth 2016**
- **Canllawiau ar Ddylunio a Datganiadau Mynediad 2016 Mawrth 2016**

Mae'r argraffiad newydd o TAN 12 yn rhoi cyngor ar y diffinniad o ddylunio, prosesau dylunio, materion dylunio yn ôl pwnc, polisi a chyngor dylunio awdurdodau cynllunio lleol, datganiadau dylunio a mynediad ac adeiladau cynaliadwy. Y themâu allweddol yw hyrwyddo cynaliadwyedd drwy ddylunio a chynllunio da ar gyfer adeiladau cynaliadwy. Nid oes angen datganiadau dylunio na mynediad ar gyfer pob cais mwyach.

Goblygiadau i'r CDLl – mae'r TAN 12 diwygiedig eisoes yn ystyriaeth gynllunio berthnasol a chaiff ei ystyried wrth adolygu'r CDLl.

- **TAN 8 Cronfa ddata 2015 – adolygiad o ddatblygiadau ffermydd gwynt – 14/09/15**

Mae hwn yn rhoi crynodeb o allbynnau cynlluniau ffermydd gwynt dros 5MW yng Nghymru. Mae'n cynnwys y rhai sy'n cael eu hystyried, eu cymeradwyo a / neu sy'n weithredol. Mae'n gwahaniaethu rhwng prosiectau o hyd at 50MW a thros 50MW, gan fod cyfundrefnau caniatáu gwahanol ar gyfer pob un. Mae hefyd yn nodi cynlluniau mewn Ardaloedd Chwilio Strategol TAN 8.

Goblygiadau i'r CDLl – bydd Asesiad o Ynni Adnewyddadwy yn ategu'r sylfaen dystiolaeth yn y maes pwnc hwn wrth adolygu'r Cynllun. Bydd Cronfa ddata 2015 yn helpu i lywio hyn.

2.7. Llythyrau Llywodraeth Cymru at Prif Swyddogion Cynllunio

- **Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd ar gyfer Ceisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015 – 14/08/15**

Mae'r llythyr hwn yn ymwneud â'r rheoliadau newydd ynglŷn â ffioedd a ddaeth i rym ar 01/10/15.

Goblygiadau i'r CDLl – er bod hyn yn effeithio ar swyddogaethau Rheoli Datblygu'r Cyngor yn bennaf mae'r llythyr yn disgwyl i CDLlau fod wedi'u paratoi ac wedi'u diweddaru.
.

- **Cynllunio ar gyfer ynni adnewyddadwy a charbon isel – 21/09/15 – gan gynnwys fersiwn diwygiedig o'r Pecyn Cymorth ar Ynni Adnewyddadwy i Gynllunwyr**

Mae'r llythyr yn cynnwys cyhoeddiad ynglŷn â fersiwn diwygiedig o'r Pecyn Cymorth ar Ynni Adnewyddadwy i Gynllunwyr. Dogfen ganllaw ydyw, er

mwyn helpu awdurdodau cynllunio lleol i baratoi asesiadau o ynni adnewyddadwy a datblygu polisïau ynglŷn ag ynni adnewyddadwy ac ynni carbon isel yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae gan y ddogfen ddiwygiedig adran newydd ar ddatblygiadau ffermydd solar.

Goblygiadau i'r CDLl – bydd y fersiwn diwygiedig o'r Pecyn Cymorth ar Ynni Adnewyddadwy i Gynllunwyr yn llywio'r gwaith o baratoi'r Asesiad o Ynni Adnewyddadwy wrth adolygu'r CDLl.

- **Iechyd Amgylcheddol y Cyhoedd a'r System Gynllunio – 02/11/15**

Mae Gwasanaeth Iechyd Amgylcheddol y Cyhoedd yng Nghymru yn ymgymryd â gwaith i gefnogi'r broses gynllunio. Y nod yw meithrin a datblygu cysylltiadau ychwanegol ag awdurdodau cynllunio lleol a sicrhau mwy o ymgysylltu yn y broses gynllunio, gan gynnwys gweithgareddau rheoli datblygu a chynllunio strategol.

Goblygiadau i'r CDLl – bydd hyn yn rhoi gwell tystiolaeth ynglŷn ag iechyd amgylcheddol y cyhoedd, a all ddarparu deunydd perthnasol ar gyfer sylfaen dystiolaeth yr adolygiad o'r CDLl.

- **Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (Gorchmynion Cychwyn 1 a 2) – 07/12/15**

Mae'r llythyr hwn yn esbonio effeithiau ymarferol yr amrywiol ddarpariaethau a geir yn y ddau Orchymyn Cychwyn hyn. Mae'r pynciau a gwmpaswyd yn cynnwys Cynlluniau Datblygu Strategol, y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, Datblygu Cynaliadwy, y Gymraeg, Cynlluniau Datblygu Lleol a Chydbwyllgorau Cynllunio.

Yn y dyfodol, bydd yn ofynnol i CDLlau gynnwys dyddiad gorffen, ac ar ôl y dyddiad hwnnw bydd y Cynllun yn peidio â bod yn Gynllun Datblygu at ddibenion gwneud penderfyniadau. Mae adran 13 yn atal tynnu CDLl yn ôl, hyd at adeg ei gyflwyno i'w archwilio, heb gymeradwyaeth flaenorol Gweinidogion Cymru. Mae adran 14 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo dau neu fwy o awdurdodau cynllunio lleol (heb gynnwys awdurdodau Parciau Cenedlaethol) i baratoi CDLl ar y cyd. Daeth y pwerau hyn i rym ar 04/01/16.

Goblygiadau i'r CDLl – nid yw'r sefyllfa o ran Cynlluniau Datblygu Strategol yn ne-orllewin Cymru yn eglur ar hyn o bryd, ond y tebyg yw y bydd un ar gyfer ardal Abertawe rywbryd neu'i gilydd. Unwaith y bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ar waith, bydd pob CDLl yn cael ei ddiwygio i fod yn unol â'r darpariaethau. Erys yr ymrwymiad i system sy'n dilyn y cynllun ac sy'n seiliedig ar CDLlau cyfredol. Ar adeg adolygu'r Cynllun, bydd angen rhoi ystyriaeth bellach i faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

- **Cyhoeddi Cynllun Gweithredu Cynllunio Cadarnhaol – 10/12/15**

Mae'r Cynllun Gweithredu Cynllunio Cadarnhaol yn dwyn ynghyd eitemau o is-ddeddfwriaeth ategol, prosiectau a rhaglenni gwella a ddarperir gan y Llywodraeth wrth iddi hyrwyddo agenda cynllunio cadarnhaol. Mae hefyd yn amlinellu blaenoriaethau a therfynau amser ar gyfer cyflawni yn ystod tymor y Cynulliad hyd at fis Mai 2016. Awgrymir terfynau amser ar ôl mis Mai 2016, er y byddant yn amodol ar gadarnhad Llywodraeth newydd Cymru ar ôl iddi gael ei hethol.

Goblygiadau i'r CDLl – bydd yn rhaid ystyried y Cynllun Gweithredu wrth adolygu'r CDLl.

- **Polisïau ynni mewn CDLlau – 10/12/15**

Mae'r llythyr yn esbonio yr hoffai Llywodraeth Cymru weld mwy o ddefnydd o bolisïau gofodol mewn CDLlau, er mwyn adlewyrchu ei huchelgeisiau ar gyfer ynni adnewyddadwy.

Mae'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol yn annog prosiectau ynni adnewyddadwy a charbon isel ar raddfa fach a chanolig. Disgwylir y bydd polisïau CDLl yn ei gwneud yn bosibl i gyflawni hyn, a hefyd benderfyniadau rheoli datblygu sy'n gyson â rhwymedigaethau newid hinsawdd cenedlaethol a rhyngwladol.

Disgwylir i'r system gynllunio yng Nghymru nodi a diogelu ardaloedd sydd â'r potensial i gynhyrchu ynni adnewyddadwy yn yr hirdymor. Mae Llywodraeth Cymru yn dweud y dylid gwneud hyn, ni waeth beth fo penderfyniadau yn y tymor byr ynglŷn â chymorth ariannol a chyfundrefnau rheoleiddio a wneir gan Lywodraeth y DU.

Goblygiadau i'r CDLl – bydd angen i'r llythyr hwn gael ei ystyried wrth baratoi'r Asesiad o Ynni Adnewyddadwy i ategu'r adolygiad o'r CDLl.

- **Adroddiadau Dosbarthu Tir Amaethyddol – 13/01/16**

Mae Llywodraeth Cymru yn cynghori ei bod yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol ymgynghori â hi cyn rhoi caniatâd ar gyfer unrhyw gynigion nad ydynt yn unol â'r Cynllun Datblygu ac a fyddai'n golygu colli 20 hectar neu fwy o dir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (yn barhaol a dros dro). Mae hyn yn cynnwys colli llai nag 20 hectar sy'n debygol o arwain at golli mwy nag 20 hectar yn y pen draw. At hynny, mae Llywodraeth Cymru yn cynghori y gall colli tir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas fod yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod, er mwyn cymhwyso'r polisi ynglŷn â thir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas, ei bod yn bwysig bod gan awdurdodau cynllunio lleol wybodaeth gywir am ansawdd tir. Nid yw'r map

Dosbarthiad Tir Amaethyddol Dros Dro i Gymru yn gywir ar raddfa safle penodol. Mae Llywodraeth Cymru yn cynghori y dylid cael gwybodaeth drwy arolwg manwl o Ddosbarthiad Tir Amaethyddol ac mae'n cynnig gwasanaeth dlysu adroddiadau ar Ddosbarthiad Tir Amaethyddol am ddim, y caiff awdurdodau cynllunio lleol eu hannog i'w ddefnyddio.

Mae Llywodraeth Cymru yn paratoi Canllawiau Arfer Gorau a mapiau dosbarthiad tir amaethyddol wedi'u diweddaru i Gymru.

<u>Goblygiadau i'r CDLl</u> – bydd y gwasanaeth dilysu sydd ar gael o gymorth yng nghyd-destun CDLl ar gyfer dyraniadau.

Roedd i nifer o lythyrau a gyhoeddwyd oblygiadau o ran Rheoli Datblygu, gan gynnwys:

- **Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol – 01/03/16**
- **Prosiectau Ynni Adnewyddadwy – 16/03/16**
- **Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Nwyeiddio Glo Tanddaearol) (Cymru) 2016**
- **Dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â cheisiadau nwy siâl – 14/08/15**

2.8. <u>Llythyrau Egluro Polisi Llywodraeth Cymru</u>

- **CL-01-15 – diweddaru TAN 11 Sŵn – Ymrwymiadau'r Cynllun Gweithredu Sŵn (2013-18)**

  Mae'r llythyr hwn yn adlewyrchu Safonau Prydeinig wedi'u ddiweddaru a hefyd newidiadau deddfwriaethol sydd wedi digwydd ers i TAN 11 gael ei gyhoeddi yn 1997.

  Mae un elfen o'r llythyr yn tynnu sylw at elfennau o bolisi sŵn sydd eisoes ar waith ynglŷn â gweithgareddau creu sŵn sy'n ymwneud â thrafnidiaeth.

  <u>Goblygiadau i'r CDLl</u> – caiff hyn ei ystyried wrth adolygu'r CDLl.

- **CL-01-16 – Cynllunio a Gofal Plant yng Nghymru**

  Mae'r llythyr hwn yn ailddatgan pwysigrwydd darpariaeth gofal plant. Mae'n cwmpasu'r berthynas rhwng cynllunio, gwarchod plant a darpariaeth gofal dydd.

Goblygiadau i’r CDLl – caiff hyn ei ystyried wrth adolygu’r CDLl.

2.9. Canllawiau a Thaflenni Cynllunio Llywodraeth Cymru

- **Canllawiau Ymarfer – Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel – Pecyn Cymorth i Gynllunwyr – 21/09/15**

Cyhoeddwyd fersiwn wedi’i ddiweddaru o’r Pecyn Cymorth ym mis Medi 2015, gan ddarparu methodoleg ddiwygiedig ar gyfer datblygu’r sylfaen dystiolaeth.

Mae’n cynnwys adran ynglŷn â sut i asesu’r potensial ar gyfer datblygiadau ffermydd solar. Mae hefyd yn rhoi cyngor ynglŷn â sut i symud o asesiadau o ynni adnewyddadwy i ddatblygu polisïau CDLl.

Goblygiadau i’r CDLl – bydd y fersiwn wedi’i diweddaru o’r Pecyn Cymorth ar Ynni Adnewyddadwy i Gynllunwyr yn llywio’r gwaith o baratoi’r Asesiad o Ynni Adnewyddadwy wrth adolygu’r CDLl.

- **Practice Guidance – Building an Economic Development Evidence Base to Support a Local Development Plan (Saesneg yn unig) – 25/09/15**

Mae’r Canllawiau Ymarfer hyn gan Lywodraeth Cymru yn rhoi cyngor cam wrth gam i awdurdodau cynllunio lleol ynglŷn â sut i adeiladu sylfaen dystiolaeth i gefnogi strategaethau a pholisïau tiroedd cyflogaeth CDLl.

Mae’n adeiladu ar gyngor a geir ym Mholisi Cynllunio Cymru (Pennod 7) ac yn TAN 23 ar Ddatblygu Economaidd. Nid oes rhwymedigaeth ar awdurdodau cynllunio lleol i gadw’n gaeth at ei ddarpariaethau felly gallant amrywio’r dull gweithredu os oes rhesymau da dros wneud hynny.

Mae’r Canllawiau yn dadlau o blaid paratoi Sylfaen Dystiolaeth o Gyflogaeth sy’n Fwy na Chyflogaeth Leol, ar y cyd ag awdurdodau cyfagos. Mae hefyd yn cynnig Sylfaen Dystiolaeth o Gyflogaeth Leol, ar ffurf Adolygiad o Diroedd Cyflogaeth.

Mae’r Canllawiau hefyd yn argymell yn gryf y dylid datblygu gweledigaeth economaidd i gefnogi CDLlau, wedi’i hategu gan dystiolaeth. Awgrymir y dylai hon gael ei nodi ar ffurf drafft ar gam cynnar ym mhroses y Cynllun a dylid caniatáu iddi ddatblygu wrth i’r broses fynd rhagddi.

Goblygiadau i’r CDLl – bydd y gwaith o baratoi Sylfaen Dystiolaeth o Gyflogaeth ‘Yn Fwy na Chyflogaeth Leol’ yn mynd rhagddo mewn partneriaeth. Ar gyfer yr Adolygiad lleol o Diroedd Cyflogaeth, mae’r Cyngor wedi newid y fethodoleg ar gyfer ei arolygon o gyflogaeth er mwyn iddynt

gydymffurfio'n well â'r gofynion newydd. Caiff arolwg 2016 ei gynnal ar y cyd â'r Awdurdod Parc Cenedlaethol.

- **Index of Planning Policy Guidance for Wales (Saesneg yn unig) – 17/12/15**

  Goblygiadau i'r CDLl – dogfen gyfeirio yn unig ydyw.

- **Tai Amlfeddiannaeth: Canllaw Ymarfer – 25/02/16**

  Goblygiadau i'r CDLl – mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â rheoli tai amlfeddiannaeth, yn hytrach na newid y polisi. Mae'n annhebygol y bydd unrhyw oblygiadau sylweddol i'r CDLl.

- **Canllaw ar Ddadansoddi Safleoedd a Chyd-destun: Pennu Gwerth Safle – 16/03/16**

  Goblygiadau i'r CDLl – mae hwn yn effeithio ar swyddogaethau Rheoli Datblygu'r Cyngor yn bennaf.

2.10. Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru 2015/16 sydd wedi dod i ben

- **Gwaredu Daearegol o Wastraff Ymbelydrol Uwch ei Actifedd – Ymgysylltu â'r Gymuned a Phrosesau Gweithredu – 19/05/15 i 18/08/15**

  Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi penderfynu mabwysiadu polisi ar gyfer gwaredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd yn ddaearegol. Wrth wneud hynny, daeth i'r casgliad mai dim ond gwaredu daearegol a allai gynnig llwybr ar gyfer yr holl stocrestr o wastraff i'w waredu.

  Goblygiadau i'r CDLl – mae hyn yn annhebygol o effeithio ar y CDLl.

- **Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) (Cymru) 2015 – 11/02/15 i 08/04/15**

  Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am drosi gofynion cynllunio defnydd tir o Gyfarwyddeb Seveso III yng Nghymru. Mae wedi gwneud hyn drwy ddiwygio a diweddaru'r gyfundrefn bresennol ar gyfer caniatadau sylweddau peryglus drwy sicrhau y caiff nodau'r Gyfarwyddeb eu hystyried mewn polisïau a phenderfyniadau cynllunio.

  Goblygiadau i'r CDLl – caiff hyn ei ystyried wrth adolygu'r CDLl.

- **Newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau Asesu Effaith Amgylcheddol a'r Gorchmynion Datblygu Lleol – 26/03/15 i 18/06/15**

Cynigiodd yr ymgynghoriad hwn y canlynol:

Goblygiadau i'r CDLl – mae hyn yn annhebygol o effeithio ar y CDLl.

- **Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol – 20/05/15 i 12/08/15**

  Goblygiadau i'r CDLl – mae hyn yn effeithio ar swyddogaethau Rheoli Datblygu'r Cyngor yn bennaf.

- **Is-ddeddfwriaeth ar gyfer Rheoli Datblygu – 19/06/15 i 11/09/15**

  Goblygiadau i'r CDLl – mae hwn yn effeithio ar swyddogaethau Rheoli Datblygu'r Cyngor yn bennaf.

- **Is-ddeddfwriaeth arall ar gyfer Rheoli Datblygu – 03/08/15 i 26/10/15**

  Goblygiadau i'r CDLl – mae hwn yn effeithio ar swyddogaethau Rheoli Datblygu'r Cyngor yn bennaf.

- **Cynigion sy'n ymwneud â Rheoliadau Paneli Cynllunio Strategol: Cyfansoddiad a Materion Ariannol – 10/08/15 i 02/11/15**

  Cyflwynwyd Paneli Cynllunio Strategol drwy Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015. Byddai'r rhain yn gyfrifol am baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol. O dan y cynigion hyn, byddai Panel Cynllunio Strategol yn dod yn gorff cyhoeddus yng Nghymru a byddai ganddo un swyddogaeth yn ymwneud â llunio cynllun. Byddai ganddo statws corff corfforaethol hefyd a byddai'n cynnwys aelodau awdurdodau lleol ac aelodau enwebedig o grwpiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae'r cynigion yn cynnwys gofynion manwl ynglŷn â chyfansoddiad Paneli ac amrywiol faterion ariannol.

  Goblygiadau i'r CDLl – mae'n fwy na thebyg y bydd Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer ardal Abertawe maes o law. Nid yw'n sicr pryd y gallai hwn gael ei gyflwyno na'r ardal y bydd yn ei chwmpasu, ond credir ei bod yn annhebygol o fod â goblygiadau i'r adolygiad o CDLl CSP.

- **Newidiadau arfaethedig i Bennod 10 Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) (TAN) 4 : Datblygu Canolfannau Manwerthu – 03/09/15 i 26/11/15**

  Roedd yr ymgynghoriad hwn yn ymwneud â diweddaru Pennod 10 o Bolisi Cynllunio Cymru a diwygio TAN 4 yn unol â hynny. Y prif amcan yw gwella bywiogrwydd, atyniad a dichonoldeb canolfannau sefydledig.

O ran PCC, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig:

- Amcanion diwygiedig ar gyfer polisi cynllunio manwerthu, gan gynnwys yr angen am hyblygrwydd wrth ymateb i newidiadau ar y farchnad;
- Mwy o bwyslais ar yr angen am i bolisïau manwerthu gael eu llunio gan strategaeth fanwerthu mewn Cynlluniau Datblygu Lleol, wedi'u hategu gan uwchgynlluniau a chynlluniau lle, er mwyn helpu i gyflawni'r strategaeth;
- Gofyniad i CDLlau nodi hierarchaeth o ganolfannau a bennir yn lleol;
- Canllawiau clir ar ddefnyddiau yn amodol ar y prawf cymalog;
- Polisïau diwygiedig ar gyfer ymdrin â defnyddiau newydd a chanolfannau sy'n newid a dull cyson o ran terminoleg.

O ran TAN 4, cynigir y dylai gael ei ddiwygio'n gynhwysfawr, gyda chyngor technegol yn cael ei roi yn y meysydd pwnc canlynol:

- Amcanion manwerthu;
- Hierarchaethau o ganolfannau;
- Strategaethau manwerthu, uwchgynlluniau a chynlluniau lle;
- Profion anghenion manwerthu;
- Y prawf cymalog;
- Ffryntiadau manwerthu;
- Newid defnydd a rheoli datblygu;
- Gorchmynion Datblygu Lleol;
- Dangosyddion monitro.

Goblygiadau i'r CDLl – Ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi (yn ystod cyfnod AMB 4) bydd y rhain yn dod yn ystyriaethau cynllunio perthnasol, i'w hystyried wrth adolygu'r CDLl.

- **Rheoliadau Adeiladu 2010, Dogfen R Gymeradwy – Seilwaith Ffisegol ar gyfer Rhwydweithiau Cyfathrebu Electronic Cyflym Iawn – 01/12/15 i 12/01/16**

Goblygiadau i'r CDLl – mae hyn yn annhebygol o effeithio ar y CDLl.

- **Newidiadau Arfaethedig i Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) (TAN) 20: Cynllunio a'r Gymraeg – 04/01/16 i 30/03/16**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig diwygiadau i TAN 20 er mwyn adlewyrchu darpariaethau a geir yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015 sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Mae elfennau o ddogfen Canllaw Ymarfer TAN 20 hefyd wedi cael eu hymgorffori yn y fersiwn newydd o'r TAN, er mwyn sicrhau bod yr holl ganllawiau perthnasol ar gael mewn un lle.

Mae TAN 20 ar ei ffurf ddiwygiedig yn rhoi canllawiau ynglŷn â sut y dylai ystyriaethau ynglŷn â'r Gymraeg gael eu hystyried gan awdurdodau cynllunio lleol pan gaiff Cynlluniau Datblygu Lleol eu paratoi a phan gaiff penderfyniadau ar geisiadau cynllunio eu gwneud.

Mae'r newidiadau arfaethedig yn ymwneud â'r materion canlynol:

- Y cyswllt rhwng cynllunio ar gyfer y Gymraeg drwy gynllunio defnydd tir a chynllunio cymunedol;
- Eglurhad y gall y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ystyried yr iaith pan fydd yn berthnasol i'r cais;
- Defnyddio asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg o dan amgylchiadau penodol.

Goblygiadau i'r CDLl – pan fydd fersiwn newydd TAN 20 yn derfynol, bydd yn dod yn ystyriaeth gynllunio berthnasol a bydd angen ei hystyried wrth adolygu'r CDLl.

- **Cynigion ynglŷn â Datganiad Cyfranogiad y Cyhoedd ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol – 01/02/16 i 25/04/16**

Cyflwynwyd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drwy Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015. Bydd yn Gynllun Datblygu defnydd tir cenedlaethol. Bydd yn amlinellu amcanion cynllunio gofodol cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Llywodraeth Cymru ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf.

Yr ymgynghoriad hwn oedd y cam cyntaf yn y broses o baratoi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, sef paratoi Datganiad Cyfranogiad y Cyhoedd. Mae hwn yn amlinellu'r camau allweddol a'r amserlen ar gyfer paratoi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r camau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd. Bwriedir amlinellu manylion prosesau'r AoG a'r AAS ar y cam cynnar hwn hefyd.

Goblygiadau i'r CDLl – mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â chyfranogiad y cyhoedd ar y cyd â pharatoi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru. Fel y cyfryw, mae'n annhebygol o effeithio ar y CDLl, ond bydd angen i CSP chwarae rhan weithredol wrth ymateb i ymgynghoriadau ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol wrth iddo ddatblygu.

- **Ymgynghoriadau anffurfiol ar Gynlluniau Lle – a ddaeth i ben 07/12/15**

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhoi canllawiau ynglŷn â sut y gall y cynnig ar gyfer Cynlluniau Lle, sy'n rhan o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, gael ei gyflwyno drwy Ganllawiau Cynllunio Atodol.

Goblygiadau i'r CDLl – Efallai y bydd angen ystyried perthynas Cynlluniau Lle â'r CDLl wrth adolygu'r CDLl.

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – ymgynghoriad ar ddangosyddion – a ddaeth i ben 11/01/15**

  Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar set ddrafft o ddangosyddion, a ddewiswyd i fonitro Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol drafft yw'r rhain, a ddefnyddir i fesur cynnydd tuag at gyflawni'r saith nod llesiant a nodir yn y Ddeddf.

  <u>Goblygiadau i'r CDLl</u> – cyfeiriodd yr ymgynghoriad hwn at ddangosyddion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i gefnogi nodau llesiant y Ddeddf. Mae'r Ddeddf eisoes yn ystyriaeth gynllunio berthnasol a chaiff ei hystyried pan gaiff y CDLl ei adolygu.

- **Adolygiad Cynaliadwyedd Rheoliadau Adeiladu – 01/03/16 i 24/05/16**

  Roedd yr ymgynghoriad hwn yn ymwneud â chynigion Llywodraeth Cymru i ymgorffori agweddau ar y Polisi Cynllunio Cenedlaethol Adeiladau Cynaliadwy (a'r TAN 22 cysylltiedig) yn y Rheoliadau Adeiladu yng Nghymru. Y bwriad oedd ymgorffori'r elfennau o'r Cod Cartrefi Cynaliadwy / BREEAM nad ydynt yn ymwneud ag ynni yn y Rheoliadau Adeiladu. Cadarnhaodd adolygiad dilynol y gallai nifer o elfennau gael eu hymgorffori yn y Rheoliadau Adeiladu.

  <u>Goblygiadau i'r CDLl</u> – bydd y penderfyniad i ganslo'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol Adeiladau Cynaliadwy a TAN 22 yn cael ei ystyried wrth adolygu'r CDLl. Mae materion yr ymdriniwyd â hwy drwy'r dogfennau hyn wedi cael eu hymgorffori yn Rheoliadau Adeiladu Cymru i raddau helaeth a chânt eu gweithredu y tu allan i'r system Gynllunio.

- **Newidiadau arfaethedig i Bennod 6 o Bolisi Cynllunio Cymru – Yr Amgylchedd Hanesyddol – 21/03/16 i 13/06/16**

  Cynigir gwneud newidiadau amrywiol i Bennod 6 o Bolisi Cynllunio Cymru, er mwyn sicrhau bod:

  - Polisi cynllunio cenedlaethol yn cyflawni amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer amgylchedd hanesyddol hygyrch sydd wedi'i ddiogelu'n dda;
  - Polisi cynllunio cenedlaethol yn rhoi sylw dyladwy i ddeddfwriaeth a chanllawiau diweddar ar ddiogelu amgylchedd hanesyddol Cymru a'i reoli'n gynaliadwy sydd wedi cael eu paratoi neu sydd wrthi'n cael eu paratoi.

  <u>Goblygiadau i'r CDLl</u> – pan fydd Pennod 6 o PCC yn derfynol, daw yn ystyriaeth gynllunio berthnasol a bydd angen ei hystyried wrth adolygu'r CDLl.

2.11. <u>Ymgynghoriad yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol</u>

- **Adolygiad o'r Ardoll Seilwaith Cymunedol – 19/11/15 i 15/01/16**

  Cyflwynwyd yr Ardoll Seilwaith Cymunedol yn gyntaf ym mis Ebrill 2010, er mwyn cynnig modd cyflymach, tecach mwy sicr a thryloyw o gasglu cyfraniadau datblygwyr i seilwaith na'r rhwymedigaethau cynllunio Adran 106 a negodwyd yn unigol.
  Nod yr adolygiad hwn oedd asesu i ba raddau y mae'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yn cynnig ffordd effeithiol o ariannu seilwaith. Bydd yn argymell newidiadau a fyddai'n gwella'r ffordd y mae'n gweithredu, er mwyn cefnogi amcanion tai a thwf ehangach Llywodraeth y DU.

  Goblygiadau i'r CDLl – ar hyn o bryd nid oes Ardoll Seilwaith Cymunedol wedi'i chyflwyno gan Gyngor Sir Penfro eto. Bydd argymhellion yr Adolygiad, unwaith y cânt eu cyhoeddi, yn llywio ystyriaeth CSP o'r Ardoll Seilwaith Cymunedol ochr yn ochr ag adolygu'r Cynllun pan gaiff y CDLl ei adolygu. .

## Rhan 3: Dogfennau Cyngor Sir Penfro:

2.12. Cynnydd o ran paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol y CDLl a gwaith amgylchedd hanesyddol ac adfywio allweddol arall

- Daeth **Canllawiau Cynllunio Atodol y CDLl ar Dai Fforddiadwy** i rym ar 14/09/15, ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus ar ganllawiau drafft rhwng 20/05/15 a 02/07/15. Mae'r rhain yn disodli fersiwn gynharach.
- Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar **Ganllawiau Cynllunio Atodol Drafft ar Ynni Adnewyddadwy** rhwng 24/02/16 a 11/04/16. Caiff y ddogfen ei llunio ar ei ffurf derfynol yn ystod blwyddyn 4 yr AMB.
- Cafodd **Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft ar Rwymedigaethau Cynllunio** eu paratoi ar y cyd gan y Cyngor a'r Awdurdod Parc Cenedlaethol. Cânt eu llunio ar eu ffurf derfynol yn ystod blwyddyn 4 yr AMB, ac wedyn bydd yn disodli'r Canllawiau Cynllunio Atodol presennol ar y pwnc hwn.
- **Arfarniadau Cymeriad a Chynlluniau Rheoli Ardaloedd Cadwraeth:** mae gwaith wedi mynd rhagddo ar Ardaloedd Cymeriad / Cynlluniau Rheoli Ardaloedd Cadwraeth ar gyfer Abergwaun, Wdig a Thref Isaf Abergwaun ac ystyriaeth gysylltiedig o'r angen am Gyfarwyddiadau Erthygl 4, yn barod ar gyfer ymgynghoriad ym mlwyddyn 4 yr AMB.
- Adfywio Canol Tref Hwlffordd: Cynnydd o ran paratoi Gweledigaeth ddrafft ar gyfer Dyfodol Canol Tref Hwlffordd, yn barod ar gyfer ymgynghoriad yn ystod blwyddyn 4 yr AMB.

## Rhan 3: Ymrwymiad o AMB 2 i adrodd yn ôl

2.13. Ymrwymiadau i adrodd yn ôl yn fanylach o AMB 2 (lle na chyflwynwyd adroddiad eisoes):

- Cyfoeth Naturiol Cymru – Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd – Gorllewin Cymru (‘Rheoli Perygl Llifogydd yn Ardal Basn Afonydd Gorllewin Cymru’)

  Cyhoeddwyd y ddogfen hon yn 2015 ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus. Mae’n cwmpasu llifogydd o’r prif afonydd, y môr a chronfeydd dŵr. Mae Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd yn nodi perygl llifogydd ac yna’n amlinellu amcanion a mesurau ar gyfer rheoli’r perygl hwnnw. Maent yn coladu gwybodaeth o bob ffynhonnell o lifogydd ac erydu arfordirol. Yna caiff y wybodaeth hon ei defnyddio i lywio, blaenoriaethu, gwneud penderfyniadau buddsoddi a phennu rhaglenni gwaith.

Goblygiadau i’r CDLl – bydd angen i’r Cynllun hwn gael ei ystyried wrth adolygu’r CDLl.

- Cyfoeth Naturiol Cymru – Cynlluniau Rheoli Basn Afonydd – 3 dalgylch yn ne-orllewin Cymru

  Ym mis Rhagfyr 2015 cyhoeddwyd Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru ar gyfer 2015 i 2021. Hwn oedd ail fersiwn y Cynllun hwn. Cyhoeddwyd y fersiwn gyntaf yn 2009. Diben y Cynllun yw diogelu a gwella’r amgylchedd dŵr er mwyn sicrhau manteision ehangach i bobl a bywyd gwyllt. Mae’n cynnwys crynodeb o’r Rhaglen o Fesurau sydd eu hangen i gyflawni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, ynghyd â’r canlyniadau amgylcheddol a ragwelir, dros y chwe blynedd nesaf. Mae hefyd yn ymgorffori gwybodaeth am ddosbarthu cyrff dŵr ac am amcanion statudol ar gyfer cyrff dŵr.

  Goblygiadau i’r CDLl – bydd angen i’r Cynllun hwn gael ei ystyried wrth adolygu’r CDLl.

- **Cynlluniau ar gyfer ad-drefnu Llywodraeth Leol**

  Erys hyn i’w ystyried ymhellach yn ystod blwyddyn adrodd AMB 4, fel ystyriaeth bwysig ar gyfer yr Adolygiad o’r CDLl.

- **Adolygiad Annibynnol o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru** – cyhoeddwyd 29/10/15

  Adolygiad annibynnol ydoedd, er mwyn sicrhau bod tirweddau dynodedig Cymru yn barod i ateb yr heriau presennol a heriau yn y dyfodol. Cyhoeddwyd yr Adolygiad ar 29/10/15 ac mae’n gwneud 69 o argymhellion, sy’n ymwneud â dibenion, egwyddorion, gweledigaeth, modelau llywodraethu, cynllunio a chyllid. Yr argymhellion allweddol oedd:

- o na ddylid newid enw na statws cyfreithiol Parciau Cenedlaethol nac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol;
- o y dylai rôl cymorth a chyflawni cyrff eraill gael ei chryfhau;
- o y dylid creu Pwyllgor Tirwedd Naturiol.

Sefydlwyd Panel annibynnol i ystyried dichonoldeb yr argymhellion.

Goblygiadau i'r CDLl – bydd CDLlau ar wahân yn parhau i gael eu paratoi gan y Cyngor a'r Awdurdod Parc Cenedlaethol, ond ar sail cryn dipyn o dir cyffredin ac ymrwymiad i gydweithio lle bynnag y bo hynny'n ddichonadwy.

- **Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol Llywodraeth Cymru, 2015**

Cyhoeddwyd y Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol ym mis Gorffennaf 2015. Mae'n amlinellu cynigion buddsoddi Llywodraeth Cymru ar gyfer y gwasanaethau trafnidiaeth y mae'n gyfrifol amdanynt. Mae'n nodi manylion ynglŷn â sut y caiff y cynigion yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2015 ymlaen eu cyflawni. Mae i'r Cynllun bedwar diben:

- o Rhoi'r terfynau amser ar gyfer ariannu'r cynlluniau i'w cynnal gan Lywodraeth Cymru;
- o Rhoi'r terfyn amser ar gyfer cyflawni'r cynlluniau hyn;
- o Nodi'r gwariant amcangyfrifedig fydd ei angen i gyflawni'r cynlluniau:
- o Nodi'r ffynhonnell debygol o gyllid i sicrhau y cânt eu cyflawni.

Mae llawer o'r cynigion yn rhai cyffredinol eu natur ac yn gymwys ledled Cymru. Mae'r cynigion ar gyfer safleoedd penodol yn cynnwys y canlynol:

o A25d – A.477 Doc Penfro i Johnston – 2016/17 i 2018/19 ;

o A10 – datblygu meini prawf asesu a rhestr wedi'i blaenoriaethu o gynigion ar gyfer gorsafoedd newydd i'w hystyried ymhellach – mae hyn yn cynnwys Tredeml (lle nad oes gorsaf ar hyn o bryd);

o A15 – Gwelliannau i ffordd yr A.40 rhwng Llanddewi Felffre a Phenblewin – ymchwiliad cyhoeddus yn dechrau ym mis Ebrill 2017 o bosibl, rhagwelir y bydd yn dechrau yn hydref 2017, ac yn gorffen erbyn hydref 2019.

Goblygiadau i'r CDLl – bydd angen diweddaru'r rhestr o gynlluniau seilwaith trafnidiaeth wedi'u diogelu wrth adolygu'r CDLl.

- **Monitro Gwastraff**

Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r awdurdod arweiniol ar gyfer paratoi Adroddiadau Monitro Cynllunio Gwastraff ar gyfer De-orllewin Cymru.

Cafodd drafft cychwynnol o'r Adroddiad Monitro ar gyfer 2014/15 (2014 yn unig ar gyfer allbynnau Cyfoeth Naturiol Cymru) ei ddosbarthu i'r awdurdodau ar ddechrau 2016. Cyflwynwyd ail ddrafft i Lywodraeth Cymru

ym mis Mehefin 2016. Ar adeg ysgrifennu (mis Gorffennaf 2016) disgwylid trydydd drafft, ac y byddai Llywodraeth Cymru yn ei gyhoeddi erbyn mis Medi 2016.

Disgwylir i'r Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff ar gyfer 2016/17 fod yn barod ym mis Mawrth 2017.

Goblygiadau i'r CDLl – bydd angen ystyried yr Adroddiadau Monitro wrth adolygu'r CDLl.

- **Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau – yr Adolygiad Cyntaf – gan gynnwys Atodiad B ar Dde Cymru**

Nodwyd yn AMB 2 y CDLl fod dull newydd o ymdrin â dosraniadau tir ar gyfer agregau yn ne-orllewin Cymru. Mae hwn yn ystyried y banc tir yn sir Benfro, Ceredigion a sir Gaerfyrddin ar y cyd (sef ardal yr hen Sir Dyfed i bob diben). Mae gwaith cydweithredol i ymdrin â dosrannu wedi dechrau a bydd yn parhau.

Mae CDLl CSP yn seiliedig ar asesiad o'r cronfeydd wrth gefn o fwynau ledled sir Benfro. Pan gaiff y Cynllun ei adolygu, bydd angen iddo adlewyrchu'r dull rhanbarthol newydd o ddosrannu.

Mae Grŵp Cynllunio Mwynau De-orllewin Cymru yn parhau i gyfarfod i drafod dosrannu, gyda safleoedd cynhyrchu tywod a gro daearol yn y dyfodol yn fater allweddol. Ceir amcan hefyd i leihau'n raddol faint o fwynau sy'n cael eu cynhyrchu mewn lleoliadau yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r ffordd y caiff safleoedd mwynau segur eu trin yn newid hefyd a bydd angen adlewyrchu hyn pan gaiff y CDLl ei adolygu.

Goblygiadau i'r CDLl – pan gaiff y Cynllun ei adolygu, bydd angen ystyried y dull newydd o ddosrannu a thrin safleoedd segur. Bydd hyn yn golygu bod angen i'r gwaith cydweithredol â Chyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Ceredigion ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro barhau.

- **Dŵr Cymru – AMP 6**

Mae Dŵr Cymru wedi ymgynghori ar egwyddorion cyffredinol Cynllun Rheoli Asedau 6 (AMP 6), ar gyfer y cyfnod 2015 i 2021, ac mae wedi cyhoeddi ei Gynllun Busnes ar gyfer 2015-2020. Mae hwn yn nodi un datblygiad seilwaith mawr yn sir Benfro, o dan bennawd sicrhau bod digon o ddŵr i ateb y galw, ymdopi â hinsawdd sy'n newid ac ymdrin â newidiadau i drwyddedau: gweithredu cynllun i symud dŵr o Bolton Hill i Breseli. Caiff hyn ei gyflawni drwy ddefnyddio trefniant tynnu dŵr trwyddedig amgen ac adeiladu prif gyflenwad dŵr newydd ym Mhont Cleddau am gost o £6m. Disgrifir buddsoddiadau eraill yn nhermau dull

gweithredu strategol, yn hytrach na lleoliadau a enwyd, sy'n wahanol i gynlluniau blaenorol.

Goblygiadau i'r CDLl – mae i benderfyniadau buddsoddi Dŵr Cymru oblygiadau o ran y gallu i gyflawni dyraniadau a hap-safleoedd y CDLl. Bydd yr adolygiad o'r CDLl yn dibynnu ar wybodaeth fanwl gan Dŵr Cymru am gynigion buddsoddi lleol a'u hamseriad.

2.14. Cynlluniau Datblygu Lleol Awdurdodau Cyfagos

- Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro – mae gwaith rhagarweiniol wedi dechrau ar yr adolygiad o CDLl yr Awdurdod Parc Cenedlaethol.

  Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar Adroddiad drafft yr Adolygiad, y Cytundeb drafft i Gyflawni'r Cynllun Newydd a'r Adroddiad Cwmpasu drafft ar gyfer yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.

- Cyngor Sir Ceredigion – mabwysiadwyd CDLl Ceredigion ar 25/04/13. Y dyddiad pedair blynedd ar gyfer dechrau'r adolygiad o'r CDLl yw 25/04/17.
- Cyngor Sir Caerfyrddin – mabwysiadwyd CDLl Sir Caerfyrddin ar 10/12/14. Y dyddiad pedair blynedd ar gyfer dechrau'r adolygiad o'r CDLl yw 10/12/18.

## Rhan 2: Data a Thueddiadau Cymdeithasol ac Economaidd

### Amcanestyniadau Llywodraeth Cymru o'r Boblogaeth ac Aelwydydd

2.15. Cafodd goblygiadau Amcanestyniadau 2011 o'r Boblogaeth ac Aelwydydd yn seiliedig ar Awdurdodau Lleol i Gymru, sy'n adlewyrchu data o Gyfrifiad 2011, eu trafod yn yr AMB cyntaf. Nid oes unrhyw amcanestyniadau newydd o'r boblogaeth ac aelwydydd wedi cael eu paratoi yn ystod cyfnod monitro 2015.

### Y cyd-destun presennol, tueddiadau a materion adfywio lleol

**Dangosyddion Cyflogaeth ac Enillion**


| **Dangosydd** | **Sir Benfro (gan gynnwys y Parc Cenedlaethol)** | **Cymru** | **Prydain Fawr** |
|---|---|---|---|
| Di-waith Rhagfyr 2012 | 6.4% | 8.3% | 7.9% |
| Di-waith Rhagfyr 2013 | 7.1% | 7.9% | 7.5% |
| Di-waith Rhagfyr 2014 | 5.7% | 6.8% | 6.2% |
| Di-waith Rhagfyr 2015 | 5.1% | 5.9% | 5.2% |
| Mewn gwaith Rhagfyr 2012 | 69.4% | 67.3% | 70.7% |
| Mewn gwaith Rhagfyr 2013 | 69.4% | 68.9% | 71.3% |
| Mewn gwaith Rhagfyr 2014 | 71.6% | 69.5% | 72.4% |
| Mewn gwaith Rhagfyr 2015 | 72.7% | 70.3% | 73.6% |
| Cyflog gros yr wythnos 2012 | £419.9 | £454.9 | £508.3 |
| Cyflog gros yr wythnos 2013 | £478.83 | £475.3 | £517.9 |
| Cyflog gros yr wythnos 2014 | £432.5 | £479.4 | £520.8 |
| Cyflog gros yr wythnos 2015 | £430.0 | £473.4 | £529.0 |

Ffynhonnell: Gwefan Nomis, 2016 – www.nomisweb.co.uk

2.16. Mae'r dangosyddion ar weithgarwch economaidd yn y tabl uchod yn dangos cysondeb cyffredinol yn economi sir Benfro, Cymru a Phrydain Fawr yn y cyfnod cyn i'r CDLl gael ei fabwysiadu ac a'r cyfnod ar ôl iddo gael ei

fabwysiadu. Bu rhai newidiadau mewn lefelau ond nid ystyrir bod y rhain yn ddigon sylweddol i gael effaith ar y ffordd y mae’r Cynllun yn gweithredu.

**Prisiau Tai**




2.17. Mae’r Cyngor yn monitro prisiau tai a dangosyddion eraill o amodau’r farchnad dai leol yn rheolaidd. Os ystyrir bod amodau o’r fath yn ddigon arwyddocaol eu natur i newid hyfywedd ariannol datblygiad, bydd y Cyngor yn ailasesu’r dystiolaeth o hyfywedd a ddylanwadodd ar dargedau’r CDLl ar gyfer Tai Fforddiadwy. Mae’r CDLl yn rhychwantu adeg ei fabwysiadu (2013) hyd at 2021 ac mae’r gwaith monitro hwn yn hanfodol er mwyn sicrhau ei fod yn ddigon hyblyg ac yn gallu gwrthsefyll newidiadau economaidd a bod y targedau a ddefnyddir i negodi tai fforddiadwy yn dal i fod yn gadarn.

2.18. Y trothwy ar gyfer ailasesu tystiolaeth o hyfywedd yw cynnydd o 5% neu fwy ym mhrisiau tai uwchlaw pris sylfaenol 2012, sef £155,000, sy’n parhau dros 2 chwarter. Pe cyrhaeddid y trothwy hwn, yna byddai’r Awdurdod yn ystyried dangosyddion eraill a nodwyd yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Dai Fforddiadwy a gall gynnal profion ychwanegol ar hyfywedd.

2.19. Byddai cynnydd o 5% ers y ffigur sylfaenol yn hafal i gynnydd o £7,750. Ers hynny, mae prisiau tai wedi bod islaw’r lefel hon ac yn ystod chwarter olaf 2015 cafwyd ffigur o £155,000. Mae hyn yn golygu na fu unrhyw newidiadau

digon sylweddol ym mhrisiau tai i'w gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ailasesu ei waith ar hyfywedd.

**Safleoedd Datblygu Mawr**

2.20. Mae'r CDLl yn nodi pedwar safle cyflogaeth strategol ym mholisi SP 3. Nodir crynodeb o gynnydd ym mhob un isod:

- Blackbridge – mae'r tir wedi'i werthu i ddatblygwr. Cynhaliwyd trafodaethau cyn cais ar gyfer prosiect ynni biomas.
- Mae Parc Gwyddoniaeth a Thechnoleg Sir Benfro – adeilad diwydiannol yn y rhan dde-ddwyreiniol o'r safle (caniatâd 14/0219/PA) wedi'i gwblhau. Ar wahân i hyn, ni fu unrhyw newid ar y safle hwn ers yr AMB diwethaf.
- Parc Busnes Llwynhelyg – ni fu unrhyw newid mawr ar y safle hwn. Roedd ceisiadau blwyddyn 2 a ganiatawyd yn cynnwys cynigion ar gyfer uned fasnachol dosbarth B8 (14/0509/PA) ac addoldy (13/0682/PA). Ym mlwyddyn 3, addaswyd y cynigion ar gyfer addoldy, ond ni roddwyd unrhyw ganiatadau eraill.
- Trecŵn – rhoddwyd caniatâd i adeiladu a gweithredu safle oriau brig sy'n defnyddio tanwydd diesel ym mis Medi 2012 (11/0462/PA) o fewn dyraniad cyflogaeth strategol y CDLl. Nid yw hwn wedi cael ei ddatblygu eto. Ym mis Ebrill 2015, rhoddwyd caniatâd i adeiladu gorsaf bŵer tanwydd coed i gynhyrchu ynni o fiomas (14/0300/PA) y tu allan i'r ardal a neilltuwyd, ond o fewn ffiniau Cwm Trecŵn.

2.21. Mae datblygiadau eraill sy'n effeithio ar safleoedd mawr a ddaeth i'r amlwg yn ystod blwyddyn 2 yn cynnwys:

- Marina Aberdaugleddau – cyflwynwyd cais cynllunio amlinellol gan Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau ar gyfer datblygiad defnydd cymysg (14/0158/PA). Mae hwn yn cynnwys cynigion mewn dosbarthiadau defnydd A1, A2, A3, B1, B2, C1, C2, D1 a D2. Cyfeirir yn benodol at ddefnyddiau masnachol, manwerthu a physgota. Mae cynigion hefyd ar gyfer hyd at 160 o anheddau, hyd at 70 o angorfeydd ychwanegol yn y marina, iardiau cychod newydd, tirlunio, gwelliannau tir y cyhoedd, mynediad, gwaith atodol a dymchwel rhai adeiladau. Argymhellwyd y dylai'r Pwyllgor Cynllunio ei gymeradwyo ym mis Chwefror 2015. Ni roddwyd y caniatâd eto am nad yw'r cytundeb A.106 cysylltiedig wedi'i lofnodi eto.
- Rhoddwyd caniatâd cynllunio i gynnig Safle Gwres a Phŵer Cyfun De Hook (500MW) yn y derfynfa nwy naturiol hylifiedig gan Lywodraeth y DU ym mis

Hydref 2014. Partneriaeth yn cynnwys Qatar Petroleum, Exxon Mobil ac Elf Petroleum UK oedd y prosiect, y bwriadwyd iddo fod yn weithredol erbyn 2018. Fodd bynnag, mae'r cynllun wedi cael ei ganslo am fod prisiau wedi gostwng yn y farchnad ynni, ac mae'r drwydded weithredu wedi cael ei dychwelyd. Mae rhan o safle De Hook o fewn ardal gynllunio'r Cyngor.

- Caeodd safle Purfa (Murco) Aberdaugleddau gyda nifer sylweddol o swyddi lleol yn cael eu colli. Ers hynny mae'r safle hwn wedi cael ei brynu gan Puma Energy. Mae'r perchenogion newydd wedi troi llawer o'r safle yn gyfleuster storio.
- Roedd y Weinyddiaeth Amddiffyn wedi cyhoeddi'n flaenorol y byddai safle Lluestau Cawdor ym Mreudeth yn cau erbyn 2018. Fodd bynnag, mae datganiadau diweddar (mis Medi 2015) wedi cadarnhau nad felly y mae ac nad oes unrhyw fwriad mwyach i adleoli Catrawd y Signalau.

2.22. Bydd AMBau yn y dyfodol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd tuag at ddarparu'r pedwar safle cyflogaeth strategol. Byddant hefyd yn olrhain cynnydd ar safleoedd mawr eraill y cyfeirir atynt yn yr adran hon.

## Crynodeb o'r Goblygiadau i'r CDLl o Newidiadau Cyd-destunol

2.23. Nid oes unrhyw newidiadau cyd-destunol wedi'u nodi ar hyn o bryd sy'n awgrymu bod angen adolygu'r Cynllun yn gynnar.


2.24. Bydd AMBau yn y dyfodol yn rhoi rhagor o wybodaeth am y materion sy'n dod i'r amlwg yn sgil deddfwriaeth, polisi a chanllawiau newydd neu ddiwygiedig. Byddant hefyd yn cyfeirio at wybodaeth newydd a all effeithio ar y ffordd y caiff y CDLl ei weithredu.


# 3. Crynodeb o Ganlyniadau Monitro'r CDLl

3.1. Y prif benawdau o'r wybodaeth fonitro yw:

**Tai**

3.2. Mae nifer a chyfran y caniatadau cynllunio ar gyfer datblygiadau preswyl newydd (lle bu ennill net o ran annedd), yn unol yn fras â strategaeth anheddu'r CDLl, ond roedd lleihad yn nifer yr unedau a ganiatawyd yn y Trefi Ffocws am y tro cyntaf er i'r Cynllun gael ei fabwysiadu yn golygu canran is na'r targed (39% yn lle 50% o ganiatadau mewn Trefi Ffocws). Cafodd cyfanswm o 922 o anheddau preswyl newydd eu cymeradwyo'n amodol yn ardal y Cynllun rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2016. O'r rhain, roedd 356 wedi'u lleoli mewn Trefi Ffocws, sy'n hafal i 39% o'r holl ganiatadau preswyl. O'u hystyried yn erbyn y 'trothwy 3 blynedd o 50%' mae caniatadau trefi ffocws yn perfformio'n dda, sef 63.5%. Mewn mannau eraill roedd y canrannau yn unol â strategaeth y CDLl. Mae canran ychydig yn uwch o ddatblygiadau yng Nghefn Gwlad yn adlewyrchu amrywiaeth o geisiadau am addasu anheddau, anheddau menter wledig a chynigion Datblygu Un Blaned, y mae pob un ohonynt yn cydymffurfio â'r CDLl.






- Darparu tai – 405 wedi'u cwblhau (2015-2016), o gymharu â 588 wedi'u cwblhau (2014-2015), 459 yn 2013-2014 a 288 yn 2012-2013, sy'n cyflawni'r targed monitro. O'r rhain mae 65% mewn Trefi Ffocws, 2.6% yn Arberth (Tref Wledig), 29% mewn aneddiadau gwledig eraill a 3.1% yng nghefn gwlad. Mae hyn yn dangos bod CSP yn cyflawni yn unol â strategaeth y Cynllun.
- Caniatadau tai – 922 o gartrefi wedi cael caniatâd cynllunio. O'r rhain mae 39% mewn Trefi Ffocws, 5% yn Arberth (Tref Wledig), 50% mewn aneddiadau gwledig eraill a 7% yng nghefn gwlad. Er bod hyn yn dangos gostyngiad yn y ffocws trefol o gymharu â blynyddoedd blaenorol mae'r Cynllun yn dal i gydymffurfio â'r targed monitro, gyda 63.5% o ganiatadau mewn trefi ffocws dros gyfnod o 3 blynedd. Mae hyn yn dangos bod CSP yn cyflawni yn unol â strategaeth y Cynllun.
- Y cyflenwad tir a oedd ar gael ar gyfer tai ar gyfer y flwyddyn adrodd oedd 5.0 mlynedd, fel y nododd Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2014-2015 (y gofyniad yw 5 mlynedd o gyflenwad tir). Mae Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2015-2016 yn cael ei hystyried gan Grŵp yr Astudiaeth.
- Dangosodd fod perfformiad da yn gyffredinol gyda thargedau mewn nifer o ddangosyddion yn cael eu cyflawni. Mae dangosyddion tai eraill yn awgrymu i'r farchnad arafu ychydig yn AMB 3, o ran caniatadau a roddwyd ac unedau a adeiladwyd. Adeiladwyd 405 o anheddau newydd yn ystod y cyfnod monitro hwn. Cyflawnwyd y targed o 15% o dai fforddiadwy wedi'u cwblhau ond nid ar gyfer caniatadau eleni. Fodd bynnag, ni chyrhaeddwyd y trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach. Mae lleihad cyffredinol yn nifer y caniatadau a roddwyd ar gyfer unedau eleni, ynghyd â lleihad yn nifer y ceisiadau yn yr aneddiadau mwy o faint wedi golygu bod llawer o'r caniatadau a roddwyd ar safleoedd sy'n is na'r trothwy ar gyfer tai fforddiadwy. Parheir i fonitro'r mater hwn eleni.

- O ran y safleoedd tai strategol a nodwyd yn y Cynllun, rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 729 o gartrefi preswyl ar y safleoedd a nodwyd yn Slade Lane North a Slade Lane South yn Hwlffordd yn AMB 1. Fel y nodwyd yn AMB 2, mae'r ymgeisydd wedi cyflawni'r holl amodau cyn cychwyn mewn perthynas â mynediad ac mae'r gwaith mynediad i'r safle bron â'i gwblhau. Mae'r Awdurdod wedi derbyn pob cyfraniad ariannol cyn cychwyn sy'n ofynnol o dan y cytundeb S.106. Mae cytundeb Adran 278 wedi cael ei gwblhau ac mae'r Awdurdod wedi derbyn bond. Mae'r bond carthion a'r cytundeb seilwaith cyfleustodau wedi'u cwblhau ac mae'r bondiau wedi cael eu talu. Mae tir wedi cael ei drosglwyddo at ddibenion addysg hefyd. Mae adborth gan yr ymgeisydd i broses y Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai yn 2016 yn awgrymu bod gwaith ar y safle yn debygol o ddechrau yn 2017.

- Monitro Prisiau Tai – nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod angen addasu targedau cyfraniadau Tai Fforddiadwy.

- Dwysedd – mae dwysedd ychydig uwchlaw'r targed o ran dyraniadau ac ar hap-safleoedd trefol, ond ychydig islaw'r targed ar hap-safleoedd aneddiadau gwledig, sef 24 annedd fesul hectar o gymharu â tharged o 25, sydd dipyn yn uwch na'r trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach i safleoedd ffawdelw gwledig.

**Cyflogaeth**

3.3. Mae targedau monitro yn cael eu cyflawni. Ceir lefelau da o adeiladau cyflogaeth wedi'u hadeiladu ar ganiatadau a roddwyd ar ôl i'r CDLl gael ei fabwysiadu. Mae angen parhau i fonitro cynnydd o ran darparu safleoedd Cyflogaeth strategol a dyraniadau Cyflogaeth a Defnydd Cymysg eraill.

- Mae Arolwg Tir Cyflogaeth 2015 yn cofnodi cynnydd yn yr arwynebedd safleoedd llinell sylfaenol o 1137 i 1145 hectar rhwng 2013 a 2015. Bu gostyngiad yn arwynebedd safleoedd a ddefnyddir o 945 i 829 hectar rhwng 2013 a 2015. Cynyddodd yr arwynebedd gwag ar safleoedd yn cael eu monitro o 193 i 316 hectar. Mae'r ffigurau olaf yn adlewyrchu'r penderfyniad i beidio â defnyddio Purfa Aberdaugleddau dros dro yn bennaf. Mae manylion pellach, gan gynnwys dadgyfuno gofodol a dosbarthiadau defnyddiau, ar gael yn yr adroddiad cyhoeddedig.
- Nid oes caniatâd eto ar safle Cyflogaeth Strategol Blackbridge. Mae tir yn Waterston a Blackbridge (a fu'n eiddo i'r Cyngor a Llywodraeth Cymru gynt) wedi cael ei werthu i ddatblygwr.
- Yn ystod blwyddyn 3 yr AMB, rhoddwyd caniatâd ar gyfer safle swyddfeydd modiwlar ar dir ger Warrior Way, Doc Penfro (sydd wedi'i adeiladu bellach). Mae'r safle yn rhan o'r Dyraniad Cyflogaeth Strategol ym Mharc Gwyddoniaeth a Thechnoleg Sir Benfro, Doc Penfro.

- Ni roddwyd unrhyw ganiatadau cyflogaeth yn ystod blwyddyn 3 yr AMB naill ai ym Mharc Busnes Llwynhelyg nac yn Safle Cyflogaeth Strategol Trecŵn. Fodd bynnag, rhoddwyd caniatâd ar gyfer gorsaf bŵer tanwydd coed i gynhyrchu ynni o fiomas yn Nhrecŵn ond y tu allan i'r dyraniad strategol ar 14/04/15.

**Sipsiwn a Theithwyr**


- Caniatawyd 7 llain ychwanegol yn ystod cyfnod AMB 3. Caniatawyd cyfanswm o 26 ers yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn 2010.
- Paratowyd Asesiad drafft o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn 2015, yn unol â'r canllawiau newydd a gyhoeddwyd ar y cyd â'r Ddeddf Tai (Cymru). Cyflwynwyd y drafft hwn i Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2016, a nododd fod angen 33 o leiniau rhwng 2015 a 2020, sef llai o angen na'r hyn a nodwyd yn yr asesiad blaenorol.

**Seilwaith:**


**a. Penderfyniadau Ynni Adnewyddadwy**

- Caniatawyd 34.77MW o gapasiti (y mae 30MW ohono yn ymwneud â gorsaf bŵer tanwydd coed i gynhyrchu trydan o fiomas yn Nhrecŵn). Mae hyn yn cymharu â 68.6MW a ganiatawyd yn ystod blwyddyn 2 yr AMB a 108.4MW a ganiatwyd yn ystod blwyddyn 1 yr AMB.
- Penderfynwyd ar 22 o geisiadau am dyrbinau gwynt, cymeradwywyd 7 yn amodol, gwrthodwyd 10, canslwyd 2, tynnwyd 2 yn ôl a gwrthodwyd 1 ar ôl apêl yn sgil diffyg penderfyniad. Hefyd, gwrthodwyd 4 cynnig ar gyfer tyrbinau gwynt ar ôl apêl, yn sgil penderfyniad i wrthod yn ystod blwyddyn 2 yr AMB. Bu lleihad yn nifer y ceisiadau o gymharu ag AMB 2.
- Penderfynwyd ar 2 gais am barc solar, y cymeradwywyd un ohonynt yn amodol ac y tynnwyd un ohonynt yn ôl. Hefyd, gwnaed sawl penderfyniad ar gynigion ar raddfa lai i osod paneli ffotofoltäig solar, y cafodd pob un ei gymeradwyo ond un. Mae hyn yn lleihad mawr o gymharu â AMB blwyddyn 2.

**Capasiti ynni adnewyddadwy sy'n cael caniatâd cynllunio (capasiti MW)**



**Canlyniadau ceisiadau ynni adnewyddadwy (nifer y ceisiadau, gan ystyried penderfyniadau apeliadau)**




**b. Trafnidiaeth – Cynnydd o ran cyflawni cynlluniau wedi'u diogelu**

- Cafodd ffordd gyswllt Bulford Road (Johnston i Tiers Cross), a adeiladwyd yn ystod cyfnod AMB 2 a 3 ei chwblhau ym mis Gorffennaf 2015.
- Parhaodd gwaith ar Lwybr Strategol y De rhwng ffordd yr A477 a safleoedd diwydiannol glannau'r de a chwblhawyd sawl elfen ohono. Fodd bynnag, nid yw rhai elfennau eraill o'r cynllun wedi dechrau eto, gan gynnwys ffordd gyswllt a chylchfan newydd yn Maidenwells.
- Mae gwaith yn mynd rhagddo i gynyddu nifer y lleoedd parcio a darparu gwasanaethau i adeilad yr orsaf yng Ngorsaf Reilffordd Wdig. Mae caniatâd cynllunio 15/0351/PA (a gymeradwywyd yn amodol ar 14/08/15) yn cynnwys estyniad i'r maes parcio a gosod toiledau i'r anabl.
- Mae Camau 1 a 2 cyfnewidfa fysiau a rheilffordd Doc Penfro wedi'u gweithredu. Cynhaliwyd gwaith cam 2 yn ystod blwyddyn 3 yr AMB, ar ôl i ragor o ganiatadau cynllunio gael eu rhoi (15/0747/NM – i ddiwygio'r cynllun

gwreiddiol, a gymeradwywyd heb amodau ar 10/11/15 a 15/0750/DC – i gyflawni amrywiol amodau sy'n ymwneud â chais 12/0375/PA).

- Yn Abergwaun, mae Stryd Fawr yr A40 i Stryd y Gorllewin yr A487 (Chimneys Link) yn gysylltiedig â chynnig manwerthu. Mae cais 14/1012/CA (ar gyfer caniatâd Ardal Gadwraeth) yn cynnig dymchwel yr hen ysgol iau, Ysgol Glannau Gwaun, yn Stryd y Gorllewin. Mae'r cynnig hwn yn cynnwys clirio'r safle yn barod ar gyfer y datblygiad manwerthu yn y dyfodol – a hefyd y gwelliannau trafnidiaeth. Ni fu penderfyniad ar y cais hwn yn ystod blwyddyn 3 yr AMB.
- Yn Aberdaugleddau, mae'r safle ar gyfer y gyfnewidfa fysiau / rheilffordd yn gorgyffwrdd ychydig â chynnig ar gyfer datblygiad mawr ym Marina Aberdaugleddau – cais 14/0158/PA. Byddai hyn yn cynnwys dosbarthiadau defnydd A1, A2, A3, B1, B2, C1, C2 a D1. Er bod y Pwyllgor Cynllunio a Hawliau Tramwy wedi ystyried y cais, ni chyhoeddwyd y penderfyniad ar y cynnig hwn yn ystod blwyddyn 3 yr AMB, a hynny am nad oedd y cytundeb cyfreithiol adran 106 cysylltiedig wedi'u lunio'n derfynol. Mae'n annhebygol y byddai'r cynnig yn peryglu'r cynnig ar gyfer cyfnewidfa fysiau / rheilffordd.
- Yn Hwlffordd, cwblhawyd y gwaith o ad-drefnu'r rhwydwaith ffyrdd yng Nghyffordd Churnworks a Ffordd Sidney Rees. Bydd hyn yn hwyluso'r broses o weithredu cynllun tai mawr yn y rhan hon o'r dref.
- Mae cynlluniau eraill yn dibynnu ar sicrhau cyllid.

**c. Gwastraff**

- Yn ystod blwyddyn 3 yr AMB caniatawyd 3.32 hectar o gapasiti gwastraff. Hefyd, cymeradwywyd sawl cais i addasu cyfleusterau a gymeradwywyd yn flaenorol nad oeddent yn newid ardaloedd y safle gwreiddiol.
- Mae'r safle amwynder dinesig newydd sy'n gwasanaethu de-ddwyrain sir Benfro yn weithredol bellach – cyflawnwyd y targed monitro.
- Mae estyniad Winsel wedi'i adeilad ac yn weithredol – cyflawnwyd y targed monitro.

**ch. Mwynau**

- Mae lefelau da o adnoddau craig galed ar gael.
- Mae'r trothwy monitro ar gyfer ymchwiliad pellach wedi'i gyrraedd o ran darpariaeth tywod a gro. Mae gwaith rhanbarthol yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r mater hwn. Mae'n fater i awdurdodau'r hen Ddyfed ei ddatrys ar y cyd. Fodd bynnag, ceir disgwyliad hefyd y bydd gweithgarwch cynhyrchu tywod a gro daearol ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro yn dod i ben yn y pen draw.

**d. Manwerthu**

3.4. Mae'r problemau economaidd ehangach a wynebir gan Ganol Trefi wedi'u hamlygu drwy waith monitro gyda chyfraddau unedau gwag uchel iawn yng nghanol rhai trefi. Mae'r caniatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer Siop Aldi yn Noc Penfro (lleoliad ar gyrion y canol) wedi golygu bod y trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach i fanwerthu wedi'i gyrraedd ar gyfer dau ddangosydd ychwanegol.

- 0% o arwynebedd A1, A2 a A3 datblygiadau mawr a ganiateir yng Nghanol y Dref – mae'r trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach wedi'i gyrraedd. Roedd y caniatâd a roddwyd ar gyfer datblygiad manwerthu mawr y tu allan i Ganol Tref ar gyfer Aldi yn Noc Penfro a fodlonodd y profion polisi gofynnol ar gyfer datblygiadau ar gyrion tref.
- Cafwyd cynnydd bach iawn yn nifer y siopau betio a lleihad o 15% yn nifer y siopau elusennol.
- Roedd cyfraddau unedau gwag yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (y DU) yn Hwlffordd, Doc Penfro, Aberdaugleddau ac Abergwaun.
- Ffryntiadau manwerthu – mae gan Abergwaun, Arberth a Phenfro grynodiad o unedau A1 sydd islaw canran y targed.

**e. Twristiaeth**

- Ni chymeradwywyd unrhyw geisiadau a oedd yn groes i Bolisïau Twristiaeth yn ystod y cyfnod monitro.

  Cymeradwywyd cyfanswm o 30 o geisiadau ar gyfer cynigion sy'n ymwneud â defnyddiau twristiaeth yn ystod y cyfnod monitro (cynnydd sylweddol o gymharu â'r 16 o geisiadau a gymeradwywyd yn ystod cyfnod 2 yr AMB). Roedd y cymeradwyaethau hyn yn cynnwys y caniatadau canlynol ar gyfer llety twristiaeth:
  - Cyfanswm o 3 newid defnydd i lety ffurflen B a llety B,
  - 8 cais a oedd yn ymwneud â'r newid defnydd i unedau gwyliau (rhai ar gyfer unedau lluosog),
  - 1 estyniad i westy,
  - un cais i adnewyddu caniatâd ar gyfer gwesty busnes masnachol a newid defnydd llawr cyntaf tafarn yn llety i westeion.
  - Rhoddwyd caniatâd ar gyfer dau hundy hefyd.

  datblygiadau carafannau -

  - caniatawyd 2 gais i ddisodli ac uwchraddio parciau carafannau.
  - caniatawyd 2 gais am ddeiliadaeth gydol blwyddyn.
  - Rhoddwyd caniatâd ar gyfer 45 o unedau gwyliau hunanarlwyo hefyd ar dir y tu cefn i Night Owl, Penalun (15/0222/PA).

# Polisïau sy'n cyrraedd y trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach

3.5. Mae'r meysydd polisi canlynol wedi cyrraedd y trothwy a nodwyd ar gyfer ymchwiliad pellach:

*Canol Trefi*

**Faint o ddatblygiadau manwerthu, swyddfeydd a hamdden mawr (metr sgwâr) a ganiateir yng Nghanol Trefi wedi'i fynegi fel canran o'r holl ddatblygiadau mawr a ganiateir.**

**Lefel yr arwynebedd ar gyfer datblygiadau manwerthu a ganiateir y tu allan i ganol trefi ac eithrio cynlluniau sy'n dod o dan Bolisi GN. 15 Manwerthu ar Raddfa Fach neu GN.10 (siop fferm).**

**Newid defnyddiau A1 (nifer yr unedau a'u harwynebedd ar gyfer manwerthu cynradd) ffryntiadau – islaw'r targed yn Abergwaun a Phenfro.**

**Canran yr unedau gwag llawr gwaelod yng Nghanol Trefi. Y trothwy yw os yw'n 5% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (y DU) – Aberdaugleddau, Doc Penfro a Hwlffordd.**

*3.6.* Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi un dangosydd craidd ar gyfer CDLlau fel faint o ddatblygiadau manwerthu, swyddfeydd a hamdden mawr a ganiateir yng nghanol trefi wedi'i fynegi fel canran o'r holl ddatblygiadau mawr a ganiateir. Mae CSP wedi dehongli hwn i gwmpasu dosbarthiadau defnydd A1, A2 ac A3. Yn ystod cyfnod yr AMB roedd 0% o holl arwynebedd datblygiadau A1, A2 ac A3 mawr a ganiatawyd wedi'i leoli yng Nghanol Trefi neu ar safle manwerthu a neilltuwyd, o gyfanswm o 1254 metr sgwâr a ganiatawyd. (Cais perthnasol 15/0570/PA).

*3.7.* Gan mai un cais am ddatblygiad mawr a ganiatawyd y tu allan i ganol trefi, mae'r trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach mewn perthynas â'r targed hwn wedi'i gyrraedd. Yn achos y cais am ddatblygiad mawr a ganiatawyd, y manylion oedd: Cais 15/0570/PA – Garej Waterloo, Cynnig diwygiedig ar gyfer Siop Aldi am 1254 metr sgwâr (net) – (Cafwyd ceisiadau blaenorol i amrywio amod 1 dyddiedig 09/0297/PA (Adeiladu siop fwyd a mynediad, parcio a thirlunio cysylltiedig) – a 14/0247/PA (arwynebedd A1 net a ganiatawyd 1202 metr sgwâr) i ganiatau mwy o amser i roi'r datblygiad ar waith.

3.8. Roedd cais 15/0270/PA ar gyfer Siop Aldi yng Ngarej Waterloo yn gynnig newydd a oedd yn disodli cais 14/0247/PA Adran 73 a oedd yn ceisio estyn y terfyn amser ar gyfer gweithredu'r caniatâd blaenorol(09/0297/PA). Bodlonodd

y cais feini prawf GN.14 a phrawf y Polisi Cynllunio Cenedlaethol drwy ddangos angen meintiol am y cynnig, bod y cynnig yn bodloni'r prawf cymalog ar gyfer datblygiadau manwerthu ac mai cyfyngedig fyddai'r effeithiau ar ganol tref Doc Penfro a Phenfro. I gloi, roedd yr unig gais am ddatblygiad mawr a gymeradwywyd y tu allan i Ganol Trefi yn ystod cyfnod yr AMB yn bodloni gofynion polisi cynllunio cenedlaethol a pholisïau'r CDLl. Nid yw'r cais hwn yn nodi unrhyw broblem benodol gyda pholisïau'r CDLl ac felly nid oes angen ymchwiliad pellach ar hyn o bryd.

3.9. O ran y dangosydd pellach ynglŷn â lefel arwynebedd datblygiadau manwerthu a ganiateir y tu allan i ganol trefi ac eithrio cynlluniau sy'n dod o dan Bolisi GN.15 Manwerthu ar Raddfa Fach neu G.10 Siôp Fferm, mae CSP wedi ystyried pob un o'r ceisiadau hynny a arweiniodd at ennill net o ran arwynebedd dosbarth defnydd A1, y caniatawyd 100% ohonynt y tu allan i ganol trefi. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys un caniatâd ar gyfer cais 15/0270/PA am Siop Fwyd Aldi yn Noc Penfro ac mae'n cyfrif am 100% o gyfanswm yr arwynebedd dosbarth defnydd A1 a ganiatawyd y tu allan i ganol trefi (ac eithrio'r cynlluniau hynny a gymeradwywyd o dan GN.15 Manwerthu ar Raddfa Fach neu GN.10 Siopau Fferm). Nodir y rheswm dros y caniatâd am ddatblygiad mawr a roddwyd ar safle Aldi uchod ac er i'r trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach gael ei gyrraedd, o ystyried amgylchiadau penodol y caniatâd hwn, nid ystyrir bod angen ymchwiliad pellach ar hyn o bryd. Felly tybiwyd bod y cais yn cydymffurfio â pholisi'r CDLl.

3.10. Mae lefelau unedau gwag uwchlaw lefelau cenedlaethol yn Hwlffordd, Doc Penfro, Aberdaugleddau ac Abergwaun. Mae gan Aberdaugleddau, Hwlffordd a Doc Penfro ganran sydd dros 5% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sy'n cyrraedd y trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach. O ran ffryntiadau manwerthu cynradd – mae gan Abergwaun, Arberth a Phenfro grynodiad o unedau A1 sy'n islaw canran y targed. Bwriedir parhau i fonitro hyn.

3.11. Mae llawer o ganol trefi ledled y DU yn wynebu problemau ar hyn o bryd, sy'n adlewyrchu newidiadau cymdeithasol ac economaidd ehangach. Mae'r Cyngor a nifer o sefydliadau eraill yn datblygu amrywiaeth o gamau gweithredu i gynorthwyo yn hyn o beth. Cynhaliodd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economaidd y Cyngor adolygiad manwl o ganol trefi yn 2012/13 ac roedd ei argymhellion yn cefnogi creu chwe Thîm Tref ledled y Sir. Mae'r Timau Tref hyn wedi datblygu cynlluniau gweithredu i nodi ymyriadau a all gael eu rhoi ar waith gyda phartneriaid. Mae'r Cyngor wedi rhoi arian cyfatebol ar gyfer cynlluniau adfywio i gefnogi'r cynigion hyn, er enghraifft cefnogi marchnad yn Aberdaugleddau a safle neidio bynji o Bont Cleddau yn Noc Penfro. Ym mis Ebrill 2015 cytunodd y Cyngor i adeiladu ar y gwaith cychwynnol a wnaed gan y Timau Tref a datblygu cyfres o uwchgynlluniau. Yr uwchgynllun cyntaf i'w

weithredu yw uwchgynllun Hwlffordd, y dechreuodd gwaith arno yn hydref 2015. Bydd yr uwchgynllun hwn yn ystyried y dyfarniad diweddar o £400k gan Gyngor y Celfyddydau ar gyfer prosiect adfywio 'Confluence' yn Hwlffordd yn ogystal â dechrau cam 2 Menter Treftadaeth Treflun Cronfa Dreftadaeth y Loteri gwerth £4m. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar brosiect i adleoli a datblygu llyfrgell i'r 21ain Ganrif, oriel a chanolfan ymwelwyr yn adeilad presennol y farchnad yng nghanol Hwlffordd hefyd fel rhan o ddigwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid Uwchgynllun Hwlffordd, a ddechreuodd yng ngwanwyn 2016, er nad oes unrhyw gais cynllunio wedi dod i law eto. Bydd AMB 4 yn nodi casgliadau uwchgynllun Hwlffordd, a gaiff ei gwblhau erbyn hydref 2016 yn ôl y bwriad. Caiff astudiaethau uwchgynlluniau canol trefi eraill eu datblygu maes o law.

3.12. Yn Aberdaugleddau, cynigiodd Awdurdod y Porthladd gynllun defnydd cymysg ar gyfer marina sy'n cynnwys defnyddiau manwerthu masnachol a physgota yn ogystal â 160 o anheddau preswyl, a hyd at 70 o angorfeydd ychwanegol yn y marina. Argymhellodd y dylai'r Pwyllgor Cynllunio ei gymeradwyo ym mis Chwefror 2015, ond nid yw'r cytundeb A.106 wedi'i lofnodi eto. Mae Aberdaugleddau a Doc Penfro yn cael budd o gynllun paentio treftadaeth y Cyngor sy'n helpu perchenogion eiddo i ailaddurno eu hadeiladau. Mae Cam 2 Menter Treftadaeth Treflun Hwlffordd bellach wedi dechrau. Mae Doc Penfro hefyd wedi cael arian Menter Treftadaeth Treflun a chynllun grant eiddo masnachol a gefnogir gan arian yr UE.

3.13. Yn ogystal â mentrau adfywio, yn 2014/2015 cyflwynodd Llywodraeth Cymru Gynllun Rhyddhad Manwerthu (a weinyddir gan y Cyngor) a gynigiodd gyfraniad ariannol o hyd at £1k tuag at ardrethi busnes ar gyfer eiddo manwerthu a feddiennir sydd â gwerth ardrethadwy o £50k neu lai yn y flwyddyn ariannol 2014/2015. Mae'r un cynllun wedi cael ei estyn i 2015-16 (hyd at 31 Mawrth 2016) gyda chynnydd yn y budd mwyaf i £1500 a'r nod yw cynorthwyo manwerthwyr, busnesau bwyd a diod llai o faint.

3.14. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro dangosyddion manwerthu yn fanwl a bydd yn gweithio gyda chydweithwyr Adfywio i gymryd unrhyw gamau gweithredu sy'n deillio o waith uwchgynllunio.

*Darparu Lleiniau Sipsiwn a Theithwyr*

**40 o leiniau ychwanegol i Sipsiwn a Theithwyr i'w darparu erbyn diwedd 2015.**
**Bydd ymchwiliad pellach os caniateir llai na 40 erbyn diwedd 2015.**

3.15. O ran lleiniau Sipsiwn a Theithwyr, ers i'r Asesiad gwreiddiol o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr gael ei gynnal yn 2010, cafodd 26 o leiniau ychwanegol ganiatâd cynllunio. Felly, nid yw'r targed o ddarparu 40 o leiniau ychwanegol erbyn diwedd 2015 wedi'i gyflawni, sy'n golygu y cyrhaeddwyd y trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach. Er na chyflawnwyd y targed o 40 o leiniau, mae'r mwyafrif llethol o leiniau a ddarparwyd ers 2010 wedi cael caniatâd ar safleoedd preifat (ac eithrio 3), gan ddangos bod polisïau'r CDLl yn gweithio'n effeithiol o ran galluogi darpariaeth breifat. Mae penderfyniad cychwynnol Llywodraeth Cymru i wrthod dadgofrestru tir comin yn Kingsmoor, Cilgeti wedi arwain at oedi o ran cyflawni'r dyraniad sylweddol hwn (sy'n debygol o ddarparu 15 o leiniau). Cafwyd cymeradwyaeth i ddadgofrestru ac amgáu'r Tir Comin o'r diwedd ym mis Rhagfyr 2015 ac mae gwaith ar gais cynllunio a chais am arian grant yn mynd rhagddo er mwyn cefnogi'r estyniad hwn.

3.16. Paratowyd Asesiad drafft o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn 2015, yn unol â'r canllawiau newydd a gyhoeddwyd ar y cyd â'r Ddeddf Tai (Cymru). Cyflwynwyd yr Asesiad drafft o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr i Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2016, a nododd fod angen 33 o leiniau rhwng 2015 a 2020, sef llai o angen na'r hyn a nodwyd mewn asesiadau blaenorol. Mae'r angen is hwn yn awgrymu bod nifer y lleiniau preifat sy'n cael caniatâd yn cael effaith ar lefel angen yn sir Benfro. Nid oedd fersiwn derfynol o'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr wedi'i chyhoeddi erbyn dyddiad sylfaen AMB 3 ond caiff adroddiad ei gyhoeddi yn AMB 4. O ran y CDLl, mae'r dyraniadau a'r polisïau presennol yn ei gwneud yn bosibl i safleoedd preifat a safleoedd a neilltuwyd gael caniatâd ac ar y sail hon nid oes angen ymchwiliad pellach ar hyn o bryd.

*Mwynau*

**(Craidd) Faint o agregau cynradd a dynnir o'r tir a ganiateir yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau wedi'i fynegi fel canran o gyfanswm y capasiti sydd ei angen fel y'i nodwyd yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol.**

**Bydd angen ymchwiliad pellach os bydd y banc tir yn gollwng i 12 mlynedd (craig galed) neu 9 mlynedd (tywod a gro), er mwyn sicrhau bod darpariaeth ddigonol ar ddiwedd cyfnod y Cynllun. Monitro tunelli a ganiateir**.

3.17. Mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau, Adolygiad Cyntaf 2014, yn nodi dull newydd o ystyried dosraniadau tir ar gyfer tywod a gro yn ne-

orllewin Cymru. O dan y dull hwn bydd angen i bedwar awdurdod cynllunio lleol de-orllewin Cymru, ynghyd â Chyngor Sir Powys[2], gydweithio ar ddosrannu er mwyn sicrhau banc tir digonol mewn cydymffurfiaeth â Pholisi Cynllunio Mwynau Cymru gyda'r pwyslais hirdymor ar newid o leoliadau mewn Parciau Cenedlaethol i leoliadau nad ydynt mewn Parciau Cenedlaethol.

3.18. Mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau yn rhestru tueddiadau a digwyddiadau arwyddocaol yn ôl y Sir. Ar gyfer sir Benfro dywed:

Parhaodd gwerthiannau craig mâl yn Sir Benfro / Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro i ostwng gan fod y prif brosiectau seilwaith megis Gorsaf Bŵer Penfro a ffordd osgoi Robeston Wathen wedi dod i ben.

3.19. Mae'r gweithgarwch cynhyrchu tywod a gro presennol ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro o arwyddocâd sylweddol. Mae rhywfaint o graig galed yn cael ei chynhyrchu yn y Parc Cenedlaethol hefyd. Ceir uchelgais hirdymor i leihau faint o agregau a gynhyrchir ym Marciau Cenedlaethol Cymru a rhoi terfyn arno yn y pen draw.

3.20. Unwaith y bydd y cronfeydd wrth gefn presennol a ganiatawyd yn y Parc Cenedlaethol yn dod i ben, bydd angen safleoedd cynhyrchu daearol amgen yn ne-orllewin Cymru. Bydd y dull gweithredu newydd hwn yn canolbwyntio ar ddod o hyd i safleoedd cynhyrchu daearol amgen yn lle'r rhai ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro.

3.21. Ar gyfer craig galed, mae hyn yn annhebygol o fod yn broblem, o ystyried maint y banc tir presennol, gyda llawer o ffynonellau o gyflenwad amgen y tu allan i'r Parc Cenedlaethol. O ran tywod a gro, bydd angen i safleoedd newydd gael eu nodi yn y rhanbarth, ond y tu allan i'r Parc Cenedlaethol.

3.22. Yr Adroddiad Blynyddoedd mwyaf diweddar a gyhoeddwyd gan Weithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru yw'r adroddiad ar gyfer 2014 (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2016). Mae'r tablau isod yn cyflwyno rhai o'r canfyddiadau allweddol sy'n ymwneud â sir Benfro. Mae cyfeiriadau at 'Sir Benfro' yn cyfeirio at ardal cyfrifoldeb cynllunio'r Cyngor (h.y. heb gynnwys lleoliadau yn y Parc Cenedlaethol). Mae rhywfaint o'r wybodaeth ond ar gael i grwpiau awdurdodau.

[2] mae cronfeydd wrth gefn ac allbwn tywod a gro ym Mhowys yn fach iawn

*Gwerthiannau craig fâl yn ôl Awdurdod Cynllunio Mwynau (miliwn o dunelli)*

| Is-ranbarth | Awdurdod Cynllunio Mwynau | Gwerthiannau Craig Fâl 2012 | Gwerthiannau Craig Fâl 2013 | | Gwerthiannau Craig Fâl 2014 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| De-orllewin Cymru | Sir Gaerfyrddin | 1.74 | 0.78 | 1.84 | 1.20 | 1.84 |
| | Castell-nedd Port Talbot | | 0.39 | | | |
| | Sir Benfro | | 0.47 | | 0.53 | |
| | Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro | | | | | |
| | Ceredigion | | 0.20 | | 0.11 | |
| | Abertawe | | 0 | | 0 | |

*Cronfeydd wrth gefn o graig fâl a banciau tir yn ôl Awdurdod Cynllunio Mwynau (miliwn o dunelli) yn seiliedig ar werthiannau cyfartalog dros 3 blynedd 2012-2014*

| Rhanbarth | Awdurdod Cynllunio Mwynau | Cronfeydd Wrth Gefn o Graig Fâl 2014 | Gwerthiannau Blynyddol Cyfartalog 2012-2014 | Banc tir (blynyddoedd) yn seiliedig ar werthiannau cyfartalog dros 3 blynedd |
|---|---|---|---|---|
| De-orllewin Cymru | Sir Gaerfyrddin | 68.17 | 1.13 | 66 |
| | Castell-nedd Port Talbot | | | 46 |
| | Sir Benfro | 28.53 | 0.50 | 51 |
| | Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro | | | Dd/B |
| | Ceredigion | 5.69 | 0.16 | 36 |
| | Abertawe | 0 | 0 | 0 |

*Cronfeydd wrth gefn o graig fâl a banciau tir yn ôl Awdurdod Cynllunio Mwynau (miliwn o dunelli) yn seiliedig ar werthiannau cyfartalog dros 10 mlynedd 2005-2014*

| Rhanbarth | Awdurdod Cynllunio Mwynau | Cronfeydd Wrth Gefn o Graig Fâl 2014 | Gwerthiannau Blynyddol Cyfartalog 2012-2014 | Banc tir (blynyddoedd) yn seiliedig ar werthiannau cyfartalog dros 3 blynedd |
|---|---|---|---|---|
| De-orllewin Cymru | Sir Gaerfyrddin | 68.17 | 1.45 | 55 |
| | Castell-nedd Port Talbot | | | 33 |
| | Sir Benfro | 28.53 | 0.77 | 33 |
| | Parc Cenedlaethol | | | Dd/B |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Arfordir Sir Benfro | | | |
| | Ceredigion | 5.69 | 0.21 | 29 |
| | Abertawe | 0 | 0 | 0 |

*Cronfeydd wrth gefn o graig fâl mewn Safleoedd Segur yn ôl Awdurdod Cynllunio Mwynau (miliwn o dunelli)*

| Rhanbarth | Awdurdod Cynllunio Mwynau | Cronfa wrth gefn o graig fâl 2014 |
|---|---|---|
| De-orllewin Cymru | Sir Gaerfyrddin | 15.10 |
| | Ceredigion | 0 |
| | Sir Benfro | 0 |
| | Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro | |
| | Castell-nedd Port Talbot | 0 |
| | Abertawe | 0 |

*Gwerthiannau tywod a gro a dynnir o'r tir yn ôl Awdurdod Cynllunio Mwynau (miliwn o dunelli)*

| Rhanbarth | Awdurdod Cynllunio Mwynau | Gwerthiannau Tywod a Gro 2012 | Gwerthiannau Tywod a Gro 2013 | Gwerthiannau Tywod a Gro 2014 |
|---|---|---|---|---|
| Powys (gan gynnwys Bannau Brycheiniog) | Powys | 0.27 | 0.28 | 0.20 |
| De-orllewin Cymru | Sir Gaerfyrddin | | | |
| | Ceredigion | | | |
| | Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro | | | |

(Ni chaiff unrhyw dywod na gro eu cynhyrchu yn sir Benfro y tu allan i'r Parc Cenedlaethol ar hyn o bryd ac felly nid oes ychwaith unrhyw werthiannau)

*Cronfeydd wrth gefn o dywod a gro a dynnir o'r tir a banciau tir yn ôl Awdurdod Cynllunio Mwynau (miliwn o dunelli) yn seiliedig ar werthiannau cyfartalog dros 3 blynedd 2011-2013*

| Rhanbarth | Awdurdod Cynllunio Mwynau | Cronfa Wrth Gefn o Dywod a Gro 2014 | Cynhyrchu blynyddol cyfartalog 2012-2014 | Banc tir (blynyddoedd) yn seiliedig ar werthiannau cyfartalog dros 10 mlynedd |
|---|---|---|---|---|
| Powys (gan gynnwys Bannau Brycheiniog) | Powys | 4.57 | 0.25 | 980 |
| De-orllewin Cymru | Sir Gaerfyrddin | | | 68 |
| | Ceredigion | | | 13 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro | | | Dd/B |

(Ni chaiff unrhyw dywod na gro eu cynhyrchu yn sir Benfro y tu allan i'r Parc Cenedlaethol ar hyn o bryd ac felly nid oes unrhyw ffigur ar gyfer banc tir)

*Cronfeydd wrth gefn o dywod a gro a dynnir o'r tir a banciau tir yn ôl Awdurdod Cynllunio Mwynau (miliwn o dunelli) yn seiliedig ar werthiannau cyfartalog dros 10 mlynedd 2004-2013*

| Rhanbarth | Awdurdod Cynllunio Mwynau | Cronfa Wrth Gefn o Dywod a Gro 2014 | Cynhyrchu blynyddol cyfartalog 2012-2014 | Banc tir (blynyddoedd) yn seiliedig ar werthiannau cyfartalog dros 10 mlynedd |
|---|---|---|---|---|
| Powys (gan gynnwys Bannau Brycheiniog) | Powys | 4.57 | 0.25 | 512 |
| De-orllewin Cymru | Sir Gaerfyrddin | | | 49 |
| | Ceredigion | | | 14 |
| | Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro | | | Dd/B |

(Ni chaiff unrhyw dywod na gro eu cynhyrchu yn sir Benfro y tu allan i'r Parc Cenedlaethol ar hyn o bryd ac felly nid oes unrhyw ffigur ar gyfer banc tir)

*Ystadegau 'Porth ar gyfer agregau a gloddiwyd o'r môr ac a laniwyd 2014 (ffynhonnell: Ystadegau Cryno Ystad y Goron, 2012, 2013 a 2014)*

| Awdurdod Cynllunio Mwynau | Porth Glanio | Tunelli 2012 | Tunelli 2013 | Tunelli 2014 |
|---|---|---|---|---|
| Sir Benfro | Porth Penfro | 21,027 | 13,300 | 14,462 |

*Gwerthiannau agregau eilaidd yn ôl Awdurdod Cynllunio Mwynau 2014 (miliwn o dunelli)*

| Rhanbarth | Awdurdod Cynllunio Mwynau | Gwerthiannau Agregau Eilaidd 2012 | Gwerthiannau Agregau Eilaidd 2013 | Gwerthiannau Agregau Eilaidd 2014 |
|---|---|---|---|---|
| De-orllewin Cymru | Sir Benfro | 1.58 | 0.82 | 0.75 |
| | Castell-nedd Port Talbot | | | |
| De-ddwyrain Cymru | Caerdydd | | | |
| | Casnewydd | | | |
| | Bro Morgannwg | | | |

3.23. Gan edrych ar ddarpariaeth CDLl y Cyngor:

- Mae digonedd o graig galed wrth gefn, a fydd yn ddigon ymhell y tu hwnt i gyfnod y cynllun presennol. Caiff asesiadau yn y dyfodol eu cynnal mewn cyd-destun rhanbarthol.
- O ran tywod a gro, mae'r ddarpariaeth yn ddigonol hyd at 2021. Y tu hwnt i hynny bydd yn gynyddol bwysig dod o hyd i safleoedd cynhyrchu daearol newydd yn ne-orllewin Cymru. Bydd angen i hyn gael ei ystyried mewn cyd-destun rhanbarthol er mwyn adlewyrchu gofynion y Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau i Dde Cymru. Mae'r CDLl yn nodi ardal chwilio ar gyfer safleoedd cynhyrchu o fewn ffiniau ardal gynllunio'r Cyngor. Mae hyn yn seiliedig ar fap adnoddau mwynau Arolwg Daearegol Prydain.

3.24. Mae'r gwaith hwn wedi cael ei wneud drwy'r grŵp rhanbarthol yn ystod blynyddoedd 2 a 3 yr AMB. Bydd angen arweiniad gan weithredwyr mwynau er mwyn nodi safleoedd tywod a gro daearol newydd, gan mai dim ond hwy sy'n meddu ar yr arbenigedd technegol i gynghori ar ba safleoedd sydd â photensial cynhyrchu yn y dyfodol.

*Tai*

**(Craidd) Y cyflenwad tir sydd ar gael ar gyfer tai (TAN 1) – 5 mlynedd o gyflenwad tir. Y trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach os bydd y cyflenwad tir o dan 5.5 mlynedd.**

3.25. Yn ystod y cyfnod monitro roedd gan CSP 5.0 mlynedd o gyflenwad tir ar gyfer tai, yn seiliedig ar y Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (JHLAS) ar gyfer 2015-16 (Ebrill 2015 dyddiad llinell sylfaen), sy'n cyflawni'r targed a bennwyd gan yr AMB (5 mlynedd o gyflenwad tir). Fodd bynnag, gan fod y cyflenwad tir islaw 5.5 mlynedd, mae'n is na throthwy'r Cynllun ar gyfer ymchwiliad pellach.

3.26. Mae TAN 1 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau allu dangos 5 mlynedd o gyflenwad tir. Ceir targed hefyd yn yr AMB. Mae gan yr Awdurdod 5.0 mlynedd o gyflenwad tir ac felly mae'n cyflawni'r targed a bennwyd gan y Cynllun a gofynion y Polisi Cynllunio Cenedlaethol.

3.27. Pennwyd y targed ar gyfer ymchwiliad pellach yn yr AMB ar lefel o 5.5 blynedd, er mwyn sicrhau y gall CSP fodloni'r gofyniad o 5 mlynedd o gyflenwad tir ar gyfer tai yn y dyfodol. Mae gwaith ar Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2014 a 2015 ynghyd â'r gwaith presennol wedi nodi nifer o safleoedd lle y bydd gwelliannau wedi'u rhaglennu i Weithfeydd Trin Dŵr Gwastraff yn cynyddu cyflenwad tir 5 mlynedd yr Awdurdod, ynghyd â safleoedd datblygu ychwanegol, nad ydynt wedi'u cynnwys yn y banc tir 5 mlynedd oherwydd ansicrwydd datblygwyr, sy'n barod i gael eu datblygu mewn ymateb i'r galw.

*Tirwedd*

**Nifer y caniatadau cynllunio a roddwyd yn groes i Bolisi GN.1, sef nod diogelu maen prawf 3.**

3.28. Cafodd un cais ei gymeradwyo er ei fod yn groes i ofynion Polisi GN1, maen prawf 3. Mae hyn yn sylweddol is na'r nifer yn ystod AMB 2. Er bod y trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach ar gyfer y polisi hwn wedi'i gyrraedd, roedd pob cais, gan gynnwys 14/0239/PA a gyflwynwyd yn ystod AMB 3, yn ymwneud â chynlluniau ynni adnewyddadwy ac ym mhob achos barnwyd, er bod y cynigion yn mynd yn groes i GN.1(3), na fyddai ond ychydig iawn o effeithiau niweidiol, neu fân effeithiau, ar gymeriad tirwedd, ansawdd ac amrywiaeth a'u bod yn amgylcheddol dderbyniol. Ym mhob achos, ystyriwyd bod y ceisiadau yn unol â Pholisi GN.4, y rhoddwyd mwy o bwys ar hyn yn y broses gwneud penderfyniad na'r diffyg cydymffurfiaeth â GN.1(3). Bydd swyddogion yn parhau i fonitro'r mater hwn. O ystyried y bydd prosiectau ynni adnewyddadwy, yn enwedig tyrbinau gwynt, yn anochel, yn cael rhai effeithiau niweidiol ar y dirwedd, efallai y bydd angen ailwerthuso geiriad manwl GN.1(3) wrth adolygu'r Cynllun. Dim ond pan fydd risg o niwed sylweddol, yn enwedig lle mae hyn yn ymestyn i leoliadau yn y Parc Cenedlaethol, y dylid rhoi llai o bwys yn y broses gwneud penderfyniad ar y gefnogaeth gyffredinol a roddir gan y CDLl i brosiectau ynni adnewyddadwy, drwy ddarpariaethau Polisi GN.4, nag ar ystyriaethau ynglŷn â'r dirwedd.

*Yr Amgylchedd Hanesyddol*

**Nifer y caniatadau cynllunio a roddwyd yn groes i Bolisi GN.38**

3.29. Mae'r trothwy ar gyfer caniatadau, caniatadau adeiladau rhestredig a chaniatadau henebion cofrestredig a roddwyd yn groes i Bolisi GN.38 hefyd wedi cael ei gyrraedd. Nodwyd bod 2 gais wedi cael eu cymeradwyo er eu bod yn groes i GN.38. Mewn un achos, roedd y cynnig ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy (tyrbin gwynt) a nodwyd mai cyfyngedig oedd yr effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd hanesyddol, ac roedd y cynnig yn unol â Pholisi GN.4, sy'n cefnogi gosodiadau ynni adnewyddadwy. Roedd yr ail ddatblygiad a ganiatawyd yn groes i Bolisi GN.38 ar gyfer ailddefnyddio Adeilad Rhestredig fel ysgol (15/0132/PA). Ystyriwyd bod adeiladau newydd i'w defnyddio mewn cysylltiad â'r ysgol yn methu â rhoi sylw arbennig i leoliad yr Adeilad Rhestredig. O gydbwyso hynny â manteision ehangach ailddefnyddio Adeilad Rhestredig gwag a natur dros dro yr adeiladau, rhoddwyd cryn bwys ar sicrhau ei ddyfodol a chymeradwywyd y cynnig yn groes i GN.38, a chymeradwywyd yr adeilad newydd ar gyfer cyfnod o ddwy flynedd yn unig. Mae geiriad GN.38 yn golygu bod yn rhaid i gynnig gael ei ystyried yn un sy'n groes i'r polisi hyd yn

oed os mai cyfyngedig yw'r effaith niweidiol a nodwyd. Bydd y geiriad hwn yn cael ei ailystyried ar adeg adolygu'r, er mwyn sicrhau mai dim ond y cynigion hynny sydd ag effaith niweidiol sylweddol y bernir eu bod yn groes i'r polisi.

**Meysydd eraill i ymchwilio iddynt:**

3.30. Yn ogystal â'r dangosyddion sydd wedi cyrraedd y trothwyon ar gyfer ymchwiliad pellach, ceir rhai meysydd lle mae angen monitro'r cynnydd pellach yn fanwl, ym marn y Cyngor. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Cynnydd o ran darparu safleoedd Tai a Chyflogaeth strategol;
- Cynnydd o ran darparu'r llwybrau trafnidiaeth a ddiogelwyd.

# 4 Crynodeb o Ganlyniadau Monitro Arfarniadau o Gynaliadwyedd ac Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd

4.1. Mae'r gwaith monitro parhaus ar berfformiad y cynllun yn erbyn amcanion yr arfarniad o gynaliadwyedd yn un o ofynion adroddiad yr AoG a'r CDLl. Mae gwaith monitro'r AoG wedi'i integreiddio â gweithgarwch arall yr AMB.

4.2. Mae prif effeithiau'r cynllun yn gadarnhaol o'u mesur yn erbyn Amcanion yr AoG.

4.3. Dangosir fframwaith monitro'r AoG yn Atodiad 3 a cheir fframwaith monitro'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn Atodiad 4.

4.4. Nodwyd dangosyddion posibl drwy gydol proses yr AoG a gynhaliwyd ar y cyd â'r gwaith o baratoi'r cynllun oherwydd cydnabuwyd y bydd angen adolygu'r fframwaith monitro o bosibl yn y dyfodol. Y dangosyddion a nodwyd yn Adroddiad yr AoG yw'r sail dros yr AMB, gan nodi bod yr Amcanion hyn yn yr AoG yn rhai dyheadol, gyda'r posibilrwydd y cânt eu hadolygu yn ystod oes y cynllun. Mae'r dangosyddion a nodwyd yn adlewyrchu amrywiaeth o nodweddion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol ardal y cynllun.

4.5. Yn ystod y rhan gynnar hon o gyfnod y cynllun, ni fydd perfformiad y cynllun yn erbyn amcanion cynaliadwyedd yn ddiffiniol. Bydd gwaith monitro'r AoG yn rhoi amcan o duedd gyffredinol effeithiau lle mae data ar gael, e.e. cadarnhaol / negyddol / dim newid. Bydd tueddiadau yn dod i'r amlwg dros y blynyddoedd sydd i ddod.

4.6. Mae CSP wedi mynd ati i fonitro mewn perthynas â'r Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd drwy nodi'r polisïau hynny a nodwyd yn flaenorol, wrth i'r cynllun gael ei baratoi, fel rhai sy'n gofyn am gael eu sgrinio ar lefel prosiect (o gymharu â lefel cynllun) a, lle mae datblygiad wedi mynd rhagddo, fonitro a yw'r broses sgrinio wedi cael ei chynnal ar unrhyw geisiadau. Mae'r tabl yn Atodiad 4 yn nodi'r broses sgrinio a gynhelir lle y nodwyd bod angen sgrinio ar lefel prosiect a lle mae datblygiad wedi cyrraedd cam cais cynllunio yn ystod cyfnod adrodd yr AMB. Caiff pob cais cynllunio ei sgrinio gan Ecolegydd Cynllunio CSP, a lle bo effaith bosibl ar safle Ewropeaidd, mae proses sgrinio ffurfiol wedi cael ei chynnal. Nid oes unrhyw safleoedd cyflogaeth ôl-fabwysiadu a nodwyd yn SP 2 wedi cael eu cyflwyno yn ystod y cyfnod monitro hwn.

4.7. Cyhoeddir data Llywodraeth Cymru ar gyfer Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru ar lefel Cymru, gyda dim ond rhai dangosyddion ar gael ar raddfa sir Benfro neu dde-orllewin Cymru. Cyhoeddir y gweddill ar lefel Cymru neu Gymru a'r DU. Y data ar gyfer 2015 fydd y cyhoeddiad ystadegol terfynol gan y bydd yn cael eu disodli gan ddangosyddion cenedlaethol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

4.8. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi prif effeithiau'r cynllun yn erbyn Amcanion yr AoG, gan ddefnyddio dangosydd 'goleuadau traffig'.

Gwyrdd (G) - cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud, amcanion yn cael eu cyflawni

Oren (O) – nid yw amcanion yn cael eu cyflawni, dim pryderon

Coch (C) – nid yw amcanion yn cael eu cyflawni, pryderon ynglŷn ag amcanion/polisi.

4.9. Gan mai hwn yw trydydd AMB y CDLl, mae'r wybodaeth yn rhoi gwybodaeth cyfres amser er mwyn asesu'r cynllun o'r llinell sylfaen. Efallai y bydd adroddiadau monitro canlyniadol yn nodi trothwyon ar gyfer ymchwiliad pellach. Fodd bynnag, ar sail gwaith monitro eleni ni fydd angen adolygu'r Cynllun yn gynnar oherwydd AoG/AAS.

| | **Perfformiad** | | |
|---|---|---|---|
| **Amcanion yr AoG** | **2013-14** | **2014-15** | **2015-16** |
| 1. Datblygu a chynnal strwythur poblogaeth cytbwys | O | O | O |
| 2. Hyrwyddo iechyd a llesiant pobl drwy ffordd o fyw iach a mynediad at ofal iechyd a chyfleoedd hamdden ac amgylchedd glân ac iach. | G | G | G |
| 3. Gwella cyfleoedd addysg i wella'r sgiliau a'r sylfaen wybodaeth | G | G | G |
| 4. Lleihau'r angen i deithio i'r eithaf ac annog dulliau trafnidiaeth cynaliadwy | G | G | G |
| 5. Darparu amrywiaeth o dai o safon uchel, gan gynnwys tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol.<br>6. Creu cymunedau diogel, bywiog a chydlynol sydd â mynediad gwell at wasanaethau a chyfleusterau allweddol.<br>7. Diogelu a gwella rôl y Gymraeg a diwylliant Cymru. | G | O | O |
| 8. Rhoi amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth o ansawdd da sy'n hygyrch i bob rhan o'r boblogaeth.<br>9. Cefnogi economi leol gynaliadwy ac amrywiol | O | O | O |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10. Paratoi ar gyfer cyfraniad sir Benfro at newid yn yr hinsawdd a lleihau ei effaith. | G | G | G |
| 11. Cynnal a gwella ansawdd aer | O | O | O |
| 12. Lleihau faint o wastraff a llygredd a gynhyrchir<br>13. Annog cynhyrchu, defnyddio ac ailddefnyddio adnoddau'n effeithlon. | G | G | G |
| 14. Cynnal a diogelu ansawdd dŵr mewndirol ac arfordirol<br>15. Lleihau effeithiau llifogydd a chodiad yn lefel y môr | O | O | O |
| 16. Defnyddio tir yn effeithlon a lleihau halogi i'r eithaf<br>17. Diogelu ansawdd a meintiau pridd | G | G | G |
| 18. Diogelu a gwella amrywiaeth | G | O?[3] | O? |
| 19. Diogelu a gwella'r dirwedd a'r dreftadaeth ddaearegol<br>20. Annog dyluniadau o ansawdd sy'n unigryw i'r ardal leol ac sy'n ategu'r dreftadaeth adeiledig.<br>21. Diogelu a gwella'r dreftadaeth adeiledig a'r amgylchedd hanesyddol | G | G | G |

**Cyfyngiadau**

4.10. Dylid nodi bod ffactorau eraill, y tu hwnt i'r CDLl, yn dylanwadu ar berfformiad Amcanion yr AoG.

4.11. Mae amcanion yr AoG yn rhai dyheadol ar y cyfan. Mae rhai data ar gael ar lefel Sir ond nid ydynt wedi'u dadgyfuno ar gyfer ardal y Cynllun. Nid yw rhai data yn ddigon cyfredol nac yn berthnasol. Wrth i'r Cynllun symud ymhellach oddi wrth y llinell sylfaen, mae'n anochel y bydd newidiadau cyd-destunol yn cyflwyno torbwyntiau mewn data cyfres amser wrth i newidiadau gael eu cyflwyno i'r broses o gasglu data.

4.12. Mae'r gwaith o fonitro perfformiad y cynllun yn erbyn amcanion yr arfarniad o gynaliadwyedd yn un o ofynion adroddiad yr AoG a'r CDLl. Dylai'r gwaith o fonitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd gael ei integreiddio â gweithgarwch arall yr AMB.

4.13. Nodir methodoleg a fframwaith monitro'r AoG yn Atodiad 3 a fframwaith monitro'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn Atodiadau 4.

[3] Yn absenoldeb asesiadau o gyflwr safle gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer safleoedd Natura 2000 mae angen dull rhagofalus

**Crynodeb**

4.14. Mae 11 o amcanion yn gadarnhaol, mae 10 yn niwtral ac mae 1 heb ddigon o ddata i bennu ei berfformiad (bioamrywiaeth – effeithiau ar safleoedd Ewropeaidd).

4.15. I gloi, canfyddir nad yw gwaith monitro'r AoG yn 2015/16 yn codi unrhyw faterion sylweddol eraill sy'n gofyn am gamau gweithredu eraill ar wahân i'r hyn a nodwyd eisoes. O gymharu â 2013/14 a 2014/15 mae hyn yn unol â'r disgwyl, ac mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar y llinell sylfaen ar gyfer adroddiadau monitro canlyniadol. O ran cynnydd o flwyddyn i flwyddyn, dros y blynyddoedd sydd i ddod gellir nodi tueddiadau. Bydd gwaith monitro'r AoG yn parhau i roi gwybodaeth werthfawr am dueddiadau a nodi unrhyw angen am ymyrryd, gan gynnwys adolygiadau o bolisïau.

4.16. Ni nodwyd unrhyw fesurau lliniaru ar y cam hwn, ond bydd angen monitro dangosyddion ar gyfer poblogaeth, ansawdd dŵr (Parthau Perygl Nitradau posibl), tai (gan gynnwys sipsiwn a theithwyr), cyflogaeth a'r economi yng ngwaith monitro'r AoG yn y dyfodol, ochr yn ochr â gwaith monitro'r CDLl yn y dyfodol. Nodwyd rhai materion monitro yn AMB y CDLl (gweler Pennod 3 o'r ddogfen hon) ac os bydd y tueddiadau yn parhau bydd angen mynd i'r afael â'r rhain wrth adolygu'r cynllun (2017) os oes angen.

4.17. Mae gwaith monitro'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn dangos bod y broses sgrinio wedi cael ei chynnal ar nifer o gynigion ar lefel prosiect sydd wedi cael eu cyflwyno yn ystod cyfnod yr AMB. Caiff pob cais cynllunio ei sgrinio ar gyfer ei effaith bosibl ar safleoedd Ewropeaidd.

# 5 Adborth o Ddigwyddiadau Ymgynghori

5.1. Mae’r Llawlyfr ar CDLlau (Llywodraeth Cymru 2006) yn nodi y dylai barn rhanddeiliaid allweddol gael ei cheisio er mwyn atgyfnerthu’r agwedd ddadansoddol ar yr AMB (Adran 9.2). Er mwyn cyflawni hyn cynhaliwyd seminarau ar yr AMB ar 20 Medi 2016 (i Aelodau Etholedig), ar 21 Medi 2016 (i Randdeiliaid) a 27 Medi 2016 (Fforwm Asiantau Sir Benfro). Ar ôl y sesiwn i Randdeiliaid, cynhaliwyd cyfarfod hefyd rhwng swyddogion cynllunio CSP a chynllunwyr Llywodraeth Cymru.

Ceir crynodeb o’r cwestiynau / pwyntiau allweddol sy’n deillio o’r cyfarfodydd uchod, ynghyd â’r ymatebion[4], isod:

- Cwestiynau ynglŷn â safle penodol ar Slade Lane, Hwlffordd
- Ateb – o ran y gwaith cyn cychwyn, dim ond y gwaith o uwchraddio’r gweithfeydd trin carthion sydd heb ei wneud. Rhoddwyd caniatâd ar gyfer 729 o anheddau newydd gyda’r gwaith seilwaith cysylltiedig wedi’i wneud. Nid yw’r Cynllun presennol yn rhagweld y bydd llawer o’r safle gogleddol yn cael ei ddatblygu yn y cyfnod cyn 2021, felly mae gwaith datblygu yn debygol o barhau yng nghyfnod nesaf y Cynllun.

- Cwestiwn – a oes unrhyw gynnydd yn cael ei wneud ar safle tai Maesgwyn, Abergwaun?
- Ateb – cafodd y cais adran 73 i amrywio amod ar 07/1454/PA (datblygiad preswyl), i ganiatáu estyniad amser i gyflwyno materion a gadwyd yn ôl, ei gymeradwyo’n amodol ar 19/08/16 (yn ystod blwyddyn 4 yr AMB).

- Cwestiwn – a gafodd unrhyw gartrefi ecogyfeillgar eu hadeiladu yn sir Benfro?
- Ateb – do, er enghraifft yn Rhosygilwen (ger Rhoshill) yn ardal gynllunio CSP a Thyddewi yn ardal gynllunio’r Awdurdod Parc Cenedlaethol.

- Cwestiwn – a oes modd cael eglurhad ynglŷn â’r sefyllfa o ran ailddefnyddio a dymchwel yn hen burfa olew Murco (Aberdaugleddau)?
- Ateb – *Manylion cryno o’r hanes cynllunio diweddar, fel a ganlyn:*
    - *15/0167/HS – cais gan Puma Energy – i ddiwygio caniatadau sylweddau peryglus, er mwyn cynnwys olewau tanwydd trwm fel cynnyrch petrolewm a enwyd, er mwyn cysoni’r caniatadau sy’n bodoli eisoes a’r*

[4] Ymatebwyd i rai yn y cyfarfod, ymatebwyd i rai yn fanwl yn ddiweddarach

*dosbarthiad newydd o sylweddau, a chaniatáu cyfnewid gwasanaethau tanc rhwng gwahanol gynhyrchion petrolewm a sylweddau eraill.*
*Cymeradwywyd yn amodol 09/11/15*

- *14/1122/PN – cais gan Murco Petroleum Ltd – i ddymchwel yr ardal brosesu ar safle'r burfa.*
  *Gwrthodwyd 01/04/15*
- *15/0182/PN – cais gan Murco Petroleum Ltd – i ddymchwel yr ardal brosesu ar safle'r burfa.*
  *Cymeradwywyd yn amodol 29/05/15*
- *16/0366/PN – cais gan Murco Petroleum Ltd – i ddymchwel y burfa'n llawn hyd at lefel y ddaear.*
  *Gwrthodwyd 25/08/16 (Blwyddyn Adrodd AMB 4) gofynnwyd am ragor o wybodaeth ar ffurf cynllun rheoli traffig, er mwyn dangos effaith y cynnig ar y rhwydwaith priffyrdd.*
- *16/0612/PN – cais (a ailgyflwynwyd) gan Murco Petroleum Ltd – i ddymchwel y burfa'n llawn hyd at lefel y ddaear.*
  *Dim penderfyniad erbyn mis Medi 2016.*

.

- Sylw – efallai fod dyfodol hirdymor yr unig burfa olew sy'n weddill ar Ddyfrffordd y Ddau Gleddau (Valero) yn ansicr, gan fod y farchnad ynni fyd-eang wedi newid ei ffocws yn y DU o arfordir gorllewinol Prydain tuag at borthladdoedd arfordir dwyrain Lloegr.

- Cwestiwn – beth yw'r sefyllfa bresennol o ran y cais cynllunio defnydd cymysg yn Noc / Marina Aberdaugleddau?
- Ateb – argymhellwyd y dylai'r Pwyllgor Cynllunio a Hawliau Tramwy gymeradwyo cais cynllunio 14/0158/PA ym mis Chwefror 2015. Nid yw'r cytundeb cyfreithiol adran 106 cysylltiedig wedi'i lofnodi eto. Unwaith y bydd hyn wedi'i wneud, caiff y caniatâd ei roi.

- Cwestiwn – A fydd i Brexit unrhyw oblygiadau o ran cynlluniau trafnidiaeth wedi'u rhaglennu?
- Ateb – mae hyn yn debygol, gan fod arian Ewropeaidd yn ffynhonnell bwysig o gyllid ar gyfer cynigion trafnidiaeth ac adfywio. Rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf am Atodiad 2 i'r CDLl (cynnydd tuag at ddarparu llwybrau trafnidiaeth a ddiogelwyd a gwelliannau) ar gyfer pob AMB. Caiff diogelu llwybrau trafnidiaeth y CDLl ei adolygu'n llawn ar y cyd â pharatoi ar gyfer y CDLl newydd.

- Cwestiwn – Pam bod cynigion ar gyfer Treulwyr Anerobig wedi'u cynnwys yn yr adran ar gynllunio gwastraff?

- Ateb – mae'n anodd dosbarthu cynigion ar gyfer treulwyr anerobig, gan fod amaethyddiaeth, gwastraff a chynhyrchu ynni adnewyddadwy yn rhan annatod ohonynt. Yn gyffredinol, caiff cynigion ar gyfer treulwyr anerobig bach ar un fferm eu dosbarthu o dan amaethyddiaeth a chaiff cynigion ar gyfer treulwyr anerobig sy'n defnyddio deunydd o fwy nag un fferm eu dosbarthu o dan wastraff. Fodd bynnag, mae hwn yn faes cymhleth a gall tarddiad y deunydd newid.

- Cwestiwn – gyda'r posibilrwydd y bydd estyniad sylweddol i ddynodiadau Parthau Perygl Nitradau yn sir Benfro ar yr agenda, mae'n debygol y bydd llawer mwy o geisiadau am lagynau slyri yn cael eu cyflwyno. A fydd y Canllawiau Cynllunio Atodol yn barod o ran hyn?
- Ateb – Mae Canllawiau Arfer Gorau ar y pwnc hwn eisoes ar gael ar wefan CSP. Bydd CSP yn aros am yr ymgynghoriad disgwyliedig gan Lywodraeth Cymru ar y cynnig cyn cymryd camau pellach.

- Cwestiwn – a all CSP egluro faint o arian A106 a ddelir gan CSP i ddarparu tai fforddiadwy?
- Ateb – caiff y rhan fwyaf o Dai Fforddiadwy eu darparu ar y safle a'u trosglwyddo i Landlord Cymdeithasol Cofrestredig ar ôl iddynt gael eu hadeiladu. Lle nad yw hyn yn bosibl, defnyddir symiau cyfnewid. Delir symiau cyfnewid gan CSP nes bod prosiectau addas wedi'u nodi. Câi adroddiad ar symiau cyfnewid a ddelir gan CSP ei baratoi maes o law.

- Cwestiynau ynglŷn ag Adolygu'r Cynllun – Adroddiad yr Adolygiad, amseroedd y Cytundeb Cyflawni / cyflymder ymgysylltu / newidiadau i Strategaeth y Cynllun / safleoedd ymgeisiol / ffiniau anheddau

- <u>Adroddiad yr Adolygiad</u> – caiff yr Aelodau a rhanddeiliaid eu briffio ar berfformiad y CDLl presennol cyn bod y Cynllun newydd yn cael ei ddrafftio. Bydd adborth ynglŷn â pha mor dda y mae'r Cynllun presennol wedi gweithio yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y Cynllun newydd.
  <u>Cytundeb Cyflawni</u> – Caiff amserlen glir ar gyfer paratoi'r cynllun ei nodi yn y Cytundeb Cyflawni. Er nad oes amserlen benodol ar gyfer adolygu'r cynllun eto, ceir cyd-destun yn y ffaith y bydd gwaith paratoi yn dechrau'n fuan, a bydd Adroddiad Adolygiad a Chytundeb Cyflawni drafft yn cael eu cyflwyno i'r Aelodau ar ôl etholiadau llywodraeth leol 2017[5] i'w hystyried (cyn ymgynghoriad cyhoeddus) ac yna benderfynu arnynt. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cynghori bod adolygiad / paratoi cynllun newydd yn

[5] Ac ar ôl hyfforddiant ar bolisi cynllunio i aelodau newydd a'r rhai sy'n dychwelyd

debygol o gymryd tua 3 blynedd. Bydd angen i'r Cynllun newydd gael ei fabwysiadu cyn dyddiad diwedd y Cynllun, sef 31 Rhagfyr 2021, ac ar ôl y dyddiad hwnnw ni fydd polisïau yn y CDLl presennol yn weithredol. Mae'r Cytundeb Cyflawni ar gyfer yr Adolygiad o'r Cynllun yn benderfyniad allweddol a wneir gan y Cyngor cyfan, ar ôl ymgynghoriad. Bydd yn nodi'r amserlen ar gyfer camau allweddol yr Adolygiad o'r Cynllun, yn nodi'r adnoddau sydd eu hangen ac yn esbonio pwy, sut a phryd rydym yn cynnwys sefydliadau ac unigolion yn yr Adolygiad o'r Cynllun. Bydd Cynghorau Cymuned a Thref ymhlith y rhai a gaiff wybodaeth reolaidd drwy gydol y broses o baratoi'r Cynllun a chânt gyfleoedd i fynegi eu barn yn rheolaidd. Mae gan yr Aelodau rôl bwysig i gydgysylltu a gweithredu fel llysgenhadon, er mwyn esbonio dibenion, polisïau a chynigion y Cynllun i Gynghorau Cymuned a Thref a chadw mewn cysylltiad â swyddogion wrth i'r cynllun newydd ddatblygu. Yn ystod y broses o baratoi'r CDLl presennol cyfarfu swyddogion â'r Fforymau Cyswllt Ardal yn rheolaidd er mwyn esbonio sut roedd y Cynllun yn datblygu a bydd CSP yn ceisio trefnu sesiynau tebyg fel y bo'n briodol.

Caiff <u>Strategaeth y Cynllun</u> ei ystyried fel rhan o'r Adolygiad wedi'i lywio gan sylfaen dystiolaeth newydd. Lle y bo'n briodol, bydd y sylfaen dystiolaeth yn ategu sylfaen dystiolaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro, gyda chydweithio lle y bo'n hyn yn fuddiol. Yr arwyddion cynnar yw y bydd angen addasu'r hierarchaeth o aneddiadau o bosibl, y bydd angen adolygu dyraniadau tai a chyflogaeth ac y bydd angen cynnwys safleoedd ychwanegol i gyflawni hyd at 2031, gan ystyried y gallu i gyflawni, y bydd angen ailwerthuso safleoedd cyflogaeth strategol yn ardal y Ddau Gleddau, gan ystyried Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau ac y bydd angen ailystyried polisïau canol trefi (gan ystyried lefelau unedau gwag). Yn fwy cyffredinol, mae'r cyd-destun ar gyfer paratoi cynllun wedi newid yn sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae gan lesiant ac ymyriadau rhagweithiol i adfywio'n gynt broffil uwch bellach. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd yr angen am dai yn parhau ar lefelau tebyg, er gwaethaf nifer yr eiddo gwag (tua 1,200 ar unrhyw adeg benodol).

<u>Safleoedd Ymgeisiol / Ffiniau Anheddau</u> – bydd CSP yn hysbysebu am Safleoedd Ymgeisiol, ond mae'r amserlen yn ansicr ar hyn o bryd. Bydd swyddogion yn gallu rhoi amcan gwell o'r amserlen debygol erbyn mis Medi 2017. Caiff dyraniadau yn y CDLl presennol nad ydynt wedi denu caniatâd cynllunio a / neu wedi cael eu datblygu eu hailwerthuso. Os bydd perchenogion safleoedd o'r fath yn ceisio sicrhau bod y dyraniad yn parhau bydd disgwyl iddynt gyflwyno'r rhain fel safleoedd ymgeisiol, er mwyn esbonio pam nad ydynt wedi cael eu datblygu a chyfiawnhau pam y dylai'r dyraniad barhau. I'r rhai sy'n ceisio newid ffiniau anheddiad dylai hyn hefyd

gael ei gyflwyno o dan y cais am safleoedd ymgeisiol. Os caiff safle ei wrthod ar ôl cael ei werthuso, yna dylid gwrthwynebu ar adeg Adneuo. Yna gellir cynnal Archwiliad, i'w ystyried gan yr Arolygydd Cynllunio Annibynnol. Cydnabuwyd, ar lefel strategol, fod pobl yn aml yn cael anhawster deall sut y bydd y penderfyniadau a wneir yn effeithio ar bolisïau a chynigion a ddatblygir yn lleol.

- Cwestiynau ynglŷn â Thai Fforddiadwy
- Ateb – Mewn ymateb i gwestiynau ynglŷn â thai fforddiadwy cadarnhawyd bod y Cyngor yn cyflawni'r hyn yr oedd am ei gyflawni, fwy neu lai, gyda tharged dangosol wedi'i bennu ar gyfer pob un o ddyraniadau tai'r CDLl (polisi GN.27 a hefyd yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Dai Fforddiadwy. Lle nad oes modd eu darparu ar y safle, defnyddir symiau cyfnewid yn lle hynny. Cynhaliwyd trafodaethau ar y posibilrwydd o godi anheddau parod, a oedd yn cynnwys tîm tai CSP, ond ni ddaethpwyd i unrhyw gasgliadau pendant hyd yma.

- Cwestiwn– a all Cynghorau Cymuned a Thref ddylanwadu ar y ffordd y caiff arian A106 ei wario?
- Ateb – mae hwn yn fater i CSP yn bennaf, ond o dan rai amgylchiadau gall Cynghorau Cymuned a Thref gael eu cynnwys (er enghraifft, lle y cynigir man agored newydd). Caiff cyfraniadau eu ceisio am amrywiaeth o ddibenion, fel y'u nodir ym mholisi GN.3. Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar Rwymedigaethau Cynllunio a baratowyd ar y cyd gan y Cyngor a'r Awdurdod Parc Cenedlaethol bron â'u cwblhau ar ôl ymgynghoriad, ac mae'n debygol y cânt eu cyhoeddi ar wefannau'r ddau awdurdod yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf.

- Cwestiwn – mae'r Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai ddiweddaraf (2015) yn nodi bod 5 mlynedd o gyflenwad tir ar gyfer tai ar gael. Mae cyfraddau cwblhau yn foddhaol hefyd. Cyflawnwyd hyn yn ystod cyfnod o anawsterau economaidd. Fodd bynnag, ni nodir sut y caiff tai newydd sydd i'w darparu eu rhannu rhwng safleoedd a neilltuwyd o dan y CDLl a hap-safleoedd. Byddai'n ddefnyddiol cael y wybodaeth honno.
- Ateb – caiff gwybodaeth am y rhaniad rhwng safleoedd a neilltuwyd a hap-safleoedd ei pharatoi a chaiff ei hystyried pan gaiff y CDLl ei adolygu.

- Cwestiwn – sut y lluniwyd yr hierarchaeth o aneddiadau? Yn benodol, sut y penderfynwyd pa aneddiadau a gâi eu dosbarthu'n Bentrefi Lleol Bach ac yn Bentrefi Lleol Mawr?

- Ateb – mae'r hierarchaeth o aneddiadau yn seiliedig yn rhannol ar Gynllun Gofodol Cymru ac yn rhannol ar yr Arolwg o Gyfleusterau Gwledig a baratowyd fel rhan o sylfaen dystiolaeth y CDLl. Sgoriodd Pentrefi Lleol Mawr a Bach yn wael o ran y gwasanaethau a'r cyfleusterau a ddarperir ganddynt ac nid ydynt yn lleoliadau cynaliadwy iawn ar gyfer tai newydd. Felly dyna'r rheswm y rhoddir pwyslais ar ddarpariaeth sy'n diwallu anghenion lleol (50% o dai fforddiadwy yn ofynnol mewn pentrefi lleol mawr a 100% o dai fforddiadwy yn ofynnol mewn pentrefi lleol bach). Mae gwasanaethau a chyfleusterau a ddarperir yn newid dros amser, felly bydd angen adolygu'r Hierarchaeth o Aneddiadau pan gaiff y CDLl ei adolygu.

- Cwestiynau ynglŷn â darparu safleoedd newydd i sipsiwn a theithwyr?
- Ateb – Prif gynnig CSP yw ehangu'r safle yng Nghomin Kingsmoor, Cilgeti, ar ddyraniad CDLl. Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi cytuno i'r gorchmynion diddymu cysylltiedig. Cafwyd ychydig o ddarpariaeth newydd ar safleoedd preifat bach yn unol â pholisi'r CDLl a bydd hynny'n parhau. Ymgynghorir â chymunedau lleol, gan gynnwys Cynghorau Cymuned a Thref ac, fel y bo'n briodol, unigolion pan ddaw ceisiadau cynllunio o'r fath i law.

- Cwestiwn – beth yw dyfodol y safleoedd diwydiannol mawr ar hyd Dyfrffordd y Ddau Gleddau yn yr hirdymor?
- Ateb – mae'n anodd bod yn sicr, ond o edrych ar sefyllfa'r DU, ymddengys bod y farchnad ynni fyd-eang yn ffafrio'r gosodiadau petrogemegol ar ochr ddwyreiniol y wlad. Ar gyfer gosodiadau Dyfrffordd y Ddau Gleddau, mae'r darlun ychydig yn ddu yn yr hirdymor.

- Cwestiwn – Manwerthu – bu rhagor o gynigion manwerthu ar gyrion y canol ac ar gyrion y dref yn sir Benfro, yr ymddengys eu bod yn mynd yn groes i bolisi cynllunio Cymru, sy'n ffafrio lleoliadau canol tref ar gyfer datblygiadau o'r fath. A all y Cyngor roi rhagor o wybodaeth am y rhain?
- Ateb – yn Hwlffordd, rhoddwyd caniatâd yn flaenorol i adeiladu archfarchnad ar ran o safle dyraniad tai Slade Lane South. Rhoddwyd y caniatâd ar y sail y byddai angen y datblygiad hwn i wneud y cynigion tai yn hyfyw. Fodd bynnag, mae'r gweithredwr manwerthu dan sylw wedi tynnu'n ôl erbyn hyn. Mae perchennog y tir bellach yn gobeithio cyflwyno cynigion amgen ar gyfer y safle hwn ar gyrion y canol, gan gynnwys defnyddiau manwerthu. Hefyd, yn Hwlffordd, mae Aldi yn cynnig ailadeiladu ei archfarchnad ar gyrion y canol, gan ehangu i hen safle garej Bland sydd bellach yn wag. Mewn cyd-destun ehangach, mae Uwchgynllun Hwlffordd a gymeradwywyd yn ddiweddar yn cyflwyno amrywiaeth o gynigion i adfywio canol y dref. Yn Noc

Penfro, mae Aldi yn adeiladu siop fanwerthu ar gyrion anheddiad ar dir llwyd yn Waterloo. Mae'r caniatadau manwerthu ar y safle hwn yn dyddio'n ôl rai blynyddoedd, gyda buddiant Aldi yn gymharol ddiweddar. Pan gaiff y CDLl ei adolygu, bydd y sylfaen dystiolaeth ar gyfer y cynllun newydd yn cyfeirio at ddatblygiadau manwerthu diweddar a chynigion nad ydynt yn ymwneud â chanol y dref. Fodd bynnag, rhagwelir mai ffocws y cynllun newydd, fel yr un presennol, fydd sicrhau bod canol trefi yn parhau i fod yn ganolbwynt ar gyfer cynigion manwerthu oni bai bod cyfiawnhad cryf dros eithriad.

# 6. Casgliadau ac Argymhellion

**Crynodeb**

6.1. Mae cynnydd da wedi cael ei wneud yn 2015-16 o ran ymgorffori'r Cynllun. Cyflawnwyd hyn drwy ymgysylltu ymhellach â'r cyhoedd, aelodau ac asiantau. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Canllawiau Cynllunio Atodol drafft ar Ynni Adnewyddadwy rhwng 24/02/16 a 11/04/16. Caiff y rhain eu llunio ar eu ffurf derfynol yn ystod blwyddyn 4 yr AMB. Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar Rwymedigaethau Cynllunio wedi cael eu diwygio, mewn partneriaeth â'r Awdurdod Parc Cenedlaethol y tro hwn. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar ddrafft a chaiff yr eitem hon o'r Canllawiau Cynllunio Atodol ei llunio ar ei ffurf derfynol yn ystod blwyddyn 4 yr AMB, pryd y bydd yn disodli'r fersiwn gynharach. Cynigion i ddiwygio Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu oherwydd gwybodaeth annigonol gan Dŵr Cymru ynglŷn â gwaith uwchraddio angenrheidiol.

6.2. Mae sawl eitem newydd a diwygiedig o ddeddfwriaeth, rheoliadau a pholisi cynllunio wedi dod i'r amlwg ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu, y mae i'r rhai ohonynt oblygiadau o ran y ffordd y caiff y CDLl ei roi ar waith yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw newidiadau cyd-destunol wedi'u nodi ar hyn o bryd sy'n awgrymu bod angen adolygu'r Cynllun yn gynnar.

6.3. O'r data a gasglwyd ar gyfer yr AMB gellir dod i'r casgliad bod y Cynllun yn perfformio'n dda ar y cyfan ac nad oes dim byd yn awgrymu bod angen adolygiad llawn neu rannol o'r Cynllun:

- mae gwaith monitro'r AoG a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn dangos nad oes angen adolygiad ar seiliau cynaliadwyedd;
- Nodir nifer o faterion y mae angen ymchwilio iddynt ymhellach neu y mae angen cymryd camau gweithredu pellach yn eu cylch;
- Bydd angen gwaith monitro manwl mewn AMBau yn y dyfodol mewn perthynas â thueddiadau ar gyfer Canol Trefi a chynnydd o ran gwaith ar lety Sipsiwn a Theithwyr a chaniatadau ar gyfer lleiniau.

6.4. Bydd angen AMBau bob blwyddyn yn y dyfodol drwy baratoi adolygiad o'r Cynllun a bydd y rhain yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y materion sy'n deillio o ddeddfwriaeth, polisïau a chanllawiau newydd neu ddiwygiedig, neu wybodaeth arall a gyhoeddir a all effeithio ar y ffordd y caiff CDLl y Cyngor ei roi ar waith.

# 7. Atodiadau

# Atodiad 1 – Fframwaith Monitro'r CDLl

Data Ffynhonnell: Monitro Ceisiadau Cynllunio'n Gyflym oni nodir fel arall mewn troednodiadau.

Roedd nifer o Geisiadau Cynllunio a gymeradwywyd ar ôl i'r CDLl gael ei fabwysiadu yn aros am gytundebau 106, a phenderfynwyd arnynt o dan y Cynllun Datblygu Unedol ar y Cyd. Ni chafodd y rhain eu cynnwys yn y dadansoddiad hwn.

Nid yw nifer o Geisiadau Cynllunio a benderfynwyd yn gyffredinol gan yr Awdurdod wedi'u cynnwys yn yr AMB am eu bod yn amhriodol at ddibenion yr adroddiad hwn. Maent yn cynnwys:

AG – Hysbysiadau Amaethyddol

HG – Gwrychoedd

CA – Ardaloedd Cadwraeth

Pr Notf – Hysbysiadau Blaenorol

CLOPUD – Tystysgrifau Datblygu Cyfreithlon Arfaethedig

EIA – Asesiad Effaith Amgylcheddol

DC – Cyflawni Amodau

Diwygiadau Adran 73

Ceisiadau Amlinellol

TF – Cymynu Coed

LB – Adeiladau Rhestredig

AD – Hysbysebion

OHL – Llinellau Uwchben

CLD – Tystysgrifau Datblygu Cyfreithlon

HS – Sylweddau Peryglus

Diwygiadau ansylweddol i geisiadau

Diwygiadau Adran 73 ôl-weithredol

Ceisiadau Materion a Gedwir yn ôl

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | Adolygu'r Cynllun |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |
| Cyfanswm Nifer y Ceisiadau Cynllunio y penderfynwyd arnynt o dan y CDLl (heb gynnwys Trin Coed, Datblygiadau Amaethyddol, Adran 73 ac Adeiladau Rhestredig): | - | | Cyfanswm: 749<br>Cymeradwywyd: 665<br>Gwrthodwyd: 82 | Cyfanswm: 859<br>Cymeradwywyd: 785<br>Gwrthodwyd: 74 | Cyfanswm: 681<br>Cymeradwywyd: 614<br>Gwrthodwyd: 67[6] | |
| **Amcan Strategol: Lliniaru ac ymateb i her newid yn yr hinsawdd (A)** | | | | | | |
| (Craidd) Faint o ddatblygiadau (yn ôl TAN 15 paragraff 5.1 categori datblygu) a ganiatawyd mewn ardaloedd gorlifdir C1 ac C2 ac nad oedd fel arall yn bodloni holl brofion TAN 15 (paragraff 6.21 – v).* | Mae datblygiadau mewn parthau C1 ac C2 yn unol â darpariaethau TAN15. | Mae mwy nag 1 gymeradwyaeth o fewn blwyddyn ddatblygu mewn parthau C1 ac C2 yn groes i ddarpariaethau TAN 15. | 5 | 0 | 0 | |
| **Crynodeb o'r Amcan Strategol: Lliniaru ac ymateb i her newid yn yr hinsawdd (A):**<br>Cymeradwywyd dau gais yn C1/C2 ond roeddent yn bodloni holl brofion TAN 15.<br>Mae hyn yn welliant sylweddol ers cyfnod AMB 2013-2014, gan gadw at y radd sero ar gyfer AMB 2. Mae'n adlewyrchu'r ffaith bod Swyddogion | | | | | | |

[6] O'r rhai a wrthodwyd penderfynwyd ar 1 drwy apêl, penderfynwyd ar 1 drwy Benderfyniad Terfynol yn hytrach na chael ei wrthod.

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | ygu'r Cynll |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **2014** | **2015** | **2016** | |
| Rheoli Datblygu wedi parhau i weithredu arferion gwaith gwell. Fel arfer ymgynghorir â Cyfoeth Naturiol Cymru ar geisiadau perthnasol. Caiff asesiadau clir o berygl llifogydd eu cynnwys mewn adroddiadau dirprwyedig ac adroddiadau pwyllgor lle bynnag y bydd ardal safle cais yn cyd-daro â pharth llifogydd C1 neu C2. Mae hyn yn gymwys fel arfer hyd yn oed os mai dim ond darn bach o dir yr effeithir arno. | | | | | | |
| **Amcan Strategol: Gwella mynediad at nwyddau a gwasanaethau (I)** | | | | | | |
| Nifer a chyfran y caniatadau cynllunio tai ar lefelau gwahanol o'r hierarchaeth o aneddiadau. | Mae 60% o ganiatadau yn y Trefi Ffocws[7] | Caniatadau llai na 50% mewn Trefi Ffocws dros gyfnod o 3 blynedd (Noder: nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu) | Tref Ffocws<br>1,191 (77%) | Tref Ffocws<br>790 (65.3%) | Tref Ffocws<br>356 (39%) | |
| | | | Tref Wledig<br>55 (3.5%) | Tref Wledig<br>31 (2.6%) | Tref Wledig<br>43 (5%) | |
| | | | Canolfan Wasanaeth<br>14 (0.9%) | Canolfan Wasanaeth<br>23 (1.9%) | Canolfan Wasanaeth<br>98 (11%) | |
| | | | Pentref Gwasanaeth<br>165 (11%) | Pentref Gwasanaeth<br>303 (25%) | Pentref Gwasanaeth<br>329 (36%) | |
| | | | Pentref Lleol Mawr<br>12 (0.8%) | Pentref Lleol Mawr<br>10 (0.8%) | Pentref Lleol Mawr<br>22 (2%) | |
| | | | Pentref Lleol Bach<br>15 (1%) | Pentref Lleol Bach<br>15 (1.2%) | Pentref Lleol Bach<br>10 (1%) | |
| | | | Cefn Gwlad Agored<br>95 (6%) | Cefn Gwlad Agored<br>38 (3.1%) | Cefn Gwlad Agored<br>64(7%) | |

[7] Mae 63% yn rhychwantu'r 3 blwyddyn adrodd

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | Cynll ygu'r |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |
| Arwynebedd tir a ddiogelwyd ar gyfer cynigion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth a gollwyd oherwydd datblygiadau | 0% | Bydd yn rhaid ymchwilio i unrhyw golled | 0 | 0 | 0 | |
| Newid net mewn cyfleusterau cymunedol a ddarperir o ganlyniad i ganiatâd cynllunio (arwynebedd a math). | Er mwyn cadw cyfleusterau allweddol | Colli dros 3 chyfleuster cymunedol o fewn unrhyw gyfnod penodol o 3 blynedd. | Cyfleusterau newydd a enillwyd:<br>Neuaddau Cymunedol: 0.39 hectar<br>Tafarndy: 1.35 hectar<br>Cyfleusterau iechyd: 1.30 hectar<br>Cyfleusterau addysg: 3.91 hectar<br>Man Agored/ardaloed d awyr agored | Cyfleusterau newydd a enillwyd ac a gollwyd:[9]<br>Neuaddau Cymunedol 0.11 hectar wedi'i ennill<br>0.03 wedi'i golli (13/1090/PA)<br>Tafarndy: 0.13 hectar wedi'i ennill<br>Iechyd: 0.04 hectar wedi'i ennill | Cyfleusterau newydd a enillwyd ac a gollwyd[7]<br>Tafarndai 0.09 hectar wedi'i golli (13/0772/PA 15/0853/PA)<br>Adeiladau crefyddol 0.53 hectar wedi'i golli (13/0878/PA 15/0232/PA, 15/0800/PA, 15/0322/PA).<br>Siop gyfleustra | |

[9] Fel o'r blaen, lle mae cyfleuster cymunedol wedi newid o un fath i un arall nid ystyriwyd bod hyn yn golled. Mae cyfleusterau newydd yn cynnwys estyniadau i ardaloedd safle sy'n bodoli eisoes (ac nid estyniadau i adeiladau o fewn ardal safle sy'n bodoli eisoes) a newidiadau mewn defnydd.

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | ygu'r Cynll |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |
| | | | 2.52 hectar<br>Arall: 0.15 hectar<br>Dim cyfleusterau wedi'u colli'n llwyr[8] | Cyfleusterau addysg: 0.63 hectar wedi'i ennill<br>0.06 hectar wedi'i golli (13/0963/PA)<br>Man Agored / Ardaloedd awyr agored: 0 | leol a enillwyd 0.01 hectar (15/0082/PA)<br>Chwaraeon a hamdden | |
| | | | | Arall: 0.32 hectar wedi'i ennill<br>-0.17 wedi'i golli (14/0119/PA a 14/0704/PA)<br>Adeiladau crefyddol 0.90 hectar wedi'i ennill | 0.88 hectar wedi'i ennill (15/0149/PA<br>0.16 hectar wedi'i golli (15/0715/PA<br>Colli caffis 0.02 hectar wedi'i golli (14/1059/PA15/ 0308/PA)<br>Ennill addysgol | |

[8] noder: lle mae cyfleuster cymunedol wedi newid o un fath i un arall nid ystyriwyd bod hyn yn golled

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | Cynllun yn gweithredu? / ygu'r Cynll |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |
| | | | | -0.29 hectar wedi'i golli (14/0318/PA 13/0909/PA) 6 chaniatâd lle newidiwyd defnydd o gyfleuster cymunedol. Fodd bynnag, ym mhob achos roedd y defnydd eisoes wedi dod i ben ac nid oedd yn hyfyw mwyach. | 0.02 (14/1192/PA 0.26 hectar wedi'i golli (15/0584/P, 14/1098/PA. Roedd 11 o ganiatadau yn golygu colli rhai cyfleusterau cymunedol. Ym mhob achos rhoddwyd cyfiawnhad (gweler y sylwadau) | |

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | ygu'r Cynll |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |
| Lefel gwasanaethau mewn aneddiadau gwledig. | Nid yw gwasanaethau mewn aneddiadau yn yr hierarchaeth o aneddiadau yn sylweddol is nag yn Arolwg 2008 o Gyfleusterau Gwledig | Monitro wrth Adolygu'r Cynllun (2017) – byddai 10% o newid yn nifer yr aneddiadau sy'n sicrhau gwasanaethau lefel pentref yn gofyn am ymchwiliad pellach. | | | | |
| (Craidd) Capasiti (MW) datblygiadau ynni adnewyddadwy a ganiatawyd. | Dim targed ond gall un gael ei bennu at ddibenion monitro'r CDLl, gan ddefnyddio'r fethodoleg a nodir ym Mhecyn Cymorth Ynni Adnewyddadwy Llywodraeth Cymru | Dim trothwy wedi'i nodi. | 108.427MW o gapasiti a ganiatawyd rhwng 28.02.13 a 31.03.14.[10] (108.417 MW o gapasiti a ganiatawyd rhwng 01/04/13 a 31/03/14) | 68.60 MW o gapasiti a ganiatawyd. [11] | 34.77 MW o gapasiti a ganiatawyd[12]. | |

[10] (gan gynnwys apeliadau a ganiatawyd ar geisiadau y penderfynwyd arnynt yn gychwynnol yn y cyfnod hyd at 31.03.14)
[11] (gan gynnwys apeliadau a ganiatawyd ar geisiadau y penderfynwyd arnynt yn gychwynnol yn y cyfnod hyd at 31.03.15). Noder nad oes unrhyw wybodaeth am gapasiti ar gael ar gyfer ceisiadau 14/0640/PA.
[12] Nid yw hyn yn cynnwys 6 chais lle nad oedd unrhyw ddata allbwn ar gael – ym mhob achos roedd disgwyl i allbynnau fod yn fach.

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | ygu'r Cynll |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |
| Faint o fan agored (m2) a ganiateir o gymharu â chyfanswm nifer yr anheddau a ganiateir. | Darparu man agored cyhoeddus ar gyfradd o fwy na 25% islaw gofyniad y safon (fel y'i nodwyd yn y Canllawiau Cyhoeddi Atodol) | Darparu man agored cyhoeddus ar gyfradd o fwy na 35% islaw gofyniad y safon (fel y'i nodwyd yn y Canllawiau Cyhoeddi Atodol) wrth adolygu'r Cynllun. | Dd/B – i'w nodi wrth adolygu'r Cynllun (2017) | | | |

**Crynodeb o'r Amcan Strategol: Gwella mynediad at nwyddau a gwasanaethau (I):**

Mae nifer a chyfran y caniatadau cynllunio ar gyfer datblygiadau preswyl newydd (lle bu ennill net o ran annedd), yn unol yn fras â strategaeth anheddu'r CDLl, ond roedd lleihad yn nifer yr unedau a ganiatawyd yn y Trefi Ffocws am y tro cyntaf er i'r Cynllun gael ei fabwysiadu yn golygu canran ychydig yn is na'r targed (39% yn lle 50% o ganiatadau mewn Trefi Ffocws). Cafodd cyfanswm o 922 o anheddau preswyl newydd eu cymeradwyo'n amodol yn ardal y Cynllun rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2016. O'r rhain, roedd 356 wedi'u lleoli mewn Trefi Ffocws, sy'n hafal i 39% o'r holl ganiatadau preswyl. Mewn mannau eraill roedd y canrannau yn unol â strategaeth y CDLl. Mae canran ychydig yn uwch o ddatblygiadau yng Nghefn Gwlad yn adlewyrchu nifer o geisiadau am addasu anheddau, anheddau menter wledig a chynigion Datblygu Un Blaned, y mae pob un ohonynt yn cydymffurfio â'r CDLl.

Ni roddwyd caniatâd ar gyfer unrhyw arwynebedd tir a ddiogelwyd ar gyfer cynigion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth ar gyfer math arall o ddatblygiad yn ystod y cyfnod monitro.

O ran cyfleusterau cymunedol, cafodd 11 o geisiadau ganiatâd lle cafodd cyfleuster cymunedol ei golli'n llwyr neu'n rhannol. Mewn 2 achos

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | ygu'r Cynll |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |

cafodd hen ystafelloedd ffrynt eu troi'n ddefnydd preswyl unwaith eto pan ddangoswyd nad oedd defnydd caffi yn hyfyw (14/1059/PA, 15/0308/PA). Dangoswyd nad oedd angen 2 gyfleuster addysgol mwyach a rhoddwyd caniatâd ar gyfer newid defnydd i uned breswyl (15/0584/PA), ac ailddatblygiad ar gyfer tai fforddiadwy (14/1098/PA). Cafodd 2 dafarndy eu haddasu at ddefnydd preswyl, ac ym mhob achos roedd darpariaeth amgen yn gyfagos (13/0772/PA a 15/0853/PA). Roedd 4 cais yn golygu colli eglwysi neu gapeli segur. Yn yr achosion hyn nid oedd y defnydd crefyddol parhaus yn hyfyw mwyach a bu marchnata'n aflwyddiannus. (13/0878/PA, 15/0800/PA, 15/0322/PA, 15/0232/PA). Er i un cais arwain at golli rhywfaint o fan agored, roedd y cynnig ar gyfer ailddatblygiad i wella cyfleusterau ar y safle (15/0715/PA). Nid yw ceisiadau eraill a oedd yn golygu newid defnydd rhwng cyfleusterau cymunedol neu lle y cafwyd darpariaeth amgen eisoes wedi'u cynnwys yma. (Er enghraifft, cafodd cyn-ganolfan iechyd ei haddasu at ddefnydd masnachol (canolfan filfeddygol) unwaith bod darpariaeth iechyd leol amgen wedi'i gwneud (15/0520/PA) a chollwyd defnydd eglwys i glwb paffio cymunedol (15/0212/PA). O ystyried y dangoswyd, ym mhob achos, nad oedd y cyfleuster cymunedol yn hyfyw, neu nad oedd ei angen mwyach, neu fod cyfleusterau cymunedol amgen ar gael yn lleol, nid oes angen ymchwiliad pellach ar gyfer y dangosydd hwn. Er i'r cyfleusterau cymunedol hyn gael eu colli, roedd y cynigion yn dderbyniol o fewn fframwaith polisi'r CDLl.

Caiff lefelau gwasanaethau o fewn aneddiadau eu monitro wrth adolygu'r Cynllun.

O ran Ynni Adnewyddadwy, penderfynodd yr awdurdod ar 22 o geisiadau am dyrbinau gwynt yn ystod blwyddyn 3 yr AMB. O'r rhain, cymeradwywyd 7 yn amodol, gwrthodwyd 10, canslwyd 2, tynnwyd 2 yn ôl a gwrthodwyd 1 ar ôl apêl yn sgil diffyg penderfyniad. Hefyd, gwrthodwyd 4 cynnig ar gyfer tyrbinau gwynt ar ôl apêl, yn sgil penderfyniad i wrthod yn ystod blwyddyn 2 yr AMB. At hynny, penderfynodd yr awdurdod ar 2 gais am barc solar, y cafodd y naill ei gymeradwyo'n amodol ac y cafodd y llall ei dynnu'n ôl. Gwnaed sawl penderfyniad ar gynigion ar raddfa lai i osod paneli ffotofoltäig solar, y cafodd pob un ohonynt ei gymeradwyo ond un. Ar gyfer pob technoleg, bu lleihad mawr yn nifer y ceisiadau, sy'n adlewyrchu gostyngiad yn y tariff cyflenwi trydan. Fodd bynnag, cafwyd llawer o geisiadau ar gyfer diwygiadau ansylweddol i gynlluniau a oedd eisoes wedi'u cymeradwyo. O ran allbynnau ynni posibl, y cynnig a ganiatawyd ar gyfer gorsaf bŵer tanwydd coed i gynhyrchu ynni o fiomas yn Nhrecŵn yw'r cynnig mwyaf sylweddol o bell ffordd yn ystod blwyddyn 3 yr AMB. Os caiff ei hadeiladu, bydd yn cynhyrchu 25 MW o drydan a 5 MW o wres defnyddiadwy.

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | ygu'r Cynll |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **2014** | **2015** | **2016** | |
| **Amcan Strategol: Adeiladu ar leoliad strategol y Sir ar gyfer datblygiadau ynni a datblygiadau sy'n ymwneud â phorthladdoedd (E)** | | | | | | |
| Caniatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer datblygiadau cyflogaeth ar safleoedd a neilltuwyd o fewn ardaloedd porthladdoedd a nodwyd (Blackbridge, Aberdaugleddau, Wdig, hen safle ffatri Dewhirst a Pharrog Wdig). | 100% erbyn diwedd cynllun y Cynllun | 50% heb ganiatâd cynllunio ar adeg adolygu'r Cynllun (2017). Naratif blynyddol i ddisgrifio cynnydd tuag at ei gyflawni | Blackbridge<br>0<br>Hen safle ffatri Dewhirst<br>0<br>Parrog Wdig<br>0 | Blackbridge<br>0<br>Hen safle ffatri Dewhirst<br>0<br>Parrog Wdig<br>0 | Blackbridge<br>0<br>Hen safle ffatri Dewhirst<br>0<br>Parrog Wdig<br>0 | |
| Cynnydd tuag at ddarparu'r cynlluniau trafnidiaeth a ddiogelwyd. | Caiff pob un ei ddarparu erbyn 2021 | Os na fydd cyllid wedi'i sicrhau ar gyfer prosiect erbyn adeg yr Adolygiad o'r Cynllun (2017).<br>Gweler cynlluniau Atodiad 2 a restrir o dan Bolisi GN.39. Dangosir newidiadau ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu mewn italig ac maent wedi'u huwcholeuo. | | | | |

**Crynodeb o'r Amcan Strategol: Adeiladu ar leoliad strategol y Sir ar gyfer datblygiadau ynni a datblygiadau sy'n ymwneud â phorthladdoedd (E):**

Nid oes gan y safle cyflogaeth strategol yn Blackbridge ganiatâd cynllunio cyfredol sy'n ymwneud â chyflogaeth. Y prif berchenogion tir oedd Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Penfro. Fodd bynnag, ers yr AMB diwethaf, mae'r tir wedi cael ei werthu i'r cwmni datblygu Egnedol. Mae cynigion y datblygwr yn golygu integreiddio nifer o weithrediadau lle y caiff isgynhyrchion un broses eu defnyddio ar gyfer rhan o broses arall. Bydd y prosesau a nifer y gweithwyr yn cydymffurfio â'r rheoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr cyfredol sydd mewn grym ar y

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | ygu'r Cynll |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |
| gweithrediadau LNG a Ffermydd Tanc presennol. Bydd datblygiadau seilwaith a datblygiadau strwythurol eraill yn amodol ar geisiadau cynllunio. Mae trafodaethau cyn ymgeisio ar y defnydd o'r safle yn y dyfodol ar gam cynnar. Y tebyg yw y byddai unrhyw gais cynllunio yn y dyfodol yn cael ei ystyried yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Sylweddol, i'w benderfynu gan Weinidogion Cymru yn hytrach na'r Cyngor.<br><br>Nid yw'r naill safle na'r llall yn Wdig wedi denu cais cynllunio sy'n ymwneud â chyflogaeth ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu, ond ceir cais preswyl cymeradwy ar ran o hen safle ffatri Dewhirst.<br><br>Bydd yr Awdurdod yn parhau i fonitro nifer y ceisiadau ar safleoedd cyflogaeth strategol.<br><br>Mae cynnydd cymharol dda wedi'i wneud tuag at ddarparu cynlluniau trafnidiaeth a ddiogelwyd. Mae opsiynau'n cael eu hasesu ar gyfer gwelliannau Llanddewi Felffre i Benblewin Llywodraeth Cymru, a disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau erbyn 2019. Cafodd ffordd gyswllt Bulford Road (Johnston i Tiers Cross), ei chwblhau ym mis Gorffennaf 2015. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella Llwybr Strategol y De, rhwng ffordd yr A477 a safleoedd diwydiannol glannau'r de. Mae sawl elfen o'r cynllun hwn wedi cael ei chwblhau, ond nid yw elfennau eraill wedi dechrau eto. Mae cyllid wedi'i roi ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddarparu gwasanaethau ar gyfer adeilad yr orsaf yng Ngorsaf Reilffordd Wdig, a rhoddwyd caniatâd cynllunio'n ddiweddar i estyn y maes parcio a darparu cyfleusterau toiledau i bobl anabl ar y safle hwn. Roedd elfennau eraill o gyfnewidfa fysiau a rheilffordd Doc Penfro yn cael eu hadeiladu yn ystod blwyddyn 3 yr AMB (maes parcio newydd ar gyfer yr orsaf, a chwblhawyd ffordd fynediad a mannau esgyn a disgyn i fysiau ym mis Mai 2016, gydag elfennau eraill o'r cynnig eto i'w gweithredu). Mae'r cyllid a neilltuwyd ar y dechrau ar gyfer prosiect Canol Tref Cynaliadwy Hwlffordd wedi dod i ben, ond mae rhai elfennau o'r cynigion wedi cael eu datblygu, gan gynnwys ailgyflunio Cyffordd Churnworks a Ffordd Sidney Rees.<br><br>Mae cynlluniau eraill yn dibynnu ar sicrhau cyllid. Mae Atodiad 2 yn rhoi mwy o fanylion am gynnydd unigol. Bydd yr Awdurdod yn parhau i fonitro cynnydd o ran darparu'r cynlluniau a diogelwyd. | | | | | | |
| **Amcan Strategol: Cefnogi datblygiad rôl unigryw trefi Sir Benfro, yn enwedig o fewn ardal y Ddau Gleddau (F) ac Adfywio canol trefi a Chynnal a gwella'r economi wledig a threfol (G)** | | | | | | |
| Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd yn groes i | 0 | Mwy na 4 cais cynllunio wedi'u | SP 4<br>0 | SP 4<br>0 | SP 4<br>0 | |

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | ygu'r Cynll |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |
| bolisïau SP 4, SP 14, GN.12, GN.14 | | cymeradwyo'n groes i un polisi dros 4 blynedd. | SP 14<br>0 | SP 14<br>0 | SP 14<br>0 | |
| | | | GN.12<br>0 | GN.12<br>0 | GN.12<br>0 | |
| | | | GN.14<br>0 | GN.14<br>0 | GN.14<br>0 | |
| (Craidd) Faint o'r holl ddatblygiadau manwerthu, swyddfeydd a hamdden (metr sgwâr) a ganiateir yng nghanol Trefi wedi'i fynegi fel canran o'r holl ddatblygiadau mawr a ganiateir. (TAN 4)* | 100% (nid yw'r ffigur yn cynnwys cynlluniau sy'n safle a neilltuwyd y tu allan i ganol trefi) | 90% o'r targed | 0% = 7052.6[13]metr sgwâr a ganiateir y tu allan i ganol trefi (gweler ceisiadau 12/0829/PA, 12/0989/PA a 12/1112/PA). | Roedd 29% = 1472 metr sgwâr wedi'i leoli o fewn Canol Trefi a nodwyd o gyfanswm o 5124 metr sgwâr a ganiatawyd. (Gweler 13/0971/PA, 14/0247/PA a 14/0724/PA) | Caniatawyd 0% = 1254 metr sgwâr (net) y tu allan i ganol trefi. (Gweler cais 15/0570/PA).<br>Dim cynigion manwerthu mawr o fewn canol trefi | |

[13]Mae'r ffigur yn cyfeirio at yr holl arwynebedd dosbarth A net (A1, A2 ac A3) ond nid yw'n cynnwys arwynebedd nad yw'n arwynebedd dosbarth A. Mae'r ffigur ond yn cynnwys ceisiadau mawr.

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | ygu’r Cynll |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |
| Lefel yr arwynebedd ar gyfer datblygiadau manwerthu a ganiateir y tu allan i ganol trefi ac eithrio cynlluniau sy’n dod o dan Bolisi GN. 15 Manwerthu ar Raddfa Fach neu GN.10 (siop fferm). | 0% | Naratif ar unrhyw gynlluniau nas caniateir o dan Bolisi GN.15 neu GN.10. | 96% = 6,174.9 metr sgwâr[14] (Ceisiadau 12/0829/PA a 12/0989/PA). Ceir naratif cryno isod. | 71% = 3,688 metr sgwâr. (Ceisiadau 13/0971/PA, 14/0247/PA a 14/0276/PA). Ceir naratif isod. | 100% = 1,254 metr sgwâr (Gweler cais 15/0570/PA). Gweler y naratif isod. | |
| Cynnydd tuag at sicrhau’r dyraniadau manwerthu. | 100% erbyn diwedd cynllun y Cynllun. | Unrhyw ddyraniadau nad ydynt wedi cael caniatâd cynllunio erbyn yr Adolygiad o’r Cynllun (2017). | | | | |
| Newid ym mhresenoldeb defnyddiau A1 (nifer yr unedau a’u harwynebedd) mewn ffryntiadau manwerthu cynradd. | Mae o leiaf 66% o’r ffryntiad llinol yn ddosbarth defnydd A1 o fewn ffryntiadau cynradd | Llai na’r targed | Llai na’r targed yng Nghanol y Trefi canlynol: Abergwaun, Arberth, Penfro, Doc Penfro | Llai na’r targed yng Nghanol y Trefi canlynol: Abergwaun, Hwlffordd, Arberth, Penfro | Llai na’r targed yng Nghanol y Trefi canlynol: Arberth, Penfro, Abergwaun | |

[14] Arwynebedd yw arwynebedd A1 net a ganiateir y tu allan i ganol trefi fel canran o gyfanswm arwynebedd A1.

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | Cynll ygu'r |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |
| Canran yr unedau gwag llawr daear yng Nghanol pob Tref (o fewn ffin y CDLl a nodwyd).[15] | Nid yw lefelau unedau gwag yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (y DU) | Mae lefelau unedau gwag 5% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (y DU). | Y DU 13.9% (Ffynhonnell: Cwmni Data Lleol, Rhagfyr 2013) | Y DU 13.2% (Ffynhonnell: Cwmni Data Lleol Rhagfyr 2014) | Y DU 12.5% (Ffynhonnell: Cwmni Data Lleol, Rhagfyr 2016)[16] | |
| | | | Hwlffordd 9% | Hwlffordd 17% | Hwlffordd 18% | |
| | | | Doc Penfro 10% | Doc Penfro 15% | Doc Penfro 19% | |
| | | | Aberdaugleddau 14% | Aberdaugleddau 21% | Aberdaugleddau 18% | |
| | | | Penfro 9% | Penfro 6% | Penfro 7% | |
| | | | Abergwaun 10% | Abergwaun 9% | Abergwaun 16% | |
| | | | Arberth 4% | Arberth 2% | Arberth 2% | |

[15] Daw pob ffigur ar gyfer unedau gwag manwerthu o Arolwg Manwerthu CSP a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2013, mis Rhagfyr 2014 a mis Ionawr 2016.
[16] Mae'r CDLl yn nodi bod y gyfradd unedau gwag genedlaethol is wedi'i hysgogi gan leihad yn nifer yr unedau sy'n dod yn wag a'r ffaith bod nifer yr unedau sy'n cael eu tynnu'n ôl o'r stoc gyffredinol yn uwch na'r cyfartaledd.

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | ygu'r Cynll |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |

**Crynodeb o'r Amcan Strategol: Cefnogi datblygiad rôl unigryw trefi sir Benfro, yn enwedig o fewn Ardal y Ddau Gleddau (F) ac Adfywio canol trefi a Chynnal a gwella'r economi wledig a threfol (G):**

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi un dangosydd craidd ar gyfer CDLlau fel faint o ddatblygiadau manwerthu, swyddfeydd a hamdden mawr a ganiateir yng nghanol trefi wedi'i fynegi fel canran o'r holl ddatblygiadau mawr a ganiateir. Mae CSP wedi dehongli hwn i gwmpasu dosbarthiadau defnydd A1, A2 ac A3. Yn ystod cyfnod yr AMB roedd 0% o holl arwynebedd datblygiadau A1, A2 ac A3 mawr a ganiatawyd wedi'i leoli yng Nghanol Trefi neu ar safle manwerthu a neilltuwyd. Caniatawyd un cais manwerthu mawr yn ystod cyfnod AMB 3.

Gan mai un cais am ddatblygiad mawr a ganiatawyd y tu allan i ganol trefi, mae'r trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach mewn perthynas â'r targed hwn wedi'i gyrraedd. Yn achos y cais am ddatblygiad mawr a ganiatawyd, y manylion oedd:

Nod cais 15/0570/PA oedd cynyddu'r arwynebedd a ganiatawyd i 1,254 metr sgwâr (net), a roddwyd yn flaenorol ar gyfer 857 metr sgwâr (net) (09/0297/PA a 1202 metr sgwâr 14/0247/PA – cais Adran 73) ar gyfer Siop Aldi yng Ngarej Waterloo. Mae hyn yn gynnydd o 397 metr sgwâr (net). Parhaodd cais 2015 i fodloni meini prawf GN.14 a phrawf y Polisi Cynllunio Cenedlaethol drwy ddangos angen meintiol am y cynnig, bod y cynnig yn bodloni'r prawf cymalog ar gyfer datblygiadau manwerthu ac mai cyfyngedig fyddai'r effeithiau ar ganol tref Doc Penfro a Phenfro.

I gloi, roedd yr unig gais am ddatblygiad mawr a gymeradwywyd y tu allan i Ganol Trefi yn ystod cyfnod yr AMB yn bodloni gofynion polisi cynllunio cenedlaethol a pholisïau'r CDLl. Nid yw'r cais hwn yn nodi unrhyw broblem benodol gyda pholisïau'r CDLl ac felly nid oes angen ymchwiliad pellach ar hyn o bryd.

O ran y dangosydd pellach ynglŷn â lefel arwynebedd datblygiadau manwerthu a ganiateir y tu allan i ganol trefi ac eithrio cynlluniau sy'n dod o dan Bolisi GN.15 Manwerthu ar Raddfa Fach neu G.10 Siôp Fferm, mae CSP wedi ystyried pob un o'r ceisiadau hynny am ddatblygiad mawr a arweiniodd at ennill net o ran arwynebedd dosbarth defnydd A1, y caniatawyd 100% ohonynt y tu allan i ganol trefi. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys caniatâd ar gyfer cais 15/0570/PA am Siop Fwyd Aldi yn Noc Penfro. Mae'r cais hwn yn cyfrif am 100% o gyfanswm yr arwynebedd dosbarth defnydd A1 a ganiatawyd y tu allan i ganol trefi (ac eithrio'r cynlluniau hynny a gymeradwywyd o dan GN.15 Manwerthu ar Raddfa Fach neu GN.10 Siopau Fferm). Nodir y rheswm dros y caniatâd am ddatblygiad mawr a roddwyd ar safle Aldi uchod ac er i'r trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach gael ei gyrraedd, o ystyried amgylchiadau penodol y caniatadau hyn, nid ystyrir bod angen ymchwiliad pellach ar hyn o bryd.

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | ygu’r Cynll |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |
| Mae lefelau unedau gwag uwchlaw lefelau cenedlaethol yn Hwlffordd, Doc Penfro ac Aberdaugleddau ac am y tro cyntaf Abergwaun. Mae gan Aberdaugleddau, Hwlffordd a Doc Penfro gyfradd unedau gwag sydd dros 5% yn uwch na’r cyfartaledd cenedlaethol, sy’n cyrraedd y trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach.<br><br>O ran ffryntiadau manwerthu cynradd – mae gan Abergwaun, Arberth a Phenfro grynodiad o unedau A1 sy’n islaw canran y targed ond mae Hwlffordd bellach wedi cyrraedd lefelau derbyniol o unedau A1. Mae gan Arberth a Phenfro rôl twristiaeth sy’n cefnogi darparu defnyddiau A3. Bwriedir parhau i fonitro hyn.<br><br>Mae llawer o Ganol Trefi ledled y DU yn wynebu problemau ar hyn, sy’n adlewyrchu newidiadau cymdeithasol ac economaidd ehangach. Mae’r Cyngor a nifer o sefydliadau eraill yn datblygu amrywiaeth o gamau gweithredu i gynorthwyo yn hyn o beth. Cynhaliodd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economaidd y Cyngor adolygiad manwl o ganol trefi yn 2012/13 ac roedd ei argymhellion yn cefnogi creu chwe Thîm Tref ledled y Sir. Mae’r Timau Tref hyn wedi datblygu cynlluniau gweithredu i nodi ymyriadau a all gael eu rhoi ar waith gyda phartneriaid. Mae’r Cyngor wedi rhoi arian cyfatebol ar gyfer cynlluniau adfywio i gefnogi’r cynigion hyn, er enghraifft cefnogi marchnad yn Aberdaugleddau, Gŵyl Bysgod Aberdaugleddau a safle neidio bynji o Bont Cleddau yn Noc Penfro. Ym mis Ebrill 2015 cytunodd y Cabinet i adeiladu ar y gwaith cychwynnol a wnaed gan y Timau Tref a datblygu cyfres o uwchgynlluniau. Yr uwchgynllun cyntaf i’w weithredu oedd uwchgynllun Hwlffordd, y dechreuodd gwaith arno yn hydref 2015. Bydd yr uwchgynllun hwn yn ystyried y dyfarniad diweddar o £400k gan Gyngor y Celfyddydau ar gyfer prosiect adfywio ‘Confluence’ yn Hwlffordd yn ogystal â dechrau Menter Treftadaeth Treflun Cronfa Dreftadaeth y Loteri gwerth £4m. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar brosiect i adleoli a datblygu llyfrgell i’r 21ain Ganrif, oriel a chanolfan ymwelwyr yn yr adeilad marchnad presennol yng nghanol Hwlffordd hefyd fel rhan o ddigwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid Uwchgynllun Hwlffordd, a ddechreuodd yng ngwanwyn 2016, er nad oes unrhyw gais cynllunio wedi dod i law eto. Bydd AMB 4 yn nodi casgliadau uwchgynllun Hwlffordd, a gaiff ei gwblhau erbyn hydref 2016 yn ôl y bwriad. Caiff astudiaethau uwchgynlluniau canol trefi eraill eu datblygu maes o law.<br><br>Yn Aberdaugleddau, cynigiodd Awdurdod y Porthladd gynllun defnydd cymysg ar gyfer marina sy’n cynnwys defnyddiau manwerthu masnachol a physgota yn ogystal â 160 o anheddau preswyl, a hyd at 70 o angorfeydd ychwanegol yn y marina. Argymhellodd y dylai’r Pwyllgor Cynllunio ei gymeradwyo ym mis Chwefror 2015, ond nid yw’r cytundeb A.106 wedi’i lofnodi eto.<br><br>Mae Aberdaugleddau a Doc Penfro yn cael budd o gynllun paentio treftadaeth y Cyngor sy’n helpu perchenogion eiddo i ailaddurno eu | | | | | | |

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | ygu'r Cynll |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |
| hadeiladau. Mae Doc Penfro hefyd wedi cael arian Menter Treftadaeth Treflun a chynllun grant eiddo masnachol a gefnogir gan arian yr UE.<br><br>Yn ogystal â mentrau adfywio, yn 2014/2015 cyflwynodd Llywodraeth Cymru Gynllun Rhyddhad Manwerthu (a weinyddir gan y Cyngor) a gynigiodd gyfraniad ariannol o hyd at £1k tuag at ardrethi busnes ar gyfer eiddo manwerthu a feddiennir sydd â gwerth ardrethadwy o £50k neu lai yn y flwyddyn ariannol 2014/2015. Mae'r un cynllun wedi cael ei estyn i 2015-16 (hyd at 31 Mawrth 2016) gyda chynnydd yn y budd mwyaf i £1500 a'r nod yw cynorthwyo manwerthwyr, busnesau bwyd a diod llai o faint.<br><br>Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro dangosyddion manwerthu yn fanwl a bydd yn gweithio gyda chydweithwyr Adfywio i gymryd unrhyw gamau gweithredu sy'n deillio o'r uwchgynlluniau. | | | | | | |
| **Amcan Strategol: Datblygu economi ymwelwyr o safon yn seiliedig ar ymdeimlad unigryw o le ac amgylchedd naturiol ac adeiledig eithriadol (H)** | | | | | | |
| Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd yn groes i bolisïau SP5, GN.16 a GN.17, GN.18 a GN.19 (gan gynnwys mewn apeliadau). | Ni chymeradwywyd unrhyw geisiadau yn groes i bolisïau | Mwy na 4 cymeradwyaeth mewn 4 blynedd | SP 5<br>0 | SP 5<br>0 | SP 5<br>0 | |
| | | | GN.16<br>0 | GN.16<br>0 | GN.16<br>0 | |
| | | | GN.17<br>0 | GN.17<br>0 | GN.17<br>0 | |
| | | | GN.18<br>0 | GN.18<br>0 | GN.18<br>0 | |
| | | | GN.19<br>0 | GN.19<br>0 | GN.19<br>0 | |
| **Crynodeb o'r Amcan Strategol: Datblygu economi ymwelwyr o safon yn seiliedig ar ymdeimlad unigryw o le ac amgylchedd naturiol ac** | | | | | | |

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | Cydymffurfiaeth ygu'r Cynll |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |
| **adeiledig eithriadol (H)**<br>Ni chymeradwywyd unrhyw geisiadau yn ystod y cyfnod monitro a oedd yn groes i'r Polisïau ynglŷn â Thwristiaeth.<br>Edrychodd rhanddeiliaid ar ddrafftiau AMB blaenorol a nodwyd y byddai'n ddefnyddiol cynnwys crynodeb o gynilion sy'n cael caniatâd o dan bolisïau Twristiaeth yn ogystal â chyflwyno adroddiad ar y dangosyddion hynny a nodwyd yn yr AMB. Nodir y crynodeb hwn isod.<br>Cymeradwywyd cyfanswm o 30 o geisiadau ar gyfer cynigion sy'n ymwneud â defnyddiau twristiaeth yn ystod y cyfnod monitro (cynnydd sylweddol o gymharu â'r 16 o geisiadau a gymeradwywyd yn ystod cyfnod 2 yr AMB). Roedd y cymeradwyaethau hyn yn cynnwys y caniatadau canlynol ar gyfer llety twristiaeth:<br>Cyfanswm o 3 newid defnydd i greu llety gwely a brecwast, 8 cais ynglŷn â newid defnydd i unedau gwyliau (rhai ar gyfer unedau lluosog), 1 estyniad i westy, un cais i adnewyddu caniatâd ar gyfer gwesty busnes masnachol a newid defnydd lawer cyntaf tafarndy yn llety i westeion. Rhoddwyd caniatâd ar gyfer dau hundy hefyd. O ran datblygiadau carafanau – caniatawyd 2 gais i ddisodli ac uwchraddio meysydd carafanau a chaniataodd 2 gais arall feddiannaeth gydol blwyddyn. Rhoddwyd caniatâd ar gyfer 45 o unedau gwyliau hunanarlwyo hefyd ar dir y tu cefn i Night Owl, Penalun (15/0222/PA).<br>Rhoddwyd caniatâd cynllunio hefyd ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau a oedd yn ymwneud â chyfleusterau twristiaeth sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys estyniadau i gyfleusterau, unedau aerdymheru newydd a chaniatâd ar gyfer siop cofroddion a mynedfa newydd i gwsmeriaid yn Fferm Folly. Rhoddwyd caniatâd i newid y defnydd o adeilad awyrendy sy'n bodoli eisoes i barc trampolinio dan do yn Hwlffordd (Awyrendy 5) – (14/1103/PA). Mae'r amrywiaeth o ganiatadau twristiaeth a roddwyd ochr yn ochr â'r dystiolaeth o gydymffurfiaeth â pholisïau yn awgrymu bod polisïau'r Cynllun yn caniatáu i amrywiaeth o ddatblygiadau twristiaeth priodol fynd rhagddynt o dan strategaeth y CDLl. | | | | | | |
| **Amcan Strategol: Cynnal a gwella'r economi wledig a threfol (C)** | | | | | | |

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | ygu'r Cynll |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |
| (Craidd) Tir cyflogaeth newydd wedi'i ddatblygu (hectar/milltir sgwâr).<br>Tir cyflogaeth newydd wedi'i ddatblygu ar gyfer swyddfeydd (hectar/milltir sgwâr)<br>Tir cyflogaeth newydd wedi'i ddatblygu ar gyfer diwydiant a warysau (hectar/milltir sgwâr). | 100 hectar wedi'i ddatblygu erbyn 2021 | Llai na 45 hectar wedi'i ddatblygu erbyn 2017. | 1,154.11 hectar wedi'i ddatblygu erbyn 2013[17]<br>Mae'r ffigurau wedi'u his-rannu fel a ganlyn:<br>13.20 hectar wedi'i ddatblygu ar gyfer swyddfeydd<br>1,140.91 hectar wedi'i ddatblygu ar gyfer diwydiant / warysau | 218287 metr sgwâr (21.8 hectar) ychwanegol wedi'i ddatblygu o ganiatadau a roddwyd ar ôl i'r CDLl gael ei fabwysiadu (2013-2015)[18]. | Cyflwynwyd methodoleg newydd ar gyfer gwaith yr arolwg o safleoedd cyflogaeth yn 2015. Caiff dyraniadau cyflogaeth a defnydd cymysg ynghyd â'r safleoedd cyflogaeth allweddol sy'n bodoli eisoes a'r hap-safleoedd dros 0.5 hectar a ganiatawyd ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu | |

[17]Yn seiliedig ar y data gorau sydd ar gael a chan adlewyrchu newidiadau i ddyraniadau rhwng y Cynllun Datblygu Unedol ar y Cyd a'r Cynllun Datblygu Lleol a hefyd y dirywiad economaidd dros y cyfnod hwn.

[18] Yn seiliedig ar Arolwg Tir Cyflogaeth CSP 2015.

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | ygu'r Cynll |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |
| | | | | | eu monitro.<br>Cyfanswm arwynebedd safleoedd llinell sylfaen 2013:1137 hectar (11,373,700 metr sgwâr).<br>Cyfanswm arwynebedd safleoedd 2015: 1146 hectar (11,451,982 ms).<br>Arwynebedd safleoedd a ddefnyddir 2013: 945 hectar (9,448,700 ms).<br>Arwynebedd safleoedd a ddefnyddir | |

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | Cynllun yn cyflawni / Adolygu'r Cynll |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |
| | | | | | 2015: 829 hectar (8,294,777 ms). | |
| | | | | | Tir gwag 2013: 193 hectar (1,925,000 ms).<br>Tir gwag 2015: 316 hectar (3,167,205 ms).<br>Defnydd swyddfeydd: 0.08 hectar (758 metr sgwâr) defnydd A2 ynghyd â chyfran fach o'r 11.96 hectar (119,593 metr sgwâr) ar gyfer defnydd B1.<br>Defnydd diwydiant a warysau: cyfran | |

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | Cynll ygu'r |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |
| | | | | | fawr o'r 11.96 hectar (119,593 metr sgwâr) ar gyfer defnydd B1, ynghyd â 366.27 hectar (3,662,725 metr sgwâr) | |
| | | | | | Defnydd B2 a 159.53 hectar (1,599,310 metr sgwâr) defnydd B8. | |
| Arwynebedd tir a ganiateir ar safleoedd nas neilltuwyd (hectar / metr sgwâr). | 10% o gyfanswm y tir cyflogaeth a ganiatawyd. | 50% yn is na'r targed. | Cyfansymiau a ganiatawyd ar safleoedd nas neilltuwyd:<br>3,022.84 metr sgwâr B1<br>7,646.00 metr sgwâr B2<br>3,455.50 metr sgwâr B8 | Cyfansymiau a ganiatawyd ar safleoedd nas neilltuwyd:<br>1,528,175.45 metr sgwâr<br>(14,899.25 metr sgwâr – B1<br>7,858 metr | Cyfanswm arwynebedd a ganiatawyd ar gyfer defnyddiau cyflogaeth ar gyfer hap-safleoedd nas neilltuwyd o dan 0.5 hectar ar ôl 2013: 3.86 hectar (38,600 | |

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | Cynll ygu'r |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |
| | | | -76.34 metr sgwâr arall<br>Cyfansymiau a ganiatawyd ar safleoedd nas neilltuwyd:<br>173,550.00 metr sgwâr B1<br>(dim B2, B8 nac arall)<br>Safleoedd nas neilltuwyd = 0.075% o'r cyfanswm (14,048 metr sgwâr / 187,598 metr sgwâr). | sgwâr – B2<br>727,239 metr sgwâr – B8<br>21,541 metr sgwâr – arall)<br>Cyfansymiau a ganiatawyd ar safleoedd nas neilltuwyd:<br>213,915.7 metr sgwâr<br>(7440 metr sgwâr B1<br>200779.7 metr sgwâr – B2<br>3430 metr sgwâr – B8<br>21,541 metr sgwâr Arall)<br>Safleoedd nas neilltuwyd = 87.7% | metr sgwâr). | |

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | ygu’r Cynll |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |
| Cynnydd tuag at ddarparu’r safleoedd cyflogaeth strategol:<br>a) Blackbridge<br>b) Parc Gwyddoniaeth a Thechnoleg Sir Benfro<br>c) Parc Busnes Llwynhelyg<br>d) Trecŵn | 75% wedi’u darparu erbyn 2021. | Datblygiadau na ddechreuwyd arnynt erbyn y dyddiadau canlynol:<br>a) Blackbridge (2018)<br>b) Parc Gwyddoniaeth a Thechnoleg Sir Benfro (Mawrth 2017)<br>c) Parc Busnes Llwynhelyg (Mawrth 2017)<br>d) Trecŵn (Mawrth 2017) | Blackbridge<br>0 | Blackbridge<br>0 | Blackbridge<br>0 | |
| | | | Parc Gwyddoniaeth a Thechnoleg Sir Benfro<br>0 | Parc Gwyddoniaeth a Thechnoleg Sir Benfro<br>Caniatâd ar gyfer 2,065 metr sgwâr o adeiladau diwydiannol (defnydd B1) a roddwyd (14/0219/PA). | Parc Gwyddoniaeth a Thechnoleg Sir Benfro<br>Caniatâd ar gyfer 2,065 metr sgwâr o adeilad diwydiannol (defnydd B1) a roddwyd (14/0219/PA, 15/0475/PA) – cwblhawyd yr adeilad yn ystod blwyddyn 3 yr AMB ac mae’n aros i gael ei feddiannau. | |
| | | | Parc Busnes Llwynhelyg<br>0 | Parc Busnes Llwynhelyg<br>Caniatâd ar gyfer 75 metr sgwâr o ddefnydd A1 | Parc Busnes Llwynhelyg<br>Caniatâd ar gyfer 75 metr sgwâr o ddefnydd A1 | |

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | ygu'r Cynll |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |
| | | | | ynghyd â 400 metr sgwâr o adeiladau o fan storio defnydd B8 a roddwyd (14/0509/PA).[19] | ynghyd â 400 metr sgwâr o ddefnydd storio B8 – 14/0509/PA (a roddwyd yn ystod blwyddyn 2 yr AMB). Caniatâd hefyd ar gyfer uned storio B8 – 15/1237/PA, rhoddwyd yr olaf ar 21/04/16 (yn ystod blwyddyn 4 yr AMB o drwch blewyn). Mae cynnig nad yw'n gynnig cyflogaeth wedi cael caniatâd | |

[19] Rhoddwyd caniatadau cynllunio ar gyfer defnyddiau nad ydynt yn rhai cyflogaeth (ceisiadau 13/0034/PA – maes ymarfer golff, 13/0682/PA, 15/0263/NM, 15/0307/PA, 15/0463/DC, 15/1320/PA – addoldy a 14/0373/PA – ffens ddiogelwch a phorta-cabin ar gyfer caffi). Roedd dau gais heb eu penderfynu eto ar ddiwedd blwyddyn 3 yr AMB – 15/1084/PA ar gyfer canolfan cadw'n heini dan do a 16/0060/PA ar gyfer canolfan weithgarwch.

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | ygu'r Cynll |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |
| | | | | | hefyd[15]. | |
| | | | Trecŵn<br>0 | Trecŵn<br>0 | Trecŵn<br>0<br>Rhoddwyd caniatâd ar gyfer gorsaf bŵer tanwydd coed i gynhyrchu ynni o fiomas, 14/04/15 – yn Nhrecŵn ond y tu allan i ardal y safle a neilltuwyd. | |
| Cynnydd tuag at ddarparu safleoedd defnydd cymysg:<br>a) Hwlffordd – Old Hakin Road<br>b) Iard Johnston Arnold<br>c) Dale Road, Hubberston | 66% wedi'u darparu erbyn 2021 | Nid yw safleoedd wedi cael caniatâd cynllunio erbyn yr Adolygiad o'r Cynllun (2017). | Hwlffordd – Old Hakin Road<br>0<br>Ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu, mae cais (i amrywio amodau caniatâd 2012) | Hwlffordd – Old Hakin Road<br>0<br>Rhoddwyd caniatâd i estyn yr amser i ddechrau datblygiad defnydd | Hwlffordd – Old Hakin Road<br>0<br>Nid oes unrhyw geisiadau cynllunio eraill wedi dod i law ar y safle hwn. | |

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | ygu'r Cynll |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |
| | | | wedi dod i law[20]. | cymysg (14/0151/PA). | | |
| | | | Iard Johnston Arnold 0 | Iard Johnston Arnold 0 | Iard Johnston Arnold 0 | |
| | | | Dale Road Hubberston 0 | Dale Road Hubberston 0 | Dale Road Hubberston 0 | |
| (Craidd) Faint o agregau cynradd a dynnir o'r tir a ganiateir yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau wedi'i fynegi fel canran o gyfanswm y capasiti sydd ei angen fel y'i nodwyd yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol). | Cynnal banciau tir o graig galed a thywod a gro tra pery'r Cynllun (hyd at 2021) ac am 10 mlynedd (craig galed) a 7 mlynedd (tywod a gro) y tu hwnt i gyfnod y Cynllun | Bydd angen ymchwiliad pellach os bydd y banc tir yn gollwng i 12 mlynedd (craig galed) neu 9 mlynedd (tywod a gro), er mwyn sicrhau bod darpariaeth ddigonol ar ddiwedd cyfnod y Cynllun. Monitro tunelli a | Gweler Nodyn Mwynau 1 o AMB 1 (2013/14). | Trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach wedi'i gyrraedd ar gyfer tywod a gro Gweler y testun cryno ar gyfer yr Amcan hwn yn AMB 2 y CDLl. | Trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach wedi'i gyrraedd ar gyfer tywod a gro Gweler y testun cryno ar gyfer yr Amcan hwn isod. | |

[20] 14/0151/PA, a gymeradwywyd ar 1 Awst 2014 (yn ystod blwyddyn 2 yr AMB).

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | ygu'r Cynll |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |
| | | ganiateir. | | | | |
| Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd yn groes i Bolisi GN.22. (***Noder bod hwn yn ddangosydd diwygiedig fel y'i cynigiwyd gan AMB 1, paragraff 3.17).*** | 0 | Mwy na 4 cymeradwyaeth mewn 4 blynedd | Gweler Nodyn Mwynau 2 o AMB 1 (2013/14).<br>Roedd 189 o geisiadau a gymeradwywyd rhwng 28/02/13 a 31/03/14 y tu allan i Ffin Anheddiad ac o fewn yr ardal diogelu mwynau. O'r rhain:<br>Ar gyfer 71, dylai polisi GN.22 fod wedi bod yn | 0 | 0 | |

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | Cynll ygu'r |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |
| | | | ystyriaeth fwy na thebyg[21]. Ar gyfer 100, roedd polisi GN.22 yn annhebygol o fod yn ystyriaeth sylweddol. Roedd 14 yn hysbysiadau amaethyddol. Roedd 4 yn hysbysiadau ymlaen llaw. | | | |
| Cynnydd tuag at gyflawni'r ymrwymiad i ddod o hyd i leoliadau amgen ar gyfer cynhyrchu mwynau mewn lleoliadau nad ydynt yn y Parc Cenedlaethol yn sir Benfro a / neu'n rhywle arall yn ne-orllewin Cymru. | Trafodaethau rhanbarthol i ailddechrau erbyn 2014 a chynnydd sylweddol tuag at | Heb gyrraedd y trothwy, ond naratif i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa | Gweler Nodyn Mwynau 3 o AMB 1 (2013/14). | Gweler y testun cryno ar gyfer yr Amcan hwn yn AMB 2 (2014/15) | Gweler y testun cryno ar gyfer yr Amcan hwn isod. | |

[21] O'r 71 o geisiadau lle y dylai GN.22 fod wedi bod yn ystyriaeth, fwy na thebyg, dim ond mewn 2 benderfyniad yr ystyriwyd y mater. Ym mhob achos, daethpwyd i'r casgliad nad oedd angen cloddio blaenorol. Nid yw hyn yn awgrymu, yn y 69 o achosion eraill, y byddai wedi bod yn ofynnol o reidrwydd, ond dylai fod wedi cael ei ystyried. Ymdriniwyd â hyn ar gyfer y dyfodol drwy gyhoeddi Nodyn Canllawiau Arfer Da ar gymhwyso polisi GN.22 (Mawrth 2014).

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | Cysylltu'r Cynllun |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |
| | nodi cronfeydd wrth gefn newydd o fwynau yn y Sir a/neu yn rhanbarth de-orllewin Cymru wedi'i ddangos erbyn 2018 | | | | | |

**Crynodeb o'r Amcan Strategol: Cynnal a gwella'r economi wledig a threfol (C):**

Mae Arolwg Cyflogaeth 2015 yn cyflwyno gwybodaeth am dir ac adeiladau cyflogaeth ar ddyraniadau cyflogaeth a defnydd cymysg y CDLl, ar y prif safleoedd diwydiannol sy'n bodoli eisoes ac ar hap-safleoedd a ganiatawyd ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu. Cyflwynir elfennau allweddol o ganlyniadau 2015 uchod. Gellir priodoli'r lefel is o dir a ddefnyddir a'r cynnydd yn lefel y tir segur yn 2015 (o gymharu â llinell sylfaen 2013) yn bennaf i'r penderfyniad i roi'r gorau i ddefnyddio safle Purfa Aberdaugleddau dros dro. Mae llawer o'r safle hwn yn cael ei ddefnyddio unwaith eto bellach, ond fel cyfleuster storio. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Adroddiad Arolwg Cyflogaeth 2015, a gyhoeddir ar wefan y Cyngor.

Bu rhywfaint o gynnydd tuag at ddarparu'r safleoedd cyflogaeth strategol. Y targed ar gyfer 2021 yw darparu 75% ac mae trothwyon ar gyfer ymchwiliad pellach os na fydd datblygiad yn Blackbridge erbyn 2018 a'r tri safle arall erbyn mis Mawrth 2017. Bydd yr Awdurdod yn parhau i fonitro nifer y ceisiadau.

Yn Blackbridge, ni chafwyd unrhyw geisiadau cynllunio yn ystod y cyfnod ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu. Gwerthodd Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Penfro eu daliadau tir yn yr ardal hon i'r cwmni datblygu Egnedol yn ddiweddar. Mae'r safle hwn o fewn Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Mae ffin yr Ardal Fenter yn ymestyn y tu hwnt i ddyraniad cyflogaeth strategol y CDLl.

Ym Mharc Gwyddoniaeth a Thechnoleg Sir Benfro, dechreuodd y datblygiad sawl blwyddyn yn ôl drwy adeiladu Canolfan Arloesi'r Bont. Mae'r adeilad diwydiannol B1 ffrâm dur a ganiatawyd yn ddiweddar ac a nodwyd yn AMB 2 wedi cael ei gwblhau. Mae'r safle hwn hefyd o fewn Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau.

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | ygu’r Cynll |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |
| Mae rhai rhannau o safle Parc Busnes Llwynhelyg eisoes wedi’u datblygu. Mae seilwaith ffordd hefyd ar waith a fydd yn gwasanaethu rhannau o’r safle nad ydynt wedi’u datblygu’n llawn. Mae’r safle hwn o fewn Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer adeilad newydd gydag elfennau gwerthu a storio yn ystod cyfnod AMB 2 a rhoddwyd caniatâd ar gyfer cyfleuster storio B8 ar ran fach o’r safle ar ddechrau cyfnod AMB 4.<br><br>Yn Nhrecŵn, erys adeiladau a seilwaith sy’n ymwneud â defnyddiau milwrol blaenorol. Ni roddwyd unrhyw ganiatadau cynllunio newydd yn ystod cyfnod yr AMB diwethaf ond rhoddwyd caniatadau y tu allan i’r ardal a neilltuwyd ar gyfer gorsaf oriau brig tanwydd diesel (2012) ac ar gyfer gorsaf bŵer tanwydd coed (ar ddechrau cyfnod AMB 3).<br><br>Ar y tri dyraniad defnydd cymysg, y targed yw darparu 66% erbyn 2021, gyda throthwy o 2017 ar gyfer ymchwiliad pellach i’r safleoedd nad oes ganddynt ganiatâd cynllunio erbyn y dyddiad hwnnw.<br><br>Yn Old Hakin Road, Merlins Bridge, rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad defnydd cymysg yn gyntaf yn 2004. Ers hynny bu sawl cais i adnewyddu, cymeradwyo materion a gedwir yn ôl ac addasu, y cymeradwywyd yr un mwyaf diweddar ar 01/08/14.<br><br>Yn Iard Arnold, Johnston, nid oes unrhyw geisiadau cynllunio diweddar ac mae defnyddiau hanesyddol wedi dod i ben.<br><br>Nid yw’r safle cymysg yn Dale Road, Hubberston, Aberdaugleddau, wedi cael ei ddatblygu eto ac nid oes unrhyw geisiadau cynllunio wedi cael eu cyflwyno ers i’r CDLl gael ei fabwysiadu.<br><br>O ran mwynau, mae’r banc tir yn ne-orllewin Cymru ar gyfer safleoedd cynhyrchu craig galed y tu allan i’r Parc Cenedlaethol yn sylweddol. Felly pan ddaw cynhyrchu yn y Parc Cenedlaethol i ben yn y pen draw nid yw’n debygol o achos problemau. Fodd bynnag, mae’r banc tir ar gyfer tywod a gro yn llai sylweddol a bydd angen nodi safleoedd cynhyrchu daearol newydd.<br><br>Mae’r Datganiad Technegol Rhanbarthol am Agregau i Ogledd Cymru a De Cymru, yr Adolygiad cyntaf, yn annog cydweithrediad rhwng y pedwar Awdurdod. Yn benodol, bydd hyn yn canolbwyntio ar ddod o hyd i safleoedd cynhyrchu mwynau amgen yn lle’r rhai ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro. Ni chaiff y cronfeydd wrth gefn o fwynau yn y Parc Cenedlaethol eu disbyddu am sawl blwyddyn. Fodd bynnag, mae cyflwyno safleoedd newydd yn cymryd amser hir. Felly bydd angen ymgymryd â’r dasg ar dipyn o fyrder. | | | | | | |

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | Cysylltiad â'r Cynll |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |
| Mae Grŵp Cynllunio Mwynau De-orllewin Cymru yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o Awdurdodau Cynllunio Lleol Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Pharc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro. Mae'r grŵp yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i drafod materion cynllunio mwynau sy'n codi ledled de-orllewin Cymru.<br><br>Mae canllawiau arfer da wedi cael eu paratoi er mwyn rhoi cyngor ymarferol ar ystyriaethau wrth werthuso rhinweddau ceisiadau cynllunio yn yr ardal a ddiogelwyd. Noda gwaith monitro ar gyfer AMBau 2 a 3 na chafodd unrhyw geisiadau eu cymeradwyo'n groes i ddarpariaethau GN.22. | | | | | | |
| **Amcan Strategol: Datblygu cymunedau bywiog sy'n darparu amrywiaeth a chymysgedd o gartrefi a gwasanaethau lleol (D) (Gweler hefyd ddangosyddion ar gyfer Cynnal a gwella'r economi wledig a threfol)** | | | | | | |
| (Craidd) Y cyflenwad tir sydd ar gael ar gyfer tai (TAN 1) | O leiaf pum mlynedd o gyflenwad tir ar gyfer tai | Cyflenwad llai na 5.5 blynedd | 4.9 blynedd a nodwyd gan y Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2012-2013 | 5.3 blynedd a nodwyd gan y Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2013-2014.<br><br>Mae Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2014-2015 yn cael ei hystyried gan yr Arolygiaeth Gynllunio i | 5.0 mlynedd a nodwyd gan y Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2014-2015. Mae Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2016 wrthi'n cael ei pharatoi. | |

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | Cysylltiad â'r Cynllun |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |
| | | | | benderfynu arni. | | |
| Nifer yr anheddau sy'n cael eu cwblhau a'u neilltuo y flwyddyn. | Cyfartaledd o 500 o anheddau newydd wedi'u cwblhau y flwyddyn dros y cyfnod cyntaf o bedair blynedd<br>Cyfartaledd o 640 o anheddau newydd wedi'u cwblhau y flwyddyn dros y blynyddoedd sy'n weddill | 10% yn is na'r targed. | 459 (Arolwg Tai 2013-2014) | 588 (Arolwg Tai 2014-2015). | 405 (Arolwg Tai 2015-2016) | |
| (Craidd) Faint o ddatblygiadau tai a ganiateir ac a adeiledir ar safleoedd tai a neilltuwyd fel canran o gyfanswm y dyraniad tai ac fel canran o gyfanswm y datblygiad tai a ganiatawyd. | Dylai 80% o ddyraniadau gael eu cwblhau erbyn 2021. Fel cyfanswm o'r holl ddatblygiadau tai a ganiateir, dylai o leiaf 60% fod ar safleoedd a neilltuwyd. | Dylai 30% o'r dyraniadau gael caniatâd erbyn mis Mawrth 2017. Ymchwiliad os bydd caniatadau ar safleoedd a neilltuwyd islaw 60% o'r cyfanswm | | | | |

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | ygu'r Cynll |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |
| Cynnydd tuag at ddarparu ar y safleoedd tai canlynol:<br>a) Slade Lane South, Hwlffordd<br>b) Slade Lane North, Hwlffordd<br>a) Maesgwyn, Abergwaun<br>b) Shoals Hook Lane | Dylai pob safle ddarparu unedau a nodwyd ac a ddisgwyliwyd yn y Cynllun erbyn 2021. | Datblygiadau na ddechreuwyd arnynt erbyn y dyddiadau canlynol:<br>a) Slade Lane South, Hwlffordd – 2017 | Slade Lane South<br>Caniatâd cynllunio ar waith (amlinellol) 12/0830/PA ar gyfer 729 eiddo preswyl, ac Archfarchnad a Gorsaf Betrol yn Slade Lane South a Slade Lane North. | Slade Lane South<br>Mae'r caniatâd dal i fod ar waith. Mae sylwadau'r asiant ar Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2014 yn nodi bwriad i weithredu seilwaith hwyluso i gyflwyno'r safle mor fuan â phosibl, bydd y gwaith yn dechrau yn ystod Chwarter 4 2014 yn ôl yr amserlen, ac yn debygol o gael ei | Slade Lane South<br>Mae'r caniatâd dal i fod ar waith. Mae sylwadau'r asiant ar Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2016 yn nodi bwriad i adeiladu gyda phartner adeiladwyr tai priodol gyda dyddiad dechrau amcangyfrifedig o Chwarter 2 2017.<br>Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar y safle ac mae'r holl seilwaith gweithredu ar waith. | |

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | Cynllun yn gweithio/ angen ei adolygu'r Cynll |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |
| | | b) Slade Lane North, Hwlffordd – 2020<br>c) Maesgwyn, Abergwaun – Mawrth 2017 | | gwblhau yn 2014. Bydd Slade Lane South ar gael i'w ddatblygu erbyn Chwarter 1 2016. | | |
| | | | Slade Lane North<br>Fel Uchod | Slade Lane North<br>Fel Uchod. | Slade Lane North<br>Fel uchod. | |
| | | d) Shoals Hook Lane – Mawrth 2017. | Maesgwyn<br>Caniatâd cynllunio ar waith – 07/1454/PA (amlinellol) – preswyl a 08/0829/PA (Materion a Gedwir yn ôl) – preswyl. | Maesgwyn<br>Caniatâd cynllunio ar waith 07/1454/PA (amlinellol) yn dod i ben 16/10/2016. Cais Adran 73 14/0070/PA heb ei | Maesgwyn<br>Caniatâd cynllunio ar waith 07/1454/PA (amlinellol), yn dod i ben 16/10/2016. Cais Adran 73 14/0070/PA heb ei benderfynu ar | |

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | Cynll ygu'r |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |
| | | | | benderfynu ar ddyddiad llinell sylfaen yr AMB. | ddyddiad llinell sylfaen yr AMB. | |
| | | | Shoals Hook Lane<br>Dim caniatâd. | Shoals Hook Lane<br>Dim caniatâd. | Shoals Hook Lane<br>Dim caniatâd. | |
| Targed canran y Tai Fforddiadwy yn GN.27 | Bydd y targed yn adlewyrchu amgylchiadau economaidd | Pe bai prisiau tai cyfartalog yn cynyddu 5% uwchlaw pris sylfaenol lefelau 2012 dros ddau chwarter, yna bydd yr Awdurdod yn ystyried trothwyon eraill a nodwyd yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Dai Fforddiadwy a gall gynnal profion | Y pris sylfaenol mis Medi – mis Rhagfyr 2012 oedd £155,000. Dim cynnydd o 5% dros ddau chwarter drwy fonitro (gweler Mynegai Fforddiadwyedd y CDLl, Mehefin 2014) | Y pris sylfaenol mis Medi – mis Rhagfyr 2012 oedd £155,000. Dim cynnydd o 5% dros ddau chwarter drwy fonitro (gweler Mynegai Fforddiadwyedd y CDLl, Mehefin 2015) | Y pris sylfaenol mis Medi – mis Rhagfyr 2012 oedd £155,000. Dim cynnydd o 5% dros ddau chwarter drwy fonitro (gweler Mynegai Fforddiadwyedd y CDLl, Medi 2016). | |

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | Cynllygu'r |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |
| | | hyfywedd ychwanegol ac addasu'r targedau a bennwyd yn GN.27 a GN.28. | | | | |
| (Craidd) Nifer yr anheddau fforddiadwy a marchnad gyffredinol ychwanegol net a adeiladwyd (TAN 2) | 5,700 o anheddau erbyn 2021 gan gynnwys 980 o anheddau fforddiadwy erbyn 2021 | Os yw cyfanswm nifer yr anheddau a adeiladwyd erbyn yr Adolygiad o'r Cynllun (2017) yn llai na 50% o'r targed. | 459 (Arolwg Tai 2013-2014) | 588 (Arolwg Tai 2014-2015). | 405 (Arolwg Tai 2015-2016) | |
| Cyfanswm nifer y tai fforddiadwy a gafodd ganiatâd cynllunio. | 980 erbyn 2021 | Os yw'n llai na 50% o'r targed erbyn yr Adolygiad o'r Cynllun (2017). | 323 | 265 | 125 | |
| Nifer y tai fforddiadwy a gafodd ganiatâd cynllunio drwy rwymedigaethau cynllunio. | 476 erbyn 2021 | Os yw'n llai na 50% o'r targed erbyn yr | 232 gyda chyfraniadau o £395,207.25 ar | 220 gyda chyfraniadau o £2,244,805.25 | 74 | |

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | ygu'r Cynll |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |
| | | Adolygiad o'r Cynllun (2017). | gytundebau adran 106 a lofnodwyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. (Mae hyn yn cynnwys 182 o Dai Fforddiadwy i'w darparu ar Slade Lane, Hwlffordd.) | ar gytundebau adran 106 a lofnodwyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. (Mae hyn yn cynnwys £1.28 miliwn o gyfraniad oddi wrth Farina Abergwaun.) | | |
| Nifer y tai fforddiadwy a ganiateir fel safleoedd eithriedig. | 40 erbyn 2021 | Os yw llai nag 20 erbyn yr Adolygiad o'r Cynllun (2017). | 47 [22](3 o geisiadau a ganiatawyd 12/0850/PA ar gyfer dwy uned yn y Garn, 12/0882/PA yn Scleddau ar gyfer 27 o | 0 | 10 (1 cais a ganiatawyd 14/0921/PA) yn St Florence. | |

[22] Noder nad yw'r ffigur yn cynnwys ceisiadau ar gyfer materion a gedwir yn ôl.

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | Cynll ygu'r |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |
| | | | unedau a 12/0977/PA yn Saundersfoot (y tu allan i Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro) ar gyfer 18 o unedau). Cafodd pob uned a ganiatawyd ar safleoedd eithriedig yn ystod y cyfnod hwn ei darparu gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, felly mae'r niferoedd hefyd wedi'u cynnwys yn y ffigurau isod ynglŷn â nifer y tai | | | |

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | ygu'r Cynll |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |
| | | | fforddiadwy y rhoddwyd caniatâd ar eu cyfer ac a ddarparwyd gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig) | | | |
| Nifer y tai fforddiadwy a ganiateir ac a ddarperir gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | 401 erbyn 2021 | Ymchwiliad os yw'n llai na 200 erbyn yr Adolygiad o'r Cynllun (2017). | Rhoddwyd 88 o ganiatadau i PHA a Tai Cantref (heb gynnwys Materion a Gedwir yn ôl). | 40 o ganiatadau (heb gynnwys Materion a Gedwir yn ôl). | Rhoddwyd 43 o ganiatadau i PHA a Tai Cantref (heb gynnwys Materion a Gedwir yn ôl)[23] | |
| Nifer yr anheddau i weithwyr gwledig a gafodd ganiatâd cynllunio | 40 erbyn 2021 | 50% o'r targed. | 3 | 5 | 4 | |
| Arwydd o lefel gyffredinol yr Angen am Dai Fforddiadwy. | Dim cynnydd sylweddol yn flynyddol. | Mae lefel yr angen yn amrywio dros | Angen 1,641 o Dai Fforddiadwy bob blwyddyn | Angen 1,641 o Dai Fforddiadwy | Angen 1,641 o Dai Fforddiadwy bob blwyddyn | |

[23] Mae'r ffigur o 43 yn cynnwys 10 o unedau a ganiatawyd fel safle eithriedig yn St Florence. Nid Landlord Cymdeithasol Cofrestredig oedd yr ymgeisydd a'r asiant ar gyfer y cais hwn ond mae'r cynllun yn cael ei ddarparu gan Landlord Cymdeithasol Cofrestredig ac felly mae wedi'i gynnwys.

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | ygu'r Cynll |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |
| | | 10% o gymharu â lefel 2012 fel y'i mesurwyd gan y Gofrestr Dai Gyffredin. | (Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2014). (Noder mai 1,656 y flwyddyn oedd ffigur yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol.) | bob blwyddyn (Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2014). | (Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2014). | |
| Nifer yr anheddau fforddiadwy sydd â chaniatâd cynllunio a nifer yr anheddau a adeiladwyd fel canran o'r holl dai newydd â chaniatâd cynllunio ac a adeiladwyd. | 98 o anheddau fforddiadwy y flwyddyn a ganiatawyd; rhaid i dai fforddiadwy fod o leiaf 15% o'r cyfanswm a ganiateir ac a gwblheir. | Ymchwiliad pellach os yw tai fforddiadwy yn llai na 12.5% o gyfanswm y caniatadau. | Cafodd 323 ganiatâd cynllunio allan o gyfanswm o 1,547 o dai newydd a ganiatawyd. (20%) 73 o unedau fforddiadwy a adeiladwyd 2013-2014[24], | Cafodd 265 ganiatâd cynllunio allan o gyfanswm o 1,210 o dai newydd a ganiatawyd (21.9%). 117 o unedau fforddiadwy a adeiladwyd 2014-2015[26], | Cafodd 119 ganiatâd cynllunio allan o gyfanswm o 922 o dai newydd a ganiatawyd (12.9%). 131 o unedau fforddiadwy a adeiladwyd 2015-2016 , allan o | |

[24]Ffynhonnell Ffurflen Tai Fforddiadwy Llywodraeth Cymru CSP
[26]Ffynhonnell Ffurflen Tai Fforddiadwy Llywodraeth Cymru CSP

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | Cynll ygu'r |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |
| | | | allan o gyfanswm o 459 a adeiladwyd[25] (15.9%). | allan o gyfanswm o 588 a adeiladwyd[27] (19.8%). | gyfanswm o 405 a adeiladwyd (32%). | |
| Cyfran y datblygiadau tai sy'n cyfrannu'r tai fforddiadwy a geisir gan yr awdurdod. | 75% o ddatblygiadau i gyflawni neu ragori ar y gyfradd gyfrannu; 95% o ddatblygiadau i gyfrannu mewn rhyw ffordd neu'i gilydd at dai fforddiadwy. | 10% ar dargedau. | Cyfrannodd 86.2% o gynigion tai Dai Fforddiadwy. (50 allan o 58 o geisiadau lle y gellid bod wedi ceisio cyfraniadau Tai Fforddiadwy.) | Cyfrannodd 89.1% o gynigion tai Dai Fforddiadwy (57 allan o 64 o geisiadau lle y gellid bod wedi ceisio Tai Fforddiadwy.) | I'w ddarparu | |
| (Craidd) Dwysedd tai cyfartalog a ganiatawyd ar safleoedd a neilltuwyd. | 30 ayh mewn Trefi Ffocws a 25 ayh mewn aneddiadau Gwledig | Ymchwiliad pellach os yw'n llai na 25 ayh mewn ardaloedd trefol ac yn llai | Trefi Ffocws<br>29 ayh | Trefi Ffocws<br>29 ayh | Trefi Ffocws<br>37 ayh | |
| | | | Aneddiadau Gwledig<br>27 ayh | Aneddiadau Gwledig<br>24 ayh | Aneddiadau Gwledig<br>26 ayh | |

[25] Arolwg Tai CSP 2013-2014
[27] Arolwg Tai CSP 2014-2015

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad 2014 | Canlyniad 2015 | Canlyniad 2016 | Cynll ygu'r |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | nag 20 ayh mewn ardaloedd gwledig. | | | | |
| Dwysedd cyfartalog tai a ganiatawyd ar hap-safleoedd | 30 ayh mewn Trefi Ffocws a 25 ayh mewn aneddiadau Gwledig | Ymchwiliad pellach os yw'n llai na 25 ayh mewn ardaloedd trefol ac yn llai nag 20 ayh mewn ardaloedd gwledig. | Trefi Ffocws 92 ayh[28]<br>Aneddiadau Gwledig 20 ayh | Trefi Ffocws 60 ayh<br>Aneddiadau Gwledig 19 ayh | Trefi Ffocws 40 ayh<br>Aneddiadau Gwledig 24 ayh | |
| Nifer y safleoedd a lleiniau a ganiatawyd ac a gwblhawyd ar gyfer llety sipsiwn a theithwyr. | 40 o leiniau ychwanegol i Sipsiwn a Theithwyr i'w darparu erbyn diwedd 2015. | Llai na 40 wedi'u caniatáu erbyn diwedd 2015. | 15 o leiniau wedi'u caniatáu ers Asesiad 2010 o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (12 ar safleoedd preifat, tri ar safle cyhoeddus a neilltuwyd). 5 | 19 o leiniau wedi'u caniatáu ers Asesiad 2010 o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr. 3 safle preifat wedi'u caniatáu 2014-2015 | 26 o leiniau wedi'u caniatáu ers Asesiad 2010 o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr. 1 safle preifat wedi'i ganiatáu 2015-2016 (5 llain – | |

[28] Mae'r ffigur hwn dipyn yn uwch na'r dwyseddau a geir mewn mannau eraill oherwydd y nifer fawr o ddatblygiadau fflatiau a ddosberthir yn hap-safle trefol.

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | ygu'r Cynll |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |
| | | | o leiniau wedi'u caniatáu ar ôl i'r CDLl gael ei fabwysiadu (11/0093/PA, 13/0345/PA a 13/0790/PA). | (13/0429/PA, 14/0400/PA a 13/0744/PA). | 15/0657/PA) ac un estyniad wedi'i ganiatáu i safle preifat sy'n bodoli eisoes (2 lain ychwanegol -14/0448/PA). | |
| Cynnydd tuag at nifer y safleoedd a neilltuwyd ar gyfer llety sipsiwn a theithwyr. | 40 o leiniau ychwanegol i Sipsiwn a Theithwyr i'w darparu erbyn diwedd 2015. | Llai na 40 wedi'u caniatáu erbyn diwedd 2015. | Caniatâd cynllunio wedi'u rhoi ar gyfer 3 yn Chwarel y Castell (13/0790/PA). | 3 llain wedi'u darparu yn Chwarel y Castell. Ail gais i ddadgofrestru tir comin yng Nghilgeti wedi'i gyflwyno. | Cais i ddadgofrestru tir comin yng Nghilgeti yn llwyddiannus. | |
| Diwallu angen newydd sydd wedi codi (ar ôl 2014) erbyn diwedd 2019 (Lefel yr angen a nodwyd yn yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr a baratowyd ddiwedd 2014). | Cafodd yr angen a nodwyd yn arolwg 2014 ei ddiwallu erbyn diwedd 2019. | Yr angen a nodwyd heb ei ddiwallu erbyn 2019. | | | | |
| Diwallu angen newydd sydd wedi codi (2016) erbyn diwedd 2021 Lefel yr angen a nodwyd yn yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a | Yr angen a nodwyd yn arolwg 2016 wedi ei ddiwallu erbyn | Dim trothwy | Dd/B | Dd/B | Mae Asesiad drafft o Anghenion Llety | |

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | ygu'r Cynll |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |
| Theithwyr (a baratowyd ddiwedd 2016) | diwedd 2021. | | | | Sipsiwn a Theithwyr wedi cael ei baratoi ond nid yw ar ffurf derfynol eto. | |
| Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd yn groes i nod diogelu Polisi GN.33. | 0 | 3 dros 3 blynedd. | 0 | 0 | 2 (14/1103/PA, 15/0132/PA) | |

**Crynodeb o'r Amcan Strategol: Datblygu cymunedau bywiog sy'n darparu amrywiaeth a chymysgedd o dai a gwasanaethau lleol (D) (Gweler hefyd ddangosyddion ar gyfer cynnal a gwella'r economi wledig a threfol):**

**Tai**

Cyhoeddwyd Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2014-2015 ar 11 Rhagfyr 2015. Nododd fod gan CSP gyflenwad tir o 5.0 mlynedd. Mae hyn yn cyrraedd y targed o 5 mlynedd, ond mae'n is na'r trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach (5.5 mlynedd) a bennwyd yn yr AMB. Mae Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2015-2016 wrthi'n cael ei pharatoi.

Mae dangosyddion tai eraill yn awgrymu i'r farchnad arafu ychydig yn AMB 3, o ran caniatadau a roddwyd ac unedau a adeiladwyd. Adeiladwyd 405 o anheddau newydd yn ystod y cyfnod monitro hwn. Cyflawnwyd y targed o 15% o dai fforddiadwy wedi'u cwblhau ond nid ar gyfer caniatadau eleni. Fodd bynnag, ni chyrhaeddwyd y trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach. Mae lleihad cyffredinol yn nifer y caniatadau a roddwyd ar gyfer unedau eleni, ynghyd â lleihad yn nifer y ceisiadau yn yr aneddiadau mwy o faint wedi golygu bod llawer o'r caniatadau a roddwyd ar safleoedd sy'n is na'r trothwy ar gyfer tai fforddiadwy. Parheir i fonitro'r mater hwn eleni.

O ran y safleoedd tai strategol a nodwyd yn y Cynllun, rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 729 o gartrefi preswyl ar y safleoedd a nodwyd yn Slade Lane North a Slade Lane South yn Hwlffordd yn AMB 1. Fel y nodwyd yn AMB 2, mae'r ymgeisydd wedi cyflawni'r holl amodau cyn cychwyn mewn perthynas â mynediad ac mae'r gwaith mynediad i'r safle bron â'i gwblhau. Mae'r Awdurdod wedi derbyn pob cyfraniad ariannol

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | ygu'r Cynll |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |

cyn cychwyn sy’n ofynnol o dan y cytundeb S.106. Mae cytundeb Adran 278 wedi’i gwblhau ac mae’r Awdurdod wedi derbyn bond. Mae’r bond carthion a’r cytundeb seilwaith cyfleustodau wedi’u cwblhau ac mae’r bondiau wedi cael eu talu. Mae tir wedi cael ei drosglwyddo at ddibenion addysg hefyd. Mae adborth gan yr ymgeisydd i broses y Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai yn 2016 yn awgrymu bod gwaith ar y safle yn debygol o ddechrau yn 2017.

Nid oes unrhyw geisiadau cynllunio wedi’u cyflwyno ar gyfer Shoals Hook Lane yn Hwlffordd. Yn Abergwaun, mae gan safle Maesgwyn ganiatâd sy’n bodoli eisoes ar ran o’r safle. Cyflwynwyd cais cynllunio newydd i estyn y cyfnod amser i gyflwyno materion a gedwir yn ôl ond ni phenderfynwyd arno erbyn dyddiad llinell sylfaen yr adroddiad hwn.

O’r datblygiadau preswyl hynny lle roedd CSP yn gallu ceisio cyfraniadau tuag at dai fforddiadwy gwnaeth hynny XX% + sylwadau ychwanegol

Cafodd cyfanswm o 119 o Dai Fforddiadwy ganiatâd cynllunio, ac o’r rhain negodwyd 74 o dai fforddiadwy drwy gytundeb cyfreithiol adran 106, gyda chyfraniadau ariannol o ychydig dros £1.048 miliwn wedi’u llofnodi yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Yn ogystal â’r cyfraniadau hyn, cafodd y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig neu’r datblygiadau a brynwyd ganddynt yn ddiweddarach ganiatâd cynllunio ar gyfer 40 o unedau Tai Fforddiadwy newydd. Rhoddwyd 5 caniatâd cynllunio ar gyfer Anheddau Gweithwyr Gwledig – gan y gellir defnyddio’r rhain fel Tai Fforddiadwy, maent wedi cael eu cynnwys yn y cyfanswm. Mae CSP yn monitro nifer y caniatadau a roddir ar safleoedd eithriedig – yn 2015-16 rhoddwyd 1 caniatâd newydd ar gyfer 10 o unedau, o gymharu â dim yn 2014-2015 a 47 o unedau yn 2013-14, sy’n sylweddol uwch na thargedau’r Cynllun.

Yn unol â’r ymrwymiadau yn y Canllawiau Cynllunio Atodol a’r AMB, mae’r CSP yn parhau i fonitro prisiau tai a dangosyddion eraill er mwyn asesu a oes angen newid lefel y cyfraniadau o Dai Fforddiadwy a nodwyd fel targedau dangosol. Mae’r gwaith monitro hyd yma wedi nodi nad oes angen ei newid a bod targedau’r Cynllun yn dal i fod yn briodol (gweler Mynegai Fforddiadwyedd y CDLl, mis Hydref 2016).

Er bod lefel yr angen am Dai Fforddiadwy yn dal i fod yn uchel yn sir Benfro, sef 1,641 o dai fforddiadwy y flwyddyn (Arolwg o’r Farchnad Dai Leol 2014) (sy’n sylweddol uwch na nifer yr anheddau ar y farchnad a adeiledir y flwyddyn, mae’r Cynllun yn llwyddo i sicrhau lefelau uchel o Dai Fforddiadwy, gan roi caniatâd cynllunio ar gyfer ffigur cronnus o 683 o unedau allan o gyfanswm targed y Cynllun o 980 ers iddo gael ei fabwysiadu. Mae rhanddeiliaid wedi gofyn am i’r AMB gynnwys gwybodaeth am y ffordd y mae’r Awdurdod wedi gwario unrhyw symiau cyfnewid ar gyfer Tai Fforddiadwy. Yn ystod y flwyddyn 2015-2016 nodwyd pedwar cynllun ac felly talwyd £26.7k i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig gan yr Awdurdod.

O ran dwysedd, mae’r ffigurau a sicrheir yn rhagori ar y targedau ar safleoedd a neilltuwyd ac ar hap-safleoedd mewn ardaloedd trefol. Mewn

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | ygu'r Cynll |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |
| datblygiadau ar hap-safleoedd gwledig cafwyd dwysedd o 24 ayh ac er ei fod ychydig yn is na'r targed, nid yw'n cyrraedd y trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach ac mae'n rhagori ar ffigurau 2015. Mae dadansoddiad o bob lefel o'r Hierarchaeth o Aneddiadau yn datgelu mai dwysedd is mewn Pentrefi Lleol Mawr a Bach sy'n peri i'r ffigur dwysedd ar gyfer Aneddiadau Gwledig fod islaw ffigur y targed. Felly nid oes angen cymryd camau gweithredu pellach ar hyn o bryd.<br><br>**<u>Darpariaeth Sipsiwn a Theithwyr</u>**<br><br>O ran lleiniau Sipsiwn a Theithwyr, ers i'r Asesiad gwreiddiol o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr gael ei gynnal yn 2010, cafodd 26 o leiniau ychwanegol ganiatâd cynllunio. Felly, nid yw'r targed o ddarparu 40 o leiniau ychwanegol erbyn diwedd 2015 wedi'i gyflawni, sy'n golygu y cyrhaeddwyd y trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach. . Er na chyflawnwyd y targed o 40 o leiniau, mae'r mwyafrif llethol o leiniau a ddarparwyd ers 2010 wedi cael caniatâd ar safleoedd preifat (ac eithrio 3), gan ddangos bod polisïau'r CDLl yn gweithio'n effeithiol o ran galluogi darpariaeth breifat. Mae penderfyniad cychwynnol Llywodraeth Cymru i wrthod dadgofrestru tir comin yn Kingsmoor, Cilgeti wedi arwain at oedi o ran cyflawni'r dyraniad sylweddol hwn (sy'n debygol o ddarparu 15 o leiniau). Cafodd y cais i ddadgofrestru a chau'r Tir Comin ei gymeradwyo o'r diwedd ym mis Rhagfyr 2015 ac mae gwaith ar gais cynllunio a chais am arian grant yn mynd rhagddo er mwyn cefnogi'r estyniad hwn.<br><br>Paratowyd Asesiad drafft o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn 2015, yn unol â'r canllawiau newydd a gyhoeddwyd ar y cyd â'r Ddeddf Tai (Cymru). Cyflwynwyd yr Asesiad drafft hwn o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr i Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2016 a nodwyd bod angen 33 o leiniau rhwng 2015 a 2020, sef llai o angen na'r hyn a nodwyd mewn asesiadau blaenorol. Mae'r angen is hwn yn awgrymu bod nifer y lleiniau preifat sy'n cael caniatâd yn cael effaith ar lefel angen yn sir Benfro. Nid oedd fersiwn derfynol o'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr wedi'i chyhoeddi erbyn dyddiad sylfaen AMB 3 ond caiff adroddiad ei gyhoeddi yn AMB 4. O ran y CDLl, mae'r dyraniadau a'r polisïau presennol yn ei gwneud yn bosibl i safleoedd preifat a safleoedd a neilltuwyd gael caniatâd ac ar y sail hon nid oes angen ymchwiliad pellach ar hyn o bryd.<br><br>**<u>Ceisiadau a gymeradwywyd yn groes i GN.33 Cyfleusterau Cymunedol</u>**<br><br>Cymeradwywyd dau gais yn groes i ofynion GN.33 – 14/1103/PA ar gyfer parc trampolinio a 15/0132/PA, sef newid defnydd adeilad rhestredig yn ysgol annibynnol. Yn achos 14/1103/PA barnwyd bod y cais yn groes i bolisi GN.33 am nad oedd cysylltiad da rhwng y lleoliad ac anheddiad. Fodd bynnag, rhoddwyd cryn bwys ar TAN 23 Datblygu Economaidd, sy'n nodi bod disgwyl i awdurdodau cynllunio lleol fabwysiadu ymagwedd gadarnhaol tuag at addasu adeiladau at ailddefnydd busnes. Barnwyd bod 15/0132/PA hefyd yn groes i bolisi GN.33 am nad oedd cysylltiad da | | | | | | |

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | ygu'r Cynll |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |
| rhwng y lleoliad ac anheddiad. Fodd bynnag, ystyriwyd bod amgylchiadau penodol yr ysgol a fyddai'n gweithredu o'r safle (gan wasanaethu dalgylch mawr) yn bwysicach na'r gwrthdaro hwn â pholisi GN.33. | | | | | | |
| **Amcan Strategol: Sicrhau rhagoriaeth dylunio ac ansawdd amgylcheddol (B) a Diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig (J)** | | | | | | |
| Nifer y caniatadau cynllunio a roddwyd yn groes i Bolisi GN.1, sef nod diogelu maen prawf 3. | 0 | Mwy na 4 caniatâd o'r fath mewn 4 blynedd. | 6 | 12[29] | 1 | |
| Nifer y caniatadau tai o fewn Ffiniau Aneddiadau fel canran yr holl ganiatadau tai. | 98% | 5% y flwyddyn y tu allan i ffiniau aneddiadau dros 4 blynedd. | 94% | 96.9% | 93% | |
| Nifer y caniatadau a gymeradwywyd yn groes i Bolisi SP16. | 0 | Mwy na 4 mewn 4 blynedd. | 0 | 0 | 0 | |
| (Craidd) Faint o dir maes glas a gollwyd i ddatblygiadau (hectarau) nas neilltuwyd yn y Cynllun. | Dim (Dim targed) | Dim (Dim trothwy) | 365.07 hectar | 299.8 hectar[30] | 41.14 hectar | |
| Faint o dir maes glas a gollwyd i ddatblygiadau y | Dim (Dim targed) | Dim (Dim | 338.98 hectar | 280.64[31] | 32.02 hectar | |

[29] Mae'r 12 o geisiadau a gymeradwywyd yn amodol yn erbyn nodau diogelu GN1.3 yn cydnabod y mân effeithiau niweidiol ar ansawdd tirwedd, ond maent yn cydbwyso hyn â'r effaith gadarnhaol a chydymffurfiaeth â GN.4.

[30] Mae'r ffigur wedi dileu ceisiadau dyblyg sy'n cwmpasu'r un ardal o dir e.e. Diwygiadau ansylweddol/ceisiadau diwygiedig

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | ygu'r Cynll |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |
| tu allan i ffiniau aneddiadau. | | trothwy) | | | | |
| Colli Mannau Agored o ganlyniad i ddatblygiadau (hectarau) nas neilltuwyd yn y Cynllun. | Dim (Dim targed) | Dim (Dim trothwy) | 0 | 0.15 hectar (13/1092/PA) | 0 | |
| Nifer y caniatadau cynllunio a roddwyd yn groes i nod Polisi GN.37. | Dim | Mwy na 4 mewn 4 blynedd. | 0 | 0 | 0 | |
| Nifer y caniatadau cynllunio, caniatadau adeilad rhestredig a chaniatadau henebion cofrestredig a roddwyd yn groes i Bolisi GN.38. | Dim | Mwy na 4 mewn 4 blynedd. | 3 | 12 | 2 | |
| (Craidd) Faint o ddatblygiadau newydd (hectarau) a ganiatawyd ar dir a oedd wedi'i ddatblygu'n flaenorol (maes llwyd), ailddatblygiadau ac addasiadau) wedi'i fynegi fel canran o'r holl ddatblygiadau a ganiatawyd. | Dim targed | Dim trothwy | 80.75 hectar (18%) | 46.87 hectar (11.3%) | 291.05 hectar (85%) | |
| (Craidd) Faint o gapasiti rheoli gwastraff a ganiatawyd | Dim targed | Dim trothwy | 3.65 hectar | 4.20 hectar | 3.32 hectar | |
| Cynnydd tuag at ddod o hyd i Safle Amwynder Dinesig newydd i wasanaethu de-ddwyrain sir Benfro. | Darparu safle newydd erbyn 2015. | Dim caniatâd cynllunio ar waith erbyn mis Ebrill 2014 ac os nad yw'r safle yn weithredol | Ni fu'n bosibl dod o hyd i safle newydd o fewn ffiniau'r Parc Cenedlaethol, ond cyflwynwyd | Cyfleuster newydd wedi'i gymeradwyo'n amodol ar 17/07/14 (13/1110/PA), | Bodlonwyd gofyniad y dangosydd hwn. | |

[31] Mae'r ffigur wedi dileu ceisiadau dyblyg sy'n cwmpasu'r un ardal o dir e.e. Diwygiadau ansylweddol/ceisiadau diwygiedig

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | ygu'r Cynll |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |
| | | erbyn 2015. | cais cynllunio ar gyfer safle amwynder dinesig newydd a chanolfan ailgylchu o fewn ardal gynllunio'r Cyngor yn Devonshire Drive, ger New Hedges. Roedd y cais hwn heb ei benderfynu ar 31/03/14, ond fe'i cymeradwywyd yn amodol ar 17/07/14 (13/1110/PA). | yn weithredol o Basg 2015. | | |
| Winsel – Estyniad i'r safle amwynder dinesig | Cynllun wedi'i weithredu | Dim caniatâd cynllunio ar waith erbyn mis Ebrill 2014 ac os nad yw'r safle | Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar 0.23 hectar o'r safle a neilltuwyd ar | Mae'r safle yn gwbl weithredol. | Bodlonwyd gofyniad y dangosydd hwn. | |

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | ygu'r Cynll |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |
| | | yn weithredol erbyn 2015. | 08/05/13. Mae hyn yn caniatáu estyniad i'r safle amwynder dinesig presennol, ar gyfer cyfleuster adfer deunyddiau. | | | |

**Crynodeb o'r Amcan Strategol: Sicrhau rhagoriaeth dylunio ac ansawdd amgylcheddol (B) a Diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig (J):**

Cymeradwywyd un cais er ei fod yn groes i ofynion Polisi GN.1, maen prawf 3, sef nifer sylweddol is nag a gymeradwywyd yn ystod AMB 2. Roedd y cais ar gyfer cynllun ynni adnewyddadwy. Er bod y trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach ar gyfer y polisi hwn wedi'i gyrraedd, yn yr achos hwn, fel mewn achosion eraill, barnwyd, er bod y cynnig yn mynd yn groes i GN.1(3), na fyddai ond mân effeithiau niweidiol ar gymeriad tirwedd, ansawdd ac amrywiaeth a'u bod yn amgylcheddol dderbyniol. Ystyriwyd bod y cais yn unol â Pholisi GN.4, y rhoddwyd mwy o bwys ar hyn yn y broses gwneud penderfyniad na'r diffyg cydymffurfiaeth â GN.1(3). Bydd swyddogion yn parhau i fonitro'r mater hwn. O ystyried y bydd prosiectau ynni adnewyddadwy, yn enwedig tyrbinau gwynt, yn anochel, yn cael rhai effeithiau niweidiol ar y dirwedd, efallai y bydd angen ailwerthuso geiriad manwl GN.1(3) wrth adolygu'r Cynllun. Dim ond pan fydd risg o niwed sylweddol, yn enwedig lle mae hyn yn ymestyn i leoliadau yn y Parc Cenedlaethol, y dylid rhoi llai o bwys yn y broses gwneud penderfyniad ar y gefnogaeth gyffredinol a roddir gan y CDLl i brosiectau ynni adnewyddadwy, drwy ddarpariaethau Polisi GN.4, nag ar ystyriaethau ynglŷn â'r dirwedd.

Mae ardal y tir maes glas y caniateir ei ddatblygu nad yw wedi'i neilltuo fel arall dipyn yn is nag mewn blynyddoedd blaenorol, ond mae'n dal i fod yn uwch na'r targed o 0 hectar. Awgryma ymchwiliad i'r math o ddatblygiad a ganiatawyd fod y targed ar gyfer hyn yn amhriodol a bod y lefelau uchel o ddatblygiad ar dir maes glas yn briodol. Mae sawl rheswm dros y gostyngiad mewn datblygiadau maes glas, ond gellir ei briodoli'n bennaf

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | ygu'r Cynll |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | 2015 | 2016 | |

i'r lleihad sylweddol yn nifer y ceisiadau ynni adnewyddadwy (gan gynnwys tyrbinau gwynt ac araeau solar). Mae cynigion a gafodd ganiatâd ar dir maes glas nas neilltuwyd yn cynnwys amrywiaeth o ddefnyddiau megis y rhai sy'n ymwneud â defnyddiau amaethyddiaeth a marchogaeth (siediau, lagynau slyri a thraciau amaethyddol), gydag arwynebedd bach yn cael caniatâd ar gyfer defnydd preswyl (er enghraifft, ar safleoedd eithriedig ac anheddau gweithwyr menter wledig), cynigion datblygiadau bach eu heffaith a rhai cynigion twristiaeth sy'n gofyn am leoliad cefn gwlad. Bydd yr Awdurdod yn parhau i fonitro'r maes hwn.

Mae'r trothwy ar gyfer caniatadau, caniatadau adeiladau rhestredig a chaniatadau henebion cofrestredig a roddwyd yn groes i Bolisi GN.38 hefyd wedi cael ei gyrraedd. Nodwyd bod dau gais wedi cael eu cymeradwyo er eu bod yn mynd yn groes i GN.38. Mewn un achos, roedd y cynnig ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy (tyrbin gwynt) a nodwyd mai cyfyngedig oedd yr effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd hanesyddol, ac roedd y cynnig yn unol â Pholisi GN.4, sy'n cefnogi gosodiadau ynni adnewyddadwy. Roedd yr ail ddatblygiad a ganiatawyd yn groes i Bolisi GN.38 ar gyfer ailddefnyddio Adeilad Rhestredig fel ysgol (15/0132/PA). Ystyriwyd bod adeiladau newydd i'w defnyddio mewn cysylltiad â'r ysgol yn methu â rhoi sylw arbennig i leoliad yr Adeilad Rhestredig. O gydbwyso hynny â manteision ehangach ailddefnyddio Adeilad Rhestredig gwag a natur dros dro yr adeiladau, rhoddwyd cryn bwys ar sicrhau ei ddyfodol a chymeradwywyd y cynnig yn groes i GN.38, a chymeradwywyd yr adeilad newydd ar gyfer cyfnod o ddwy flynedd yn unig. Mae geiriad GN.38 yn golygu bod yn rhaid i gynnig gael ei ystyried yn un sy'n groes i'r polisi hyd yn oed os mai cyfyngedig yw'r effaith niweidiol a nodwyd. Bydd y geiriad hwn yn cael ei ailystyried ar adeg adolygu'r, er mwyn sicrhau mai dim ond y cynigion hynny sydd ag effaith niweidiol sylweddol y bernir eu bod yn groes i'r polisi.

Rhwng 01/04/15 a 31/03/16 caniatawyd 3.32 hectar o gapasiti rheoli gwastraff ar 7 safle, sef:

- Plot 12A, Ystad Ddiwydianno Waterston – adeilad storio yn y cyfleuster adfer cerbydau diwedd oes sy'n bodoli eisoes (0.06 hectar)
- Gwaith Trin Carthion, Ffordd Llanrhian, Croes-goch – estyn ac uwchraddio'r gwaith trin carthion sy'n bodoli eisoes (0.14 hectar)
- Green Acres Skip Hire, Dwrbach, Abergwaun – estyniad ochr i'r adeilad a'r gweithrediad gwastraff sy'n bodoli eisoes fel cyfleuster adfer deunyddiau, cyfleuster ailgylchu a gwaith cysylltiedig (0.08 hectar)
- Fferm Langdon Mill, Begeli – safle treulio anerobig 1MW (0.70 hectar)
- Fferm Ludchurch – safle treulio anerobig 0.5MW (0.71 hectar)

<table>
<tr><th rowspan="2">Dangosydd CDLl</th><th rowspan="2">Targed</th><th rowspan="2">Trothwy</th><th colspan="3">Canlyniad</th><th rowspan="2">ygu’r Cynll</th></tr>
<tr><th>2014</th><th>2015</th><th>2016</th></tr>
<tr><td colspan="6">
<ul>
<li>Fferm Drysgolgoch, Llwyndrain – dyddodi deunydd a gloddiwyd a gwaith tirlunio (1.30 hectar)</li>
<li>Plot 12A, Ystad Ddiwydiannol Waterston – etyn adeilad sy’n bodoli eisoes ar gyfer lles staff / cyfleusterau swyddfa a storio dan do (0.33 hectar)</li>
</ul>
Cafwyd ceisiadau eraill a oedd yn ymwneud â gwastraff yn ystod blwyddyn 3 yr AMB a oedd yn addasu cynigion a ganiatawyd yn flaenorol heb newid ardal wreiddiol y safle.<br><br>
O ran y dangosyddion eraill sy’n gysylltiedig â gwastraff, mae’r ddau yn ymwneud â chynnydd o ran darparu safleoedd. Ym mhob achos, mae’r cyfleusterau disgwyliedig wedi cael eu darparu bellach ac felly mae gofynion y dangosyddion wedi cael eu bodloni.
</td><td></td></tr>
</table>

# Atodiad 2 – Cynnydd tuag at ddarparu llwybrau trafnidiaeth a ddiogelwyd a gwelliannau (GN.39)

**Cynlluniau Gwella Ffyrdd Llywodraeth Cymru**

| Enw'r Safle | Ceisiadau a gyflwynwyd | Caniatadau cyfredol (ar 01/04/14) | Dyddiad dechrau'r prosiect | Dyddiad Cwblhau'r Prosiect | Adran Nodiadau (mae newidiadau i wybodaeth yn y CDLl mewn print italig / wedi'u huwcholeuo) |
|---|---|---|---|---|---|
| A.40 Llanddewi Felffre i Benblewin | Dim | Dim | Heb ei ddechrau | | Cynllun Cam 2 Blaenraglen Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru.<br>Amseriad – amserlen wedi'i chyhoeddi 04/02/16.<br>Penodi contractwr dylunio ac adeiladu – haf 2016.<br>Arddangosfeydd gwybodaeth i'r cyhoedd – diwedd 2016.<br>Proses statudol – haf 2017 i wanwyn 2018.<br>Ymchwiliad lleol cyhoeddus (os oes angen un) – diwedd 2017<br>Gwaith adeiladu'n dechrau – Gwanwyn 2018<br>Gwaith adeiladu'n dod i ben – Gwanwyn 2020.<br>Cyllid – Llywodraeth Cymru gyda chymorth gan yr UE o bosibl. |
| Gwelliant i'r A.40 i'r gorllewin i San Clêr. | Dim | Dim | Heb ei ddechrau | | Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-orllewin Cymru, tudalen 46 – cynllun blaenoriaeth 3.<br>Rhoddodd Llywodraeth Cymru (12/06/15) y wybodaeth ddiweddaraf am Astudiaeth Gwella'r A.40. Daeth i'r casgliad |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | y gallai deuoli'r A.40 roi canlyniadau cadarnhaol yn y tymor hwy, ond bod achos cryf dros fesurau ar wahân a oedd yn cynnwys trefn cerbyd 2 + 1 yn y tymor byr. Roedd Asiant Cyflogwr yn datblygu pecynnau ychwanegol o welliannau ar gyfer yr A.40. |

**Cynlluniau gwella ffyrdd lleol**

| Enw'r Safle | Ceisiadau a Gyflwynwyd | Caniatadau cyfredol (ar 01/04/14) | Dyddiad dechrau'r prosiect | Dyddiad Cwblhau'r Prosiect | Adran Nodiadau (mae newidiadau i wybodaeth yn y CDLl mewn print italig / wedi'u huwcholeuo) |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhwydwaith Dosbarthu Gogleddol – ffordd gyswllt Fforddd Bulford (Johnston i Tiers Cross) | 11/0772/PA – cynllun gwella ffordd C3013, a gymeradwywyd yn amodol 10/09/12<br>(Diwygiadau ansylweddol – 15/0407/NM a 15/0410/NM). | 11/0772/PA – gweithredwyd<br>15/0407/NM – gweithredwyd<br>15/0410/NM – gweithredwyd | 2014/15 | 2015/16 | Cyllid – cyllid cydgyfeirio WEFO gyda grant Cronfa Trafnidiaeth Leol Llywodraeth Cymru ac arian cyfatebol CSP.<br>Cwblhawyd mis Gorffennaf 2015 |
| Cam 1 Prosiect Adfywio Cymunedol Sir Benfro (gwyriad Bridgend Terrace) a Cham 2 (Ffordd Osgoi'r Gorllewin) | Dim | Dim | Heb ei ddechrau | | Cydgynllun Trafnidiaeth ar gyfer De-orllewin Cymru rhaglenni tymor canolig a hirdymor (2020 – 2030), tudalen 39.<br>Cam 1: Dyluniad amlinellol wedi'i gwblhau 2010; &<br>Cam 2: Asesiad Cam 2 yr Adran Drafnidiaeth wedi'i gynnal yn 2007. |

| Enw'r Safle | Ceisiadau a Gyflwynwyd | Caniatadau cyfredol (ar 01/04/14) | Dyddiad dechrau'r prosiect | Dyddiad Cwblhau'r Prosiect | Adran Nodiadau (mae newidiadau i wybodaeth yn y CDLl mewn print italig / wedi'u huwcholeuo) |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Cyllid – dim ymrwymiad ar hyn o bryd o'r Gronfa Trafnidiaeth Leol. |
| Gwella Ffordd Fynediad Blackbridge a Ffordd Osgoi Waterston | Dim | Dim | Heb ei ddechrau | | Rhaglen Cydgynllun ar gyfer De-orllewin Cymru ar gyfer 2015-20, tudalen 25 'Prosiect cysylltedd trawsnewidiol' thudalen 33 'Ffordd Ogoi Waterston (blaenoriaeth 24).<br>Amseriad – ansicr.<br>Mae'r datblygwr Egnedol (sydd wedi prynu safleoedd yn Blackbridge a Waterston) yn cynnig adeiladu cyfleuster troi biomas yn ynni yn Blackbridge. Mae gwaith datblygu gwelliannau priffyrdd wedi'i atal dros dro am fod y mynediad arfaethedig drwy'r foryd a llongau môr. |
| Llwybr Strategol y De – A.477 Mynegbost Nash i fesurau gwella coridor y Safle Ynni | 10/0354/PA – Cyffordd Kingsfold, ailalinio B.4319 a chyffordd C.3183, a gymeradwywyd yn amodol 04/10/10<br>11/1145/PA – C.3183, Maidenwells – ffordd gyswllt a chylchfan newydd, a gymeradwywyd yn amodol 14/08/12 | 10/0354/NM – gweithredwyd<br>11/1145/PA – heb ei ddechrau ym mis Gorffennaf 2014<br>12/0131/NM – gweithredwyd | 2012/13 | Y rhan fwyaf o elfennau wedi'u cwblhau erbyn diwedd 2015/16 | Mae Llwybr Strategol y De (Mynegbost Nash i Fesurau Gwella Coridor y Safle Ynni) wedi'i restru yn y Cydgynllun Trafnidiaeth fel cynllun CSP i'w gyflawni rhwng 2015 a 2020 (blaenoriaeth 3).<br>Amseriad – mae'r rhan fwyaf o'r elfennau wedi'u gweithredu bellach. Cwblhawyd gwaith alinio Greenhill / Glenside ym mis Rhagfyr 2015.<br>Cynhaliwyd ymchwiliad cyhoeddus i ffordd gyswllt a chylchfan newydd arfaethedig yn Maidenwells (Tachwedd 2015). Cyhoeddwyd Adroddiad yr Arolygydd ar 1 Gorffennaf 2016 ac mae'n argymell y dylid gwneud Gorchmynion. Bydd y cynllun yn mynd yn ei flaen i'r cam gweithredu bellach, yn amodol ar gwblhau'r broses statudol.<br>Cyllid – caiff y cynllun ei gwblhau wrth i gyllid fod ar gael. |

| Enw'r Safle | Ceisiadau a Gyflwynwyd | Caniatadau cyfredol (ar 01/04/14) | Dyddiad dechrau'r prosiect | Dyddiad Cwblhau'r Prosiect | Adran Nodiadau (mae newidiadau i wybodaeth yn y CDLl mewn print italig / wedi'u huwcholeuo) |
|---|---|---|---|---|---|
| | 12/0131/PA – I'r Gogledd i Glenside, Stoops Lake, Penfro – ailalinio a lledu'r A.4075 a gwaith tirlunio, a gymeradwywyd yn amodol 14/08/12 | | | | |

### Cyfnewidfeydd bysiau a rheilffyrdd

| Enw'r Safle | Ceisiadau a Gyflwynwyd | Caniatadau cyfredol (ar 01/04/14) | Dyddiad dechrau'r prosiect | Dyddiad Cwblhau'r Prosiect | Adran Nodiadau (mae newidiadau i wybodaeth yn y CDLl mewn print italig / wedi'u huwcholeuo) |
|---|---|---|---|---|---|
| Abergwaun (canolbwynt bysiau) | Dim | Dim | Ebrill 2016 (dyluniad) | | Mae Gwelliannau Mynediad Canol Tref Abergwaun, gan gynnwys canolbwynt bysiau, wedi'u rhestru yn y Cydgynllun Trafnidiaeth ar gyfer De-orllewin Cymru, tudalen 32, fel cynllun CSP i'w gyflawni rhwng 2015 a 2020 (blaenoriaeth 2).<br>Elfen bosibl o ailddatblygu Safle Ysgol Canol y Dref.<br>Cyllid – Ymrwymiad Grant Cronfa Trafnidiaeth Leol 2016/17, gyda dyfarniad dangosol 2017/18, yn amodol ar gais llwyddiannus. |
| Gorsaf Reilffordd | 15/0351/PA – | 15/0351/PA | 2012/13 | Agorodd | Amseriad – ailagorodd yr orsaf ym mis Mai 2012. |

| Enw'r Safle | Ceisiadau a Gyflwynwyd | Caniatadau cyfredol (ar 01/04/14) | Dyddiad dechrau'r prosiect | Dyddiad Cwblhau'r Prosiect | Adran Nodiadau (mae newidiadau i wybodaeth yn y CDLl mewn print italig / wedi'u huwcholeuo) |
|---|---|---|---|---|---|
| Abergwaun ac Wdig (cyfnewidfa fysiau/rheilffordd) (er na chyfeirir ato yn y Cydgynllun Trafnidiaeth, cynigiwyd y dylid lleoli gorsaf cludo nwyddau ryngfoddol yma) | Maes Parcio Station Road, Station Hill, Wdig – estyniad i'r maes parcio a darparu toiled mynediad allanol i'r anabl – a gymeradwywyd yn amodol 14/08/15 | | | adeilad newydd yr orsaf 2012, cwblhawyd elfennau pellach yn 2015/16. | Cyllid – Grant Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Llywodraeth Cymru.<br>Mae Cyllid Trafnidiaeth Leol ar gyfer 2015/16 wedi'i gwneud yn bosibl i ymgymryd â gwaith i gynyddu nifer y lleoedd parcio, hwyluso defnydd masnachol o adeilad yr orsaf a gwneud gwelliannau trafnidiaeth gynaliadwy ychwanegol. |
| Aberdaugleddau (cyfnewidfa fysiau/rheilffordd) | Dim | Dim | Heb ei ddechrau | | Cydgynllun Trafnidiaeth ar gyfer De-orllewin Cymru, cynllun CSP i'w gyflawni rhwng 2015 a 2020, tudalen 33 (blaenoriaeth 21).<br>Amseriad – ansicr.<br>Cyllid – dim ymrwymiad Grant o'r Gronfa Trafnidiaeth Leol[32]. |

[32] Awst 2016

| Enw'r Safle | Ceisiadau a Gyflwynwyd | Caniatadau cyfredol (ar 01/04/14) | Dyddiad dechrau'r prosiect | Dyddiad Cwblhau'r Prosiect | Adran Nodiadau (mae newidiadau i wybodaeth yn y CDLl mewn print italig / wedi'u huwcholeuo) |
|---|---|---|---|---|---|
| Doc Penfro (cyfnewidfa fysiau/rheilffordd) | 12/0375/PA – ti'r i'r dwyrain o Water Street ac i'r gogledd o Orsaf Reilffordd Doc Penfro – cyfnewidfa drafnidiaeth gyhoeddus – a gymeradwywyd yn amodol 31/10/12 | 12/0375/NM – gweithredwyd | 2014/15 | Cam 1 wedi'i gwblhau 2014/15 a cham 2 wedi'i gwblhau yn 2015/16 | Cydgynllun Trafnidiaeth ar gyfer De-orllewin Cymru, tudalen 33 (blaenoriaeth 17).<br>Amseriad – cam 1 wedi'i gwblhau 2014/15 a cham 2 wedi'i gwblhau 2015/16.<br>Cyllid – Grant Cyllid Trafnidiaeth Leol 2014/15 ar gyfer gwaith adeiladu cam 1 a 2015/16 ar gyfer cam 2. Byddai cam 3 yn cwblhau cynllun cymeradwy 2012, ond nid oes ymrwymiad Grant o'r Gronfa Trafnidiaeth Leol[33]. |

## Gwelliannau i'r rhwydwaith rheilffyrdd

| Enw'r Safle | Ceisiadau a Gyflwynwyd | Caniatadau cyfredol (ar 01/04/14) | Dyddiad dechrau'r prosiect | Dyddiad Cwblhau'r Prosiect | Adran Nodiadau (mae newidiadau i wybodaeth yn y CDLl mewn print italig / wedi'u huwcholeuo) |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwelliant Gorsaf Reilffordd Clunderwen | Dim | Dim | 2013 | 2013 | Amseriad – gwelliannau mynediad wedi'u cwblhau 2013.<br>Cyllid – sicrhawyd cyllid y Cynllun Gwella Gorsafoedd Cenedlaethol ar gyfer gwelliannau mynediad ym mis Awst 2011. |

[33] Awst 2016

## Cynllunio parcio a theithio

| Enw'r Safle | Ceisiadau a Gyflwynwyd | Caniatadau cyfredol (ar 01/04/14) | Dyddiad dechrau'r prosiect | Dyddiad Cwblhau'r Prosiect | Adran Nodiadau (mae newidiadau i wybodaeth yn y CDLl mewn print italig / wedi'u huwcholeuo) |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynllun Parcio a Theithio Dinbych-y-pysgod (â goblygiadau posibl i leoliadau nad ydynt yn y Parc Cenedlaethol) | 04/0338/PA, 04/1453/PA a 04/1455/PA<br>Mae pob un o'r ceisiadau hyn yn cynnig parc busnes, siop fwyd a chyfleuster parcio a theithio ar dir sy'n cyd-ffinio â'r A478 yn New Hedges. Ni chafodd yr un ohonynt ganiatâd cynllunio. | Nid oedd yr un ohonynt yn ardal gynllunio CSP | Heb ei ddechrau | | Mae'n rhan o Brosiect Mynediad Cynaliadwy Dinbych-y-pysgod, sydd yn y Cydgynllun Trafnidiaeth ar gyfer De-orllewin Cymru, tudalen 33 (blaenoriaeth 22).<br>Amseriad – ansicr.<br>Cyllid – 'Astudiaeth o Fynediad Cynaliadwy i Ddinbych-y-pysgod' a gwblhawyd, 2012.<br>Dim ymrwymiad Grant o'r Gronfa Trafnidiaeth Leol ar hyn o bryd. |

## Cynlluniau priffyrdd wedi'u rhaglenni gan y Cyngor Sir

**(Lle nad ydynt wedi'u cynnwys fel arall)**

| **Cynlluniau a ddiogelwyd gan y CDLl** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r Safle** | **Ceisiadau a Gyflwynwyd** | **Caniatadau cyfredol (ar 01/04/14)** | **Dyddiad dechrau'r prosiect** | **Dyddiad Cwblhau'r Prosiect** | **Adran Nodiadau (mae newidiadau i wybodaeth yn y CDLl mewn print italig / wedi'u huwcholeuo)** |
| B.4318 Gumfreston i Wyriad a Gwelliant Dinbych-y-pysgod, Cam 3 | Dim | Dim | 2014/15 | Ebrill 2016 | Safle Ymgeisiol yn y CDLl, a gyflwynwyd gan Gyfarwyddiaeth Cludiant a'r Amgylchedd, CSP<br>Amseriad – arwyddion rhybuddion llifogydd a gwybodaeth awtomatig wedi'u cwblhau yn 2016 (yn lle gwelliant ffordd cymhleth).<br>Cyllid – gan CSP. |
| Ailalinio'r B.4320 yng Nghil-maen | Dim | Dim | Heb ei ddechrau | | Safle Ymgeisiol yn y CDLl, a gyflwynwyd gan Gyfarwyddiaeth Cludiant a'r Amgylchedd, CSP.<br>Amseriad – ansicr, ond yn debygol o fod o fewn cyfnod y CDLl.<br>Cyllid – dim ymrwymiad Grant o'r Gronfa Trafnidiaeth Leol ar gyfer 2016/17<br>Mae wedi'i restru fel un o uchelgeisiau'r Cydgynllun Trafnidiaeth sy'n annhebygol o gael ei gyflawni o fewn oes pum mlynedd y Cydgynllun Trafnidiaeth. Mae wedi'i gynnwys yn rhaglen tymor canolig i hirdymor y Cydgynllun Trafnidiaeth ar gyfer 202 i 2030, tudalen 39. |
| A.40 Stryd Fawr i A.487 West Street (ffordd gyswllt | Dim | Dim | Heb ei ddechrau | | Mae'r cynllun wedi'i gysylltu â gwaith adfywio ehangach i ganol y dref, gan gynnwys siop fwyd newydd. Mae'r cysyniad wedi'i gefnogi gan Lywodraeth Cymru (byddai'r |

| **Cynllluniau a ddiogelwyd gan y CDLl** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r Safle** | **Ceisiadau a Gyflwynwyd** | **Caniatadau cyfredol (ar 01/04/14)** | **Dyddiad dechrau'r prosiect** | **Dyddiad Cwblhau'r Prosiect** | **Adran Nodiadau (mae newidiadau i wybodaeth yn y CDLl mewn print italig / wedi'u huwcholeuo)** |
| 'Chimneys'), Abergwaun | | | | | ffordd wedi'i chwblhau yn dod yn rhan o'r rhwydwaith cefnffyrdd) i liniaru effeithiau'r briffordd yng nghanol Abergwaun.<br>Mae Gwelliannau Mynediad Canol Tref Abergwaun, gan gynnwys canolbwynt bysiau, wedi'u rhestru yn y Cydgynllun Trafnidiaeth ar gyfer De-orllewin Cymru, tudalen 32, fel cynllun CSP i'w gyflawni rhwng 2015 a 2020 (blaenoriaeth 2). Mae'r rhain yn elfennau posibl o waith ailddatblygu Safle Ysgol Canol y Dref.<br>Cyllid – Ymrwymiad Grant Cronfa Trafnidiaeth Leol 2016/17, gyda dyfarniad dangosol ar gyfer 2017/18, yn amodol ar gais llwyddiannus. Bwriedir i'r cynllun gael ei weithredu'n rhannol gan y gwaith datblygu (h.y. seilwaith galluogi sy'n gysylltiedig â'r siop), gyda gweddill y cyllid yn cael ei roi gan Lywodraeth Cymru. |
| Llwybr Cyd-ddefnyddio rhwng Hwlffordd ac Arberth | Dim | Dim | Heb ei ddechrau | | Darparu llwybr cerdded a beicio rhwng Hwlffordd ac Arberth, sy'n cysylltu â Llwybr 4 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn Hwlffordd, hefyd i Bluestone a Llwybr Sir Benfro[34].<br>Amseriad – bydd cynnydd yn dibynnu ar fynediad drwy Barc Slebets.<br>Cyllid – dim ymrwymiad Grant o'r Gronfa Trafnidiaeth Leol.<br>Mae wedi'i restru yn y Cydgynllun Trafnidiaeth fel cynllun CSP i'w gyflawni rhwng 2015 a 2020 (blaenoriaeth 7). |

[34] Gall y llwybr, mewn rhannau, redeg drwy leoliadau yn y Parc Cenedlaethol.

| **Cynlluniau a ddiogelwyd gan y CDLl** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r Safle** | **Ceisiadau a Gyflwynwyd** | **Caniatadau cyfredol (ar 01/04/14)** | **Dyddiad dechrau'r prosiect** | **Dyddiad Cwblhau'r Prosiect** | **Adran Nodiadau (mae newidiadau i wybodaeth yn y CDLl mewn print italig / wedi'u huwcholeuo)** |
| Prosiect Canol Tref Cynaliadwy Hwlffordd | Dim | Dim | Heb ei ddechrau | | Cynllun i wella mynediad cynaliadwy i Hwlffordd ac yng nghanol Hwlffordd, sy'n targedu prif safleoedd dechrau a chyrchfan, gwelliannau i amgylchedd y stryd a datblygu seilwaith sy'n cefnogi cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus.<br>Amseriad – ansicr.<br>Cyllid – mae cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Prosiect Canolfannau Teithio Cynaliadwy wedi dod i ben. Rhagwelir y caiff rhannau o'r prosiect hwn eu gweithredu drwy fentrau Teithio Llesol a phrosiect Uwchgynllun Hwlffordd seiliedig ar ddatblygu, y nodir manylion amdano isod. |

| **Cynlluniau nas diogelwyd gan y CDLl** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r Safle** | **Ceisiadau a Gyflwynwyd** | **Caniatadau cyfredol (ar 01/04/14)** | **Dyddiad dechrau'r prosiect** | **Dyddiad Cwblhau'r Prosiect** | **Adran Nodiadau (mae newidiadau i wybodaeth yn y CDLl mewn print italig / wedi'u huwcholeuo)** |
| Uwchgynllun Hwlffordd<br>(bu rhai agweddau ar y cynllun hwn yn rhan o Brosiect Canol Tref Cynaliadwy Hwlffordd gynt) | 12/0829/PA – tir i'r de o Slade Lane, Hwlffordd – adeiladu a gweithredu archfarchnad a gorsaf betrol, | 12/0829/PA | 2014/15 | Gwelliant Cyffordd Churnworks a Gwelliant Ffordd Sidney Rees wedi'u | 1. Agorwyd Gwelliant Cyffordd Churnworks ym mis Ebrill 2015. Ariannwyd y gwaith adeilad yn rhannol drwy gyfraniadau Adran 106 ac yn rhannol drwy Fenter Benthyca Llywodraeth Leol.<br>Mae'r agweddau canlynol ar y cynllun ar gam dylunio neu ddichonoldeb.<br>2. Cysylltiadau teithio llesol / llwybr cyd-ddefnyddio. |

| Cynlluniau nas diogelwyd gan y CDLl | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r Safle** | **Ceisiadau a Gyflwynwyd** | **Caniatadau cyfredol (ar 01/04/14)** | **Dyddiad dechrau'r prosiect** | **Dyddiad Cwblhau'r Prosiect** | **Adran Nodiadau (mae newidiadau i wybodaeth yn y CDLl mewn print italig / wedi'u huwcholeuo)** |
| | gyda gwaith tirlunio a seilwaith, gan gynnwys cyffyrdd newydd, gwelliannau i'r rhwydwaith priffyrdd lleol a chloddwaith paratoadol, a gymeradwywyd yn amodol 31/01/14<br>(mae'n cynnwys addasiadau arfaethedig i Ffordd Thomas Parry) | | | cwblhau 2014/15. Nid yw elfennau eraill wedi'u dechrau eto. | 3. Gwelliannau i gyrraedd / gadael yr Orsaf Fysiau (nad ydynt yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd).<br>4. Gwelliannau i gyffordd Mart Road.<br>5. Gwelliant i Gylchfan Sgwâr Bridgend (ailfodelu).<br>6. Gwella Canol y Drefn (Sgwâr Swan) a phrosiect mynediad (wedi'i raglennu ar gyfer haf 2016).<br>Mae eitemau 2 i 5 yn gysylltiedig.<br>7. Mae gwelliannau hefyd wedi'u cwblhau i Ffordd Sidney Rees, gan gynnwys tro ochr dde i mewn i Ysbyty Llwyhelyg.<br>Mae Uwchgynllun Hwlffordd (gan gynnwys Ansawdd Aer a Mynediad Cynaliadwy) wedi'i restru yn y Cydgynllun Trafnidiaeth fel cynllun CSP i'w gyflawni rhwng 2015 a 2020 (blaenoriaeth 5). |
| Cysylltiad llwybr cyd-ddefnyddio'r gogledd-orllewin i mewn i Hwlffordd (Pont Pelcomb i Groes Pelcomb a Chroes Simpson i'r Garn). | | | Heb ei ddechrau | | Mae cysylltiad llwybr cyd-ddefnyddio'r gogledd-orllewin i mewn i Hwlffordd (Pont Pelcomb i Groes Pelcomb a Chroes Simpson i'r Garn) wedi'i restru yn y Cydgynllun Trafnidiaeth fel cynllun CSP i'w gyflawni 2015 i 2020 (blaenoriaeth 7). |

| **Cynlluniau nas diogelwyd gan y CDLl** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r Safle** | **Ceisiadau a Gyflwynwyd** | **Caniatadau cyfredol (ar 01/04/14)** | **Dyddiad dechrau'r prosiect** | **Dyddiad Cwblhau'r Prosiect** | **Adran Nodiadau (mae newidiadau i wybodaeth yn y CDLl mewn print italig / wedi'u huwcholeuo)** |
| Cwblhau'r llwybr beicio o Aberdaugleddau i Johnston ac i Lanismel a Dale. | | | Dechreuwyd ar un elfen yn 2015/16 | Cwblhawyd un elfen yn 2015/16 | Mae'r cynnig i gwblhau'r llwybr beicio o Aberdaugleddau i Johnston ac i Lanismel a Dale wedi'i restru yn y Cydgynllun Trafnidiaeth fel cynllun CSP i'w gyflawni rhwng 2015 a 2020 (blaenoriaeth 7).<br>Cwblhawyd Llwybr Cyd-ddefnyddio newydd sy'n cysylltu â Johnston (Llwybr 3 y Rhwydweithio Beicio Cenedlaethol) i Bulford Road a Tiers Cross ym mis Mawrth 2016.<br>Efallai y bydd Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru yn ymgymryd ag elfennau o gynllun Aberdaugleddau i Johnston.<br>Yn rhannol yn y Parc Cenedlaethol. |
| Llwybr cyd-ddefnyddio rhwng Abergwaun a Llanerch-aur. | | | Heb ei ddechrau | | Mae'r llwybr cyd-ddefnyddio rhwng Abergwaun a Llanerch-aur wedi'i restru yn y Cydgynllun Trafnidiaeth fel cynllun CSP i'w gyflawni rhwng 2015 a 2020 (blaenoriaeth 7).<br>Sicrhawyd grant o Gronfa Trafnidiaeth Leol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015/16, a ariannwyd y gwaith o gwblhau astudiaeth ddichonoldeb o lwybr cyd-ddefnyddio.<br>Mae'r llwybr yn rhannol o fewn ffiniau Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro. |
| Llwybr cyd-ddefnyddio rhwng Abergwaun a Threletert (cam 2). | | | Heb ei ddechrau | | Mae llwybr cyd-ddefnyddio rhwng Abergwaun a Threletert (cam 2) wedi'i restru yn y Cydgynllun Trafnidiaeth fel cynllun CSP i'w gyflawni rhwng 2015 a 2020 (blaenoriaeth 7).<br>Efallai y bydd Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru yn ymgymryd ag elfennau o'r cynllun. |

| Cynlluniau nas diogelwyd gan y CDLl | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r Safle** | **Ceisiadau a Gyflwynwyd** | **Caniatadau cyfredol (ar 01/04/14)** | **Dyddiad dechrau'r prosiect** | **Dyddiad Cwblhau'r Prosiect** | **Adran Nodiadau (mae newidiadau i wybodaeth yn y CDLl mewn print italig / wedi'u huwcholeuo)** |
| Llwybr cyd-ddefnyddio rhwng Doc Penfro a Milton. | | | Cyn i'r CDLl gael ei fabwysiadu. | Strawberry Lane i Slade Cross wedi'i gwblhau yn 2014/15. Cwblhawyd elfennau eraill gan Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru. | Cafodd rhai adrannau eu cwblhau cyn i'r CDLl gael ei fabwysiadu. Cwblhawyd rhan arall o Strawberry Lane i Slade Cross yn 2014/15.<br>Mae'r llwybr cyd-ddefnyddio rhwng Doc Penfro a Milton wedi'i restru yn y Cydgynllun Trafnidiaeth fel cynllun CSP i'w gyflawni rhwng 2015 a 2020 (blaenoriaeth 7).<br>Efallai y bydd Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru yn ymgymryd ag elfennau o'r cynllun Llwybr Cyd-ddefnyddio. |
| Cynllun Datblygu Harbwr Abergwaun. | | | Heb ei ddechrau | | Mae Cynllun Datblygu Harbwr Abergwaun wedi'i restru yn y Cydgynllun Trafnidiaeth fel cynllun CSP i'w gyflawni rhwng 2015 a 2020 (blaenoriaeth 19). |
| Estyniad i Faes Awyr Hwlffordd | | | Heb ei ddechrau | | Mae Estyniad i Faes Awyr Hwlffordd wedi'i restru yn y Cydgynllun Trafnidiaeth fel cynllun CSP i'w gyflawni rhwng 2015 a 2020 (blaenoriaeth 20). |
| Rhwydwaith Dosbarthu Gogleddol – cam 2 | | | Heb ei ddechrau | | Mae'r Rhwydwaith Dosbarthu Gogleddol – cam 2 – wedi'i restru fel un o'r uchelgeisiau'r Cydgynllun Trafnidiaeth (tudalen 39) sy'n annhebygol o gael ei gyflawni o fewn oes 5 mlynedd y Cydgynllun Trafnidiaeth. Bydd y prosiect yn gwella mynediad a chysylltedd tuag at ardloedd South Hook a Waterston. Bydd y prosiect hwn yn ategu cynllun Ffordd Bulford rhwng Johnston a Tiers Cross a gwblhawyd yn |

| **Cynlluniau nas diogelwyd gan y CDLl** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r Safle** | **Ceisiadau a Gyflwynwyd** | **Caniatadau cyfredol (ar 01/04/14)** | **Dyddiad dechrau'r prosiect** | **Dyddiad Cwblhau'r Prosiect** | **Adran Nodiadau (mae newidiadau i wybodaeth yn y CDLl mewn print italig / wedi'u huwcholeuo)** |
| | | | | | ddiweddar. Bydd hefyd yn ceisio lleihau cyfyngiadau ar y rhwydwaith priffyrdd yn Johnston a Merlins Bridge. |
| Ffordd Osgoi Ogleddol Hwlffordd | | | Heb ei dechrau | | Mae Ffordd Osgoi Ogleddol Hwlffordd – wedi'i rhestru fel un o'r uchelgeisiau'r Cydgynllun Trafnidiaeth (tudalen 39) sy'n annhebygol o gael ei gyflawni o fewn oes 5 mlynedd y Cydgynllun Trafnidiaeth. |
| Cysylltiadau Cymunedol Cardi-Bach – cerdded a beicio | | | Heb eu dechrau | | Mae Cysylltiadau Cymunedol Cardi-Bach – cerdded a beicio – wedi'u rhestru fel un o uchelgeisiau tymor canolig i hirdymor y Cydgynllun Trafnidiaeth (tudalen 40) sy'n annhebygol o gael ei gyflawni o fewn oes 5 mlynedd y Cydgynllun Trafnidiaeth. Mae coridor llwybr hen reilffordd y Cardi-Bach yn rhedeg yn rhannol drwy ddwyrain a gogledd-ddwyrain sir Benfro. |
| Llwybr cyd-ddefnyddio rhwng Abergwaun a Threletert (cam 3) | | | Heb ei ddechrau | | Mae llwybr cyd-ddefnyddio rhwng Abergwaun a Threletert (cam 3) wedi'i restru fel un o uchelgeisiau tymor canolig i hirdymor y Cydgynllun Trafnidiaeth (tudalen 40) sy'n annhebygol o gael ei gyflawni o fewn oes 5 mlynedd y Cydgynllun Trafnidiaeth.<br>Efallai y bydd Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru yn ymgymryd ag elfennau o'r cynllun. |
| Llwybr cyd-ddefnyddio rhwng Treletert a Maenclochog | | | Heb ei ddechrau | | Mae llwybr cyd-ddefnyddio rhwng Treletert a Maenclochog wedi'i restru fel un o uchelgeisiau tymor canolig i hirdymor y Cydgynllun Trafnidiaeth (tudalen 40) sy'n annhebygol o gael ei gyflawni o fewn oes 5 mlynedd y Cydgynllun Trafnidiaeth. |

| **Cynlluniau nas diogelwyd gan y CDLl** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r Safle** | **Ceisiadau a Gyflwynwyd** | **Caniatadau cyfredol (ar 01/04/14)** | **Dyddiad dechrau'r prosiect** | **Dyddiad Cwblhau'r Prosiect** | **Adran Nodiadau (mae newidiadau i wybodaeth yn y CDLl mewn print italig / wedi'u huwcholeuo)** |
| Llwybr cyd-ddefnyddio rhwng Freystrop a Hook a Llangwm | | | Heb ei ddechrau | | Mae llwybr cyd-ddefnyddio rhwng Freystrop a Hook a Llangwm wedi'i restru fel un o uchelgeisiau tymor canolig i hirdymor y Cydgynllun Trafnidiaeth (tudalen 40) sy'n annhebygol o gael ei gyflawni o fewn oes 5 mlynedd y Cydgynllun Trafnidiaeth. |

<u>Mentrau / cynlluniau cyffredinol:</u>

- Mae pecyn Diogelwch ar y Ffyrdd a Llwybrau Diogel mewn Cymunedau (Sir Benfro) wedi'i restru yn y Cydgynllun Trafnidiaeth fel menter CSP i'w chyflawni rhwng 2015 a 2020 (blaenoriaeth 1).
- Mae Cynlluniau'r Ddeddf Teithio Llesol (cynlluniau i'w llunio drwy brosesau ymgynghori yn Abergwaun a Wdig, Hwlffordd, Arberth, Johnston, Aberdaugleddau, Neyland, Penfro, Doc Penfro, Dinbych-y-pysgod (Parc Cenedlaethol), Saundersfoot (Parc Cenedlaethol) a Llandudoch) wedi'u rhestru yn y Cydgynllun Trafnidiaeth fel menter CSP i'w chyflawni rhwng 2015 a 2020 (blaenoriaeth 5).
- Mae Cynlluniau'r Ddeddf Teithio Llesol -parhau i ddatblygu cynlluniau wedi'u lunio drwy broses ymgynghori yn Abergwaun a Wdig, Hwlffordd, Arberth, Johnston, Aberdaugleddau, Neyland, Penfro, Doc Penfro, Dinbych-y-pysgod (yn y Parc Cenedlaethol), Saundersfoot (yn y Parc Cenedlaethol) a Llandudoch wedi'u rhestru yn y Cydgynllun Trafnidiaeth fel un o uchelgeisiau'r Cydgynllun Trafnidiaeth sy'n annhebygol o gael ei gyflawni o fewn oes 5 mlynedd y Cydgynllun Trafnidiaeth.
- Mae gwelliannau coridor bws strategol sir Benfro wedi'u rhestru yn y Cydgynllun Trafnidiaeth fel menter CSP i'w chyflawni rhwng 2015 a 2020 (blaenoriaeth 15).

- Mae Gwelliannau Mynediad i Orsafoedd Rheilffordd wedi’u rhestru yn y Cydgynllun Trafnidiaeth fel menter CSP i’w chyflawni rhwng 2015 a 2020 (blaenoriaeth 18).
- Mae Gwelliannau Mynediad i Orsafoedd Rheilffordd – Cynnydd parhaus o ran gwelliannau mynediad cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus – wedi’u rhestru fel un o uchelgeisiau’r Cydgynllun Trafnidiaeth sy’n annhebygol o gael ei gyflawni o fewn oes 5 mlynedd y Cydgynllun Trafnidiaeth.

# Atodiad 3 – Fframwaith Monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd

**Methodoleg**

Er mwyn asesu perfformiad y cynllun o ran cynaliadwyedd, mae Amcanion a Dangosyddion yr AoG wedi cael eu categoreiddio yn unol â'r cynnydd tuag at Amcanion yr AoG ac mae'r data perthnasol wedi cael eu hadolygu. Mae AMB y CDLl yn monitro polisïau a nodwyd yn Atodiad 5 i'r CDLl. Mae'r polisïau hyn yn ystyriaethau allweddol er mwyn gwireddu'r strategaeth a chyflawni'r amcanion strategol.

Mae'r tabl yn yr Atodiad hwn yn ymhelaethu ar yr asesiad o berfformiad y Cynllun yn erbyn Amcanion yr AoG. Fel yn yr AMB blaenorol, mae data ansoddol a meintiol ar gyfer Amcanion yr AoG wedi cael eu defnyddio gyda sylwadaeth yn disgrifio cynnydd. Mae'r tabl hefyd yn nodi a oes unrhyw gamau gweithredu ar gyfer monitro'r AoG wedi cael eu cynnig. Defnyddiwyd system goleuadau traffig i ddangos perfformiad cyffredinol Amcanon yr AoG yn y tabl ym Mhennod 4.

Gwyrdd (G) - cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud, amcanion yn cael eu cyflawni

Oren (O) – nid yw amcanion yn cael eu cyflawni, dim pryderon

Coch (C) – Amcanion heb eu cyflawni, pryderon ynglŷn ag amcanion/polisi.

| Amcanion yr AoG | Dangosyddion posibl yr AoG | Data | Sylwadaeth |
|---|---|---|---|
| 1. Datblygu a chynnal strwythur poblogaeth cytbwys | • % y boblogaeth 65+ | Data cyfrifiad 2011:<br>% poblogaeth sir Benfro 65 oed a hŷn = 21.8% o gymharu â 18.4% yng Nghymru (SYG, 2011)<br>19.2% yn sir Benfro a 17.39% yng Nghymru yn 2001 (SYG, 2001). Data'r cyfrifiad heb eu newid. | Mae Cyfrifiad 2011 wedi datgelu bod canran y boblogaeth dros 65 oed wedi cynyddu 2% mewn 10 mlynedd.<br>Nid yw'r CDLl yn cael dylanwad uniongyrchol ar strwythur y boblogaeth. Mae'r CDLl yn darparu ar gyfer tai a mynediad at gyflogaeth o ansawdd da a allai gydbwyso poblogaeth sir Benfro sy'n heneiddio.<br>Cam Gweithredu: Parhau i fonitro Amcan yr AoG |
| 2. Hyrwyddo iechyd a llesiant pobl drwy ffordd o fyw iach a mynediad at ofal iechyd a chyfleoedd hamdden ac amgylchedd glân ac iach. | • Mynediad at wasanaethau allweddol<br>• Cyfanswm nifer y bobl a gafodd eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol y flwyddyn<br>• Salwch hirdymor<br>• Hygyrchedd mannau gwyrdd lled-naturiol | Sir Benfro sydd â'r drydedd ganran fwyaf o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn y 10% mwyaf difreintiedig o ardaloedd ar gyfer y parth Mynediad, yn seiliedig ar fynediad at wasanaethau allweddol ar y bws a/neu ar droed (Asesiad Anghenion Sengl Sir Benfro, 2012).<br>Nifer y bobl a gafodd eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol mewn damweiniau traffig ar y ffordd 2015 = 61 (54 yn 2013, 60 yn 2014), o gymharu â (1,144 yn 2013, 1,263 yn 2014) yng Nghymru ar gyfer yr un cyfnod (Ystadegau Llywodraeth | Sir Benfro sydd â'r drydedd ganran fwyaf o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn y 10% mwyaf difreintiedig o ardaloedd ar gyfer y parth Mynediad, yn seiliedig ar fynediad at wasanaethau allweddol ar y bws a/neu ar droed (Asesiad Anghenion Sengl Sir Benfro, 2012).<br>Mae nifer y bobl a gafodd eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol mewn damweiniau traffig ar y ffyrdd yn sir Benfro yn 2013 wedi cynyddu ers yr AMB diwethaf, sy'n adlewyrchu cynnydd ledled Cymru (Ystadegau Llywodraeth Cymru, 2015).<br>Mae 16% o bobl yn sir Benfro yn nodi eu bod wedi'u cyfyngu llawer gan broblem iechyd/anabledd (15% yng Nghymru) (Arolwg Iechyd Cymru, 2015).<br>Mae 20% o bobl yn nodi bod eu hiechyd cyffredinol yn eithaf da/yn wael yn sir Benfro a 19% yng Nghymru (Arolwg Iechyd Cymru, 2015).<br>Mae 41.14 hectar o dir maes glas, heb ei neilltuo yn y Cynllun, wedi'i golli i ddatblygiadau. Mae ardal y tir maes glas y caniateir ei ddatblygu nad yw wedi'i neilltuo fel arall dipyn yn is nag mewn blynyddoedd blaenorol, ond |

| Amcanion yr AoG | Dangosyddion posibl yr AoG | Data | Sylwadaeth |
|---|---|---|---|
| | | Cymru, 2015).<br>Wedi'u cyfyngu llawer gan broblem iechyd/anabledd = 16% yn sir Benfro (15% yn 2011/12, 16% yng Nghymru yn 2012 a 15% yn 2014+15) (Arolwg Iechyd Cymru, 2014+15).<br>Iechyd cyffredinol yn weddol/yn wael 20% yn sir Benfro (o gymharu â 19% yn 11/12), 19% yng Nghymru (Arolwg Iechyd Cymru 2014/15). | mae'n dal i fod yn uwch na'r targed o 0 hectar. Mae llawer o resymau dros y gostyngiad mewn datblygiadau maes glas, ond gellir ei briodoli'n bennaf i'r lleihad sylweddol yn nifer y ceisiadau ynni adnewyddadwy. Mae cynigion a gafodd ganiatâd ar dir maes glas nas neilltuwyd yn cynnwys amrywiaeth o ddefnyddiau megis y rhai sy'n ymwneud â defnyddiau amaethyddiaeth a marchogaeth (siediau, lagynau slyri a thraciau amaethyddol), gydag arwynebedd bach yn cael caniatâd ar gyfer defnydd preswyl (er enghraifft, ar safleoedd eithriedig ac anheddau gweithwyr menter wledig). Cynigion datblygu bach eu heffaith a rhai cynigion twristiaeth sy'n gofyn am leoliad cefn gwlad. Bydd yr Awdurdod yn parhau i fonitro'r maes hwn.<br><br>Mae'r CDLl yn cyfeirio datblygiadau tuag at aneddiadau gydag amrywiaeth briodol o gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol. Mae polisi GN.3 ynghyd â'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar Rwymedigaethau Cynllunio yn darparu ar gyfer cyllid seilwaith ar gyfer mannau agored lle y bo'n briodol.<br>Cam Gweithredu: Parhau i fonitro Amcan yr AoG |
| 3. Gwella cyfleoedd addysg i wella'r sgiliau a'r sylfaen wybodaeth | • Cyfran y bobl ifanc 15/16 oed gyda throthwy Lefel 2 (5+ TGAU gradd A*-C)<br>• % yr oedolion | 83% o bobl ifanc 15/16 oed gyda Throthwy Lefel 2 yn sir Benfro yn 2014/15, o gymharu â 84.1% yng Nghymru (78.1% yn sir Benfro, 77.8% yng Nghymru yn 2012/13) (StatsCymru, 2016).<br>11.0% o oedolion (16-64) heb | Mae nifer y bobl ifanc 15/16 oed sydd â chymwysterau Trothwy Lefel 2 yn is na ffigur Cymru (StatsCymru, 2016) ac mae canran yr oedolion heb gymwysterau wedi gostwng ers 2004 (Norris, 2015) ond mae'n dal i fod yn is na ffigur Cymru (11% yn sir Benfro a 10.5% yng Nghymru yn 2015, a 15.9% yn sir Benfro yn 2004).<br>Nid yw'r Amcan hwn yn yr AoG yn ymwneud yn uniongyrchol â pholisi defnydd tir ond mae'r CDLl yn cyfrannu drwy ganolbwyntio datblygiadau mewn aneddiadau lle mae gwasanaethau a chyfleusterau yn bodoli |

| Amcanion yr AoG | Dangosyddion posibl yr AoG | Data | Sylwadaeth |
|---|---|---|---|
| | o oedran gweithio heb gymwysterau | gymwysterau yn sir Benfro yn 2015 (13.8% ym mis Rhagfyr 2013, 11% yn 2014), mae hyn wedi gostwng ers 2004 pan gafwyd canran o 15.9%. 10.5% yng Nghymru yn 2015 (10.0% yn 2014, 10.6% yn 2013) (Nomis, 2015). | eisoes, gan gynnwys cyfleusterau addysg a mynediad at gyflogaeth o ansawdd da. Mae'r CDLl hefyd yn nodi dyraniadau defnydd tir ar gyfer cyfleusterau cymunedol, gan gynnwys addysg.<br>Mae'r CDLl hefyd yn nodi tir ar gyfer cyfleusterau addysgol fel dyraniadau (GN.33 Cyfleusterau Cymunedol).<br>Mae diffyg darpariaeth addysg uwch sylweddol yn y Sir yn debygol o effeithio ar y ffigurau hyn.<br>Cam Gweithredu: Parhau i fonitro Amcan yr AoG |
| 4. Lleihau'r angen i deithio i'r eithaf ac annog dulliau trafnidiaeth cynaliadwy | • Dull teithio i'r gwaith, % sy'n teithio i'r gwaith yn y car<br>• Teithiau ar drafnidiaeth gyhoeddus<br>• Hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus<br>• Cyswllt â mesurau monitro'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol | Mae nifer y bobl sy'n teithio i'r gwaith yn y car yn sir Benfro wedi cynyddu o 57.45% yn 2001 i 60.96% yn 2011 (Cyfrifiad, 2011). Trên = 0.47%, Bws = 2.88, ar droed = 9.38%<br>Bu cynnydd yng Nghymru o 61.23% i 63.77% rhwng 2001 a 2011.<br>Canran y bobl sy'n gweithio gartref yn 2001 yn sir Benfro = 16.43% (9.72% yng Nghymru), o gymharu â 17.72% yn 2011 (10.64% yng Nghymru) (Cyfrifiad, 2011).<br>Mae patrymau teithio (2015) yn nodi mai teithiau i'r gwaith sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o | Mae nifer y bobl sy'n teithio i'r gwaith yn y car yn sir Benfro wedi cynyddu o 57.45% yn 2001 i 60.96% yn 2011 (Cyfrifiad, 2011). Yng Nghymru mae hyn wedi cynyddu o 61.3% yn 2001 i 63.77% yn 2011. Nid oes unrhyw ddata wedi'u diweddaru ar gyfer 2015/16.<br>Mae canran y bobl sy'n gweithio gartref neu gartref yn bennaf wedi cynyddu ac mae dros 6% na chyfartaledd Cymru erbyn hyn.<br>Cynyddodd y defnydd o orsafoedd yng ngorsafoedd rheilffordd Cilgeti a Johnston 12.1% a 11.4% yn y drefn honno rhwng 2011/12 a 2012/3 (Dinas-ranbarthau Bae Abertawe, 2014). Ailagorodd gorsaf Reilffordd Wdig yn 2012. Cynyddodd nifer y defnyddwyr gorsaf ers 2011/12 (Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd, 2016).<br>Mae'r CDLl yn canolbwyntio datblygiadau mewn aneddiadau lle mae gwasanaethau a chyfleusterau yn bodoli eisoes. Ond oherwydd natur wledig y Sir, derbynnir y bydd nifer uchel o bobl yn defnyddio ceir i deithio i'r gwaith.<br>Cam Gweithredu: parhau i fonitro Amcan yr AoG |

| Amcanion yr AoG | Dangosyddion posibl yr AoG | Data | Sylwadaeth |
|---|---|---|---|
| | | deithiau yn y car (Cydgynllun Trafnidiaeth ar gyfer De-orllewin Cymru, 2015).<br>Cynyddodd y defnydd o orsafoedd yng ngorsafoedd rheilffordd Cilgeti a Johnston 12.1% a 11.4% yn y drefn honno rhwng 2011/12 a 2012/3 (Dinas-ranbarthau Bae Abertawe, 2014). Bu cynnydd yn nifer y teithwyr yng Ngorsafoedd Abergwaun / Wdig, Johnston a Chilgeti (Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd, 2016). | |
| 5. Darparu amrywiaeth o dai o safon uchel, gan gynnwys tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol.<br>6. Creu cymunedau diogel, bywiog a chydlynol sydd â mynediad gwell at | • Cyflenwad tir ar gyfer tai<br>• Faint o dai fforddiadwy a ddarperir<br>• Mynediad at wasanaethau allweddol<br>• Troseddau fesul 1,000 o'r | 5.3 mlynedd o gyflenwad tir ar gyfer tai 14-15<br>Tai fforddiadwy a gafodd ganiatâd cynllunio (Ebrill2015-Mawrth 2016): 119<br>Cyfanswm nifer yr anheddau a adeiladwyd 2015/2016 = 405<br>(Arolwg Tai 2014-2015)<br>74 o gartrefi fforddiadwy a ddarparwyd drwy rwymedigaethau cynllunio. | Roedd gan y CDLl 5.0 o gyflenwad tir ar gyfer tai (2014-2015, y Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai), 5.3 yn 2013-14, 4.9 yn 2012-13 (Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2013-14). Mae'r ffigurau ar gyfer 2015/16 wrthi'n cael eu hystyried gan y grŵp astudio.<br>Cwblhawyd 405 o anheddau rhwng mis Mawrth 2014 a mis Ebrill 2015 (Arolwg Tai 2014-2015), o gymharu â 459 yn 2013-2014 a 588 yn 2014-15.<br>Cafodd 119 o dai fforddiadwy ganiatâd cynllunio o gymharu â 323 yn 2013/14 a 265 yn 14-15. Darparwyd 74 o'r rhain drwy rwymedigaethau cynllunio, o gymharu â 232 yn 2013/14 a 220 yn 14-15.<br>26 o leiniau wedi'u caniatáu ers Asesiad 2010 o Anghenion Llety Sipsiwn |

| Amcanion yr AoG | Dangosyddion posibl yr AoG | Data | Sylwadaeth |
|---|---|---|---|
| wasanaethau a chyfleusterau allweddol.<br>7. Diogelu a gwella rôl y Gymraeg a diwylliant Cymru. | boblogaeth<br>• % y bobl sy'n siaradwyr Cymraeg | 38 o droseddau fesul 1,000 o'r boblogaeth yn 2014/15 yn sir Benfro (64.07 yn 2003/04). 57.35 yng Nghymru yn 2012/13 a 98.97 yn 2003/04 (SYG, 2015).<br>Mae 19.2% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg o gymharu ag 21.8% yn 2001 (Cyfrifiad, 2001 a 2011). | a Theithwyr. 1 safle preifat wedi'i ganiatáu 2015-2016 (5 llain – 15/0657/PA) ac un estyniad wedi'i ganiatáu i safle preifat sy'n bodoli eisoes (2 lain ychwanegol -14/0448/PA). Nid yw'r targed o 40 o leiniau erbyn diwedd 2015 wedi'i gyflawni felly mae angen ymchwiliad pellach.<br>Cyfradd troseddau sir Benfro oedd 40.68 (troseddau fesul mil o drigolion) ar ddiwedd mis Mawrth 2016. Cafwyd 38 o brif droseddau fesul 1,000 o'r boblogaeth yn 2014-15 o gymharu â 36.98 yn 2012/13 yn sir Benfro (64.07 yn 2003/04) sy'n cymharu â 57.35 yng Nghymru yn 2012/13 a 98.97 yn 2003/04 (SYG, 2015).<br>Mae 19.2% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg o gymharu ag 21.8% yn 2001 (Cyfrifiad, 2001 a 2011). Er bod hyn yn ostyngiad, mae'n dilyn y duedd genedlaethol.<br>Ni all y CDLl ddylanwadu ar gyfraddau troseddau; fodd bynnag mae'r CDLl yn ceisio gwella diogelwch cymunedol drwy ddyluniad. Mae'r agwedd hon yn anodd i'w monitro.<br>Caiff nifer a chanran y caniatadau cynllunio tai ar y lefelau gwahanol o'r hierarchaeth o aneddiadau eu monitro ar gyfer yr AMB, a chaiff lefel gwasanaethau ei monitro wrth adolygu'r Cynllun (2017). Mae'r CDLl yn canolbwyntio datblygiadau mewn aneddiadau lle mae gwasanaethau a chyfleusterau yn bodoli eisoes.<br>Mae'r CDLl yn darparu ar gyfer tai (gan gynnwys tai fforddiadwy) mewn cymunedau lleol lle mae'r Gymraeg yn chwarae rôl sylweddol. Gall hyn gael ei asesu'n fanylach ar adeg adolygu'r Cynllun. Mae'r CDLl wedi ystyried y Gymraeg o ran datblygu fesul cam ac mae Polisi SP 9 yn caniatáu ystyried y Gymraeg ymhellach.<br>Cam Gweithredu: parhau i fonitro Amcanion yr AoG a'u hasesu wrth adolygu'r Cynllun. |

| Amcanion yr AoG | Dangosyddion posibl yr AoG | Data | Sylwadaeth |
|---|---|---|---|
| | | | |
| 8. Rhoi amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth o ansawdd da sy'n hygyrch i bob rhan o'r boblogaeth.<br><br>9. Cefnogi economi leol gynaliadwy ac amrywiol | • Nifer yr hawlwyr ymhlith y boblogaeth o oedran gweithio (%)<br>• % o weithgarwch economaidd fesul sector<br>• Nifer neu % yr arwynebedd gwag yng Nghanol Trefi<br>• Caniatadau cynllunio ar gyfer datblygiadau twristiaeth/datblygiadau cyflogaeth y flwyddyn. | Cyfradd gweithgarwch economaidd ymhlith y rhai 16-64 oed yn sir Benfro (ffigurau ar gyfer Cymru mewn cromfachau):<br>72.6% yn 04/05 (72.8%)<br>75.2% yn 13/14 (75.3%)<br>77.6% yn 14/15 (74.4%)<br>75.6% yn 15/16 (75.3%)<br>GYG y pen ardal De-orllewin Cymru = £15,750 yn 2014, ffigur dros dro<br>(£17,573 y pen yng Nghymru, diwygiedig) (StatsCymru, 2016).<br>Datblygiadau canol trefi = 0% gyda 1,254 metr sgwâr wedi'i ganiatáu y tu allan i ganol trefi.<br>Arwynebedd – datblygiadau manwerthu:<br>100%<br>Newid presenoldeb defnyddiau A1<br>Llai na'r targed yng Nghanol y Trefi canlynol: | Y gyfradd gweithgarwch economaidd ymhlith pobl 16-64 oed yn sir Benfro (ffigurau ar gyfer Cymru mewn cromfachau) oedd 72.6% yn 04/05 (72.8%) a 77.6% yn 14/15 (74.4%) a 75.6% yn 15/16 (75.3% yng Nghymru) (Nomis, 2016).<br>Y GYG y pen yn ardal de-orllewin Cymru oedd £15,750 y pen yn 2014 (dros dro), £15,128 yn 2013 (£17,573 y pen yng Nghymru, dros dro, £17,215 yn 2013) (StatsCymru, 2016).<br>Nid oes caniatâd eto ar safle Cyflogaeth Strategol Blackbridge. Mae tir yn Waterston a Blackbridge wedi cael ei werthu i ddatblygwr. Parhau i fonitro.<br>Cafwyd 0% o ddatblygiadau manwerthu, swyddfeydd a hamdden a ganiatawyd yng nghanol trefi (1,254 metr sgwâr (net) a ganiatawyd y tu allan i ganol trefi).<br>Lefel yr arwynebedd datblygiadau manwerthu a ganiatawyd y tu allan i ganol trefi ac eithrio cynlluniau sy'n dod o dan Bolisi GN.15 Manwerthu ar Raddfa Fach neu GN.10 (siop fferm) = 100%.<br>Y newid ym mhresenoldeb defnyddiau A1 (nifer yr unedau ac arwynebedd) mewn ffryntiadau manwerthu cynradd llai na'r targed (mae <66% o'r ffryntiad llinol yn ddosbarth defnydd A1) yng nghanol trefi Abergwaun, Arberth a Phenfro.<br>Canran yr unedau gwag llawr gwaelod yng nghanol pob Tref (o fewn ffin y CDLl a nodwyd):<br>Hwlffordd = 18% (17% yn 2015, 9% yn 2014)<br>Doc Penfro = 19% (15% yn 2015, 10% yn 2014)<br>Aberdaugleddau = 18% (21% yn 2015, 14% yn 2014) |

| Amcanion yr AoG | Dangosyddion posibl yr AoG | Data | Sylwadaeth |
|---|---|---|---|
| | | Abergwaun<br>Arberth<br>Penfro<br>Canran yr unedau gwag llawr gwaelod yng Nghanol pob Tref (o fewn ffin y CDLl a nodwyd).<br>Hwlffordd = 18%<br>Doc Penfro = 19%<br>Aberdaugleddau = 18%<br>Penfro = 7%<br>Abergwaun = 16%<br>Arberth = 2%<br>Ceisiadau sy'n ymwneud â thwristiaeth a ganiatawyd = 30 (2015/16) (16 yn 2014-15) | Penfro = 7% (6% yn 2015, 9% yn 2014)<br>Abergwaun = 16% (9% yn 2015, 10% yn 2014)<br>Arberth = 2% (2% yn 2015, 4% yn 2014)<br>Mae'r ffigurau ar gyfer Hwlffordd, Doc Penfro ac Aberdaugleddau wedi cyrraedd y trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach gan fod y ganran dros 5% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (12.5%, Ionawr 2016).<br>Tir cyflogaeth newydd a ddatblygwyd (hectarau/metr sgwâr) = 1159.61 hectar (2011), 1154.11 hectar (2013-14), 21.8 hectar (2014-15). Cyflwynwyd methodoleg newydd ar gyfer gwaith yr arolwg o safleoedd cyflogaeth yn 2015.<br>Tir gwag 2013: 193 hectar (1,925,000 ms).<br>Tir gwag 2015: 316 hectar (3,167,205 ms).<br>Defnydd swyddfeydd: 0.08 hectar (758 metr sgwâr) defnydd A2 ynghyd â chyfran fach o'r 11.96 hectar (119,593 metr sgwâr) ar gyfer defnydd B1.<br>Ni chymeradwywyd unrhyw geisiadau yn groes i'r polisïau ynglŷn â thwristiaeth (SP5, GN.16 & GN.17, GN.18 a GN.19, gan gynnwys mewn apeliadau).<br>Cymeradwywyd cyfanswm o 30 o geisiadau a oedd yn ymwneud â thwristiaeth yn ystod y cyfnod monitro.<br>Mae'r amrywiaeth o ganiatadau twristiaeth a roddwyd ochr yn ochr â'r dystiolaeth o gydymffurfiaeth â pholisïau (gweler y prif AMB) yn awgrymu bod polisïau'r Cynllun yn caniatáu i amrywiaeth o ddatblygiadau twristiaeth priodol fynd rhagddynt o dan strategaeth y CDLl.<br>Mae rheolaeth a dylanwad y CDLl ar y cyd-destun economaidd ehangach y mae'r Cynllun yn gweithredu oddi mewn iddo yn gyfyngedig iawn.<br>Mae nifer o fentrau eraill gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill yn mynd |

| Amcanion yr AoG | Dangosyddion posibl yr AoG | Data | Sylwadaeth |
|---|---|---|---|
| | | | rhagddynt i gefnogi adfywio yn y Sir, er enghraifft uwchgynlluniau ar gyfer trefi penodol (Hwlffordd), datblygiad defnydd cymysg ym marina Aberdaugleddau.<br>Mae cyfyngiadau ar gyfer GYG y pen gan fod hyn ar gyfer ardal de-orllewin Cymru.<br>Cam Gweithredu: parhau i fonitro Amcanion yr AoG a hefyd fonitro caniatadau datblygiadau twristiaeth, datblygiadau manwerthu canol trefi a safleoedd cyflogaeth strategol. |
| 10. Paratoi ar gyfer cyfraniad sir Benfro at newid yn yr hinsawdd a lleihau ei effaith. | • Allyriadau $CO_2$ o stoc gyhoeddus annomestig<br>• Ôl troed ecolegol | Cyfanswm yr allyriadau $CO_2$ yn 2014 = 1,036 Kt (naei.defra.gov.uk, 2016)<br>Ôl troed ecolegol 4.5 hectar byd-eang/ person (2006), Cymru = 4.4 hectar byd-eang / person (2006) (StatsCymru, 2014), 3.28 hectar byd-eang y pen yn 2011 (www.gov.wales, WG, 2015) dim diweddariadau | Cyfanswm yr allyriadau $CO_2$ yn 2013 oedd 1,146 Kt (2011 = 1,166 Kt yn sir Benfro, Cymru = 29,096Kt) (Assemblywales.org).<br>Ôl troed ecolegol 4.5 hectar byd-eang y person yn sir Benfro (2006), Cymru = 4.4 hectar byd-eang y person yn 2006 (StatsCymru, 2014). Ôl troed ecolegol Cymru yn 2011 oedd 3.28 hectar byd-eang y pen (Ôl troed Ecolegol a Charbon Cymru, diweddariad i 2011, 2015).<br>Mae allyriadau o $CO_2$ wedi bod yn gostwng ers 2005 ym mhob sector.<br>Mae'r ôl troed ecolegol yn sir Benfro yn uwch na'r ffigur i Gymru ar gyfer 2006. Mae'r ffigurau wedi gostwng ers 2003 (5.3 hectar byd-eang y person yn sir Benfro a 4.7 hectar byd-eang y person yng Nghymru). Dylanwedir ar ôl troed ecolegol gan y nwyddau a'r gwasanaethau a ddefnyddir. Mae'r defnydd o geir yn sir Benfro yn uchel, a adlewyrchir yn yr ôl troed ecolegol. Nid oes modd cymharu'r ffigur wedi'i ddiweddaru i Gymru yn 2011 yn uniongyrchol ag amcangyfrifon blaenorol oherwydd newidiadau yn y fethodoleg.<br>Cam Gweithredu: parhau i fonitro Amcan yr AoG |

| Amcanion yr AoG | Dangosyddion posibl yr AoG | Data | Sylwadaeth |
|---|---|---|---|
| 11. Cynnal a gwella ansawdd aer | • Diwrnodau pan fydd llygredd aer yn gymedrol neu'n uwch yn AURN Arberth<br>• Cyflawni gwerthoedd terfynau allyriadau | Data AURN Arberth:<br>7 diwrnod yn 2012<br>19 diwrnod yn 2013 (diwygiedig)<br>3 diwrnod yn 2014<br>8 diwrnod yn 2015<br><br>(DEFRA, 2016)<br>Dwy Ardal Rheoli Ansawdd Aer ddynodedig wedi'u datgan o ganlyniad i ormodiant nitrogen deuocsid (gwybodaeth fonitro CSP, 2015) | Mae Cynlluniau Gweithredu Ansawdd Aer ar waith, gyda gwaith monitro parhaus. Nifer y diwrnodau o lygredd aer cymedrol i uchel yn Rhwydwaith Trefol Gwledig Awtomatig (AURN) Arberth oedd 7 diwrnod yn 2012, 19 diwrnod yn 2013, 3 diwrnod yn 2014, 8 diwrnod yn 2015 (Defra, 2016). Mae rhagor o waith monitro wedi cael ei gynnal ym Mhennar Gut o ganlyniad i gytundeb adran 106 sy'n gysylltiedig â datblygiad yng Ngorsaf Bŵer Penfro RWE npower. Ni fu gormodiant o $NO_2$ yn Arberth nac ym Mhennar.<br>Mae llygryddion a samplwyd ar lefel y Sir yn cynnwys: bensen, nitrogen deuocsid ($NO_2$), sylffwr deuocsid (SO2), gronynnau ($PM_{10}$) ac osôn. Roedd gormodiant o nitrogen deuocsid mewn ardaloedd penodol yn gofyn am ddatgan Dwy Ardal Rheoli Ansawdd Aer ym mis Gorffennaf 2012 yng nghanol tref Hwlffordd a Phenfro. Yn 2011, roedd 10 o fannau monitro lle roedd gormodiant o $NO_2$, lleihawyd hyn i wyth yn 2012. Aethpwyd y tu hwnt i amcan $NO_2$ mewn pum man yn 2013 a chafwyd dau achos o ormodiant yn 2014, sy'n golygu bod lefelau $NO_2$ wedi parhau i ostwng yn 2015 a bod pob lleoliad wedi cyflawni'r amcan cymedrig blynyddol. Bydd yr holl waith monitro a'r ddwy ardal rheoli ansawdd awr yn parhau nes yr ymddengys bod cydymffurfiaeth â'r amcan blynyddol yn arferol. Mae ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol yn parhau i ddigwydd.<br>Caiff ceisiadau cynllunio eu hasesu mewn perthynas â'u potensial i effeithio ar amcanion ansawdd aer lleol. Paratowyd dogfen ganllaw i ddatblygwyr ar y cyd â Chyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Ceredigion a Cyngor Sir Powys. Gellir defnyddio amodau cynllunio, cytundebau adran 106 neu ymgymeriadau unochrog hefyd i sicrhau gwaith monitro a mesurau lliniaru hefyd ar gyfer allyriadau llygryddion yn lleol.<br>Cam Gweithredu: parhau i fonitro Amcan yr AoG a chyfeirio at y Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer a gwaith monitro mewn AMBau dilynol. |

| Amcanion yr AoG | Dangosyddion posibl yr AoG | Data | Sylwadaeth |
|---|---|---|---|
| | | | |
| 12. Lleihau faint o wastraff a llygredd a gynhyrchir<br><br>13. Annog cynhyrchu, defnyddio ac ailddefnyddio adnoddau'n effeithlon. | • Cyfanswm a chanran gwastraff trefol a gwastraff trefol sy'n cael ei ailgylchu, ei gompostio, ei ddefnyddio i adennill gwres, pŵer a ffynonellau ynni eraill, a'i anfon i'w dirlenwi.<br>• Trydan a gynhyrchir o ffynonellau adnewyddadwy<br>• Mynediad at gyfleusterau ailgylchu | Gwastraff Trefol Bioraddadwy a anfonwyd i'w dirlenwi<br>2009/2010 = 23,786 tunnell<br>2010/2011 = 20,325 tunnell<br>2012/2013 = 17,971 tunnell<br>2013/2014 = 13,543 tunnell<br>Cyfraddau ailddefnyddio gwastraff/ailgylchu/compostio<br>50% yn 2011/2012<br>52.9% yn 2012/2013<br>60% yn 2013/2014<br>65% yn 2014/2015<br>65% yn 2015/2016 (dros dro)<br>(StatsCymru, 2016)<br>Capasiti ynni adnewyddadwy a gafodd ganiatâd:<br>34.77 MW 2015 / 16<br>68.60 MW 2014 / 15<br>108.427 MW 28 Chwefror 2013 i 31 Mawrth 2014 | Y cyfraddau ailddefnyddio gwastraff/ailgylchu/compostio yn sir Benfro ar gyfer cyfnod treigl o 12 mis hyd at ddiwedd mis Mawrth 2016 oedd 65% (dros dro), sef yr un cyfraddau a gafwyd ar ddiwedd mis Mawrth 2015 (StatsCymru, 2016).<br>Targed Llywodraeth Cymru yw 58% ar gyfer 2015/16, (70% erbyn 2024/2025). Mae targed Llywodraeth Cymru ar gyfer ailgylchu yn debygol o gael ei gyflawni, gyda sir Benfro yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at hyn. Nodwyd safle amwynder dinesig newydd a chyflwynwyd cais.<br>Caniatawyd capasiti o 34.77MW o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy yn 2016; mae hyn yn cynnwys apeliadau a ganiatawyd ar geisiadau a benderfynwyd yn y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2015. Mae hyn yn cymharu â 68.60 MW yn 2015, 108.427 MW yn 2014 (2014 capasiti a ganiatawyd 28 Chwefror 2013 hyd at 31 Mawrth 2014 (gan gynnwys apeliadau a ganiatawyd ar geisiadau y penderfynwyd arnynt i ddechrau yn y cyfnod hyd at 31 03 14)).<br>Mae Dŵr Cymru wrthi'n ymchwilio i ostyngiadau mewn trwyddedau tynnu dŵr a gynigir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, a fydd yn effeithio ar allu Dŵr Cymru i ail-lenwi cronfeydd dŵr. Bydd AMBau dilynol yn cyflwyno adroddiadau ar y materion hyn.<br>Cam Gweithredu: parhau i fonitro Amcanion yr AoG |
| 14. Cynnal a diogelu ansawdd | • % cyfanswm yr afonydd | Statws cyrff dŵr yn sir Benfro (Crynodeb o Ddalgylch Rheoli | Mae'r Asesiad Ansawdd Cyffredinol o ddŵr wyneb a dŵr daear wedi cael ei ddisodli gan amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae'n rhaid i |

| Amcanion yr AoG | Dangosyddion posibl yr AoG | Data | Sylwadaeth |
|---|---|---|---|
| dŵr mewndirol ac arfordirol<br><br>15. Lleihau effeithiau llifogydd a chodiad yn lefel y môr | dosbarthedig sy'n cydymffurfio ag amcan ansawdd dŵr<br>• % datblygiadau newydd gyda SDCau<br>• Defnydd o ddŵr y pen<br>• Faint o ddatblygu a ganiateir yng ngorlifdir C1 ac C2. | Afonydd Arfordirol Cleddau a Sir Benfro yn 2015;<br>42% da<br>51% cymedrol<br>5% gwael<br>2% drwg<br>(Cyfoeth Naturiol Cymru, 2015)<br>1 cais a ganiatawyd mewn ardaloedd gorlifdir (1 yn C1 a 4 yn C2) hyd at fis Mawrth 2016 (lle nad oedd yn unol â gofynion TAN 15) | bob corff dŵr gyrraedd statws da erbyn 2027. Ceir 144 o gyrff dŵr yn sir Benfro. Mae 23 o'r rhain yn gyrff dŵr â blaenoriaeth (Cyfoeth Naturiol Cymru, 2014). Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru Strategaeth Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr i Sir Benfro yn ogystal ag adroddiad ar Bwysau Amgylcheddol ar Ddyfrffordd y Ddau Gleddau.<br>Mae adolygiad o Statws Maethynnau Dalgylch Cleddau o dan y Gyfarwyddeb Nitradau yn cael ei gynnal. Os bydd ansawdd dŵr yn mynd y tu hwnt i baramedrau penodol yna efallai y bydd angen dynodi'r dalgylch cyfan yn Barth Perygl Nitradau. Bydd hyn yn cael effeithiau sylweddol ar yr ardal. Mae Llywodraeth Cymru yn debygol o gynnig penderfyniad ar ddiwedd 2015/dechrau 2016. Bydd angen i AMBau yn y dyfodol gyflwyno adroddiadau ar hyn.<br>Caiff rhaglen AMP 6 Dŵr Cymru (2015-2021), i wella cyflenwad dŵr ac asedau carthffosiaeth, ei hadolygu mewn AMBau dilynol.<br>Paratowyd dogfen Canllawiau Arfer Da ar Storfeydd Slyri yn 2013, a fydd yn helpu i wella ansawdd dŵr yn y Sir.<br>Caniatawyd un cais mewn ardal gorlifdir C2 (lle nad oedd yn cydymffurfio â TAN 15), o gymharu â 0 yn AMB 2 a 5 yn AMB 1. Nid yw hyn yn cyrraedd y trothwy ar gyfer camau gweithredu pellach.<br>Mae'r CDLl yn ceisio sicrhau na chaniateir unrhyw ddatblygiadau mewn parthau llifogydd C1 ac C2 (oni bai eu bod yn cydymffurfio â TAN 15) a bod SDCau yn cael eu hymgorffori mewn cynlluniau datblygu.<br>Cam Gweithredu: parhau i fonitro Amcanion yr AoG, yn enwedig datblygiadau mewn ardaloedd gorlifdir C1/C2. |
| 16. Defnyddio tir yn effeithlon a | • Ardal o dir halogedig ac | 85% o ddatblygiadau newydd | Mae gan 23 o ganiatadau a roddwyd amodau penodol sy'n ymwneud â thir halogedig lle mae angen i'r ymgeisydd/datblygu gymryd camau |

| Amcanion yr AoG | Dangosyddion posibl yr AoG | Data | Sylwadaeth |
|---|---|---|---|
| lleihau halogi i'r eithaf<br><br>17. Diogelu ansawdd a meintiau pridd | adfer tir halogedig<br>• Ardal o ddatblygiad tir maes llwyd/ halogedig/tir wedi'i ddatblygu'n flaenorol | ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol = 291.05 hectar 2015-16<br>46.87 hectar (11.3%) 2014-5<br>80.75 hectar (18%) 2013-14 | gweithredu drwy amodau cynllunio, er enghraifft ymchwiliad ac asesiad risg o lygryddion ar y safle, cynlluniau adfer manwl.<br>Y safleoedd datblygu a nodwyd yn y Canllawiau Cynllunio Atodol lle roedd halogiad tir yn bresennol: Pan gyflwynir y dyraniadau hyn bydd gofyniad i adfer y tir halogedig yn cael ei osod.<br>Cam Gweithredu: parhau i fonitro Amcanion yr AoG |
| 18. Diogelu a gwella amrywiaeth | • % y safleoedd dynodedig mewn cyflwr anffafriol<br>• Nifer y safleoedd bioamrywiaeth yr effeithir arnynt gan ddatblygiadau | Yn aros am asesiad cyfredol o safleoedd Ewropeaidd gan Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Dim caniatadau cynllunio a roddwyd yn groes i nod Polisi GN.37<br>Ymgorfforodd 97 o ganiatadau fesurau lliniaru ecolegol. | Nid effeithiwyd yn negyddol ar unrhyw safleoedd o bwys cenedlaethol a lleol.<br>Aseswyd 3 chais ar gyfer Effaith Sylweddol Debygol ar safle(oedd) Ewropeaidd. Nid oes unrhyw un o'r rhain yn gofyn am Asesiad Priodol.<br>Mae % y safleoedd Ewropeaidd (ACAau ac AGAau) mewn cyflwr anffafriol yn sir Benfro yn anhysbys – yn aros am ddata gan Cyfoeth Naturiol Cymru.<br>Ymgorfforodd 97 o ganiatadau fesurau lliniaru ecolegol. Paratowyd y CDLl i sicrhau'r diogelwch mwyaf i safleoedd dynodedig Ewropeaidd. Mabwysiadwyd Canllawiau Cynllunio Atodol y CDLl mis Mai 2014. Mae Canllawiau Cynllunio Atodol ar Safleoedd Datblygu yn nodi bod yn rhaid ystyried materion cadwraeth natur ar gyfer pob safle datblygu.<br>Caiff pob cais ei sgrinio ar gyfer ei effaith bosibl ar safleoedd gwarchodedig.<br>Datblygwyd adnodd cynllunio i dynnu sylw at bwysigrwydd a graddau cysylltedd ecolegol yn y sir a'u deall. |

| Amcanion yr AoG | Dangosyddion posibl yr AoG | Data | Sylwadaeth |
|---|---|---|---|
| | | | Cam Gweithredu: parhau i fonitro Amcanion yr AoG, mae'r angen am asesiadau cyfredol o safleoedd Ewropeaidd yn parhau i beri ansicrwydd. |
| 19. Diogelu a gwella'r dirwedd a'r dreftadaeth ddaearegol<br><br>20. Annog dyluniadau o ansawdd sy'n unigryw i'r ardal leol ac sy'n ategu'r dreftadaeth adeiledig.<br><br>21. Diogelu a gwella'r dreftadaeth adeiledig a'r amgylchedd hanesyddol | • Nifer y caniatadau a roddwyd yn groes i GN.38.<br>• Nifer y caniatadau a roddwyd yn groes i GN.2.<br>• Nifer / % yr adeiladau ar y gofrestr adeiladau mewn perygl | Rhoddwyd 2 ganiatâd cynllunio, caniatadau adeiladau rhestredig a chaniatadau henebion cofrestredig yn groes i Bolisi GN.38.<br>Rhoddwyd 1 caniatâd yn groes i Bolisi GN.1, maen prawf 3.<br>Ni roddwyd unrhyw ganiatadau yn groes i GN.2. | Rhoddwyd dau ganiatâd cynllunio, caniatâd adeilad rhestredig a chaniatâd heneb gofrestredig yn groes i Bolisi GN.38.<br>Mae'r trothwy ar gyfer caniatadau, caniatadau adeiladau rhestredig a chaniatadau henebion cofrestredig a roddwyd yn groes i Bolisi GN.38 hefyd wedi cael ei gyrraedd. Nodwyd bod 2 gais wedi cael eu cymeradwyo er eu bod yn groes i GN.38. Mewn un achos, roedd y cynnig ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy (tyrbin gwynt) a nodwyd mai cyfyngedig oedd yr effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd hanesyddol, ac roedd y cynnig yn unol â Pholisi GN.4, sy'n cefnogi gosodiadau ynni adnewyddadwy. Roedd yr ail ddatblygiad a ganiatawyd yn groes i Bolisi GN.38 ar gyfer ailddefnyddio Adeilad Rhestredig fel ysgol (15/0132/PA). Ystyriwyd bod adeiladau newydd i'w defnyddio mewn cysylltiad â'r ysgol yn methu â rhoi sylw arbennig i leoliad yr Adeilad Rhestredig. O gydbwyso hynny â manteision ehangach ailddefnyddio Adeilad Rhestredig gwag a natur dros dro yr adeiladau, rhoddwyd cryn bwys ar sicrhau ei ddyfodol a chymeradwywyd y cynnig yn groes i GN.38, a chymeradwywyd yr adeilad newydd ar gyfer cyfnod o ddwy flynedd yn unig. Mae geiriad GN.38 yn golygu bod yn rhaid i gynnig gael ei ystyried yn un sy'n groes i'r polisi hyd yn oed os mai cyfyngedig yw'r effaith niweidiol a nodwyd. Bydd y geiriad hwn yn cael ei ailystyried ar adeg adolygu'r, er mwyn sicrhau mai dim ond y cynigion hynny sydd ag effaith |

| Amcanion yr AoG | Dangosyddion posibl yr AoG | Data | Sylwadaeth |
|---|---|---|---|
| | | | niweidiol sylweddol y bernir eu bod yn groes i'r polisi.<br>Ni roddwyd unrhyw ganiatadau yn groes i GN.2<br>Mae Cadw yn cynnal arolwg o adeiladau rhestredig mewn perygl ac efallai y bydd yn cael ei droi'n gofrestr adeiladau mewn perygl. Gall y wybodaeth hon gael ei diweddaru mewn AMBau dilynol.<br>Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft ar Ynni Adnewyddadwy a chaiff y ddogfen ei llunio'n derfynol yn ystod blwyddyn 4 yr AMB.<br>Mabwysiadwyd Arfarniad Cymeriad Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli Hwlffordd ym mis Awst 2014, ac mae cynnydd sylweddol hefyd wedi'i wneud o ran drafftio Arfarniad Cymeriad Ardal Gadwraeth a Chynlluniau Rheoli Wdig, Abergwaun a'r Dref Isaf.<br>Cam Gweithredu: parhau i fonitro Amcanion AoG. |

# Atodiad 4 – Dyraniadau lle mae angen Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect

Mae CSP wedi mynd ati i fonitro mewn perthynas â'r Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd drwy nodi'r polisïau hynny a nodwyd yn flaenorol fel rhai sy'n gofyn am gael eu sgrinio ar lefel prosiect (o gymharu â lefel cynllun) a monitro a yw'r broses sgrinio wedi cael ei chynnal ar unrhyw geisiadau ar gyfer y rhai hynny lle mae datblygiad wedi mynd rhagddo. Mae'r tabl isod yn nodi'r broses sgrinio a gynhaliwyd ar y safleoedd hynny lle y nodwyd bod angen sgrinio ar lefel prosiect a lle mae datblygiad wedi cyrraedd cam cais cynllunio yn ystod cyfnod adrodd yr AMB. Mae pob cais cynllunio, ac nid dim ond Dyraniadau yn cael ei sgrinio gan Ecolegydd Cynllunio CSP. Lle bo effaith bosibl ar safle Ewropeaidd, mae proses sgrinio ffurfiol wedi cael ei chynnal. Mae'r ceisiadau hyn hefyd wedi'u cynnwys yn y tabl.

TLSE Prawf ar gyfer effeithiau sylweddol tebygol

HRA Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd

AA Asesiad Priodol

| Enw'r safle | Cyfeiriad y safle | Manylion y cais | TLSE/ sgrinio ar gyfer HRA | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| AMB 3 | | | | |
| Clwb pêl-droed a chriced Cariw, Cariw | Heb ei ddyrannu | 15/0191/PA<br>Uwchraddio ac ehangu cyfleuster criced, gan gynnwys llifoleuadau. | Ie | Effeithiau Sylweddol Tebygol Posibl – nid oes angen Asesiad Priodol – gall y prosiect fynd rhagddo yn ddarostyngedig i amodau ychwanegol |
| Tir wrth ymyl Adams Road, Cil-maen, Penfro | Heb ei ddyrannu | 15/0657/PA<br>Defnydd tir ar gyfer lleoli pum carafán sefydlog, pum carafán deithiol, ynghyd â phum ystafell cyfleustod/dydd | Ie | Effeithiau Sylweddol Tebygol Posibl – nid oes angen Asesiad Priodol – gall y prosiect fynd rhagddo yn ddarostyngedig i amodau/cyfyngiadau ychwanegol |
| Tir wrth ymyl Holly Lodge, Cilgerran | HSG/020/00062 | 15/0859/PA<br>Datblygiad preswyl | Ie | Effeithiau Sylweddol Tebygol Posibl – nid oes angen Asesiad Priodol – gall y prosiect fynd rhagddo yn ddarostyngedig i amodau/cyfyngiadau/mesurau lliniaru ychwanegol |

# Atodiad 5 – Dadansoddiad o Dai Wedi'u Cwblhau 2013-2016 yn ôl lleoliad

| Enw'r Anheddiad | Nifer yr Unedau a Gwblhawyd 2013-2014 | Nifer yr Unedau a Gwblhawyd 2014-2015 | Nifer yr Unedau a Gwblhawyd 2015-2016 |
|---|---|---|---|
| **Trefi Ffocws** | | | |
| Hwlffordd / Merlins Bridge | 25 | 67 | 44 |
| Abergwaun / Wdig | 8 | 6 | 4 |
| Aberdaugleddau | 184 | 100 | 48 |
| Neyland | 1 | 11 | 0 |
| Penfro | 10 | 37 | 88 |
| Doc Penfro | 44 | 73 | 39 |
| **Is-gyfansymiau** | **272** | **294** | **223** |
| **Tref Wledig** | | | |
| Arberth | 14 | 7 | 4 |
| **Is-gyfansymiau** | 14 | 7 | 4 |
| | | | |
| **Canolfannau Gwasanaeth** | | | |
| Crymych | 2 | 6 | 6 |
| Johnston | 37 | 1 | 0 |
| Cilgeti | 1 | 2 | 2 |
| Treletert | 10 | 3 | 2 |
| **Is-gyfansymiau** | **50** | **12** | **10** |
| | | | |
| **Pentrefi Gwasanaeth** | | | |
| Abercych | 1 | 0 | 0 |
| Boncath | 0 | 0 | 2 |
| Bwlch-y-groes | 0 | 1 | 0 |
| Cariw / Sageston | 2 | 2 | 18 |
| Cilgerran | 1 | 0 | 1 |
| Clarbeston Road | 1 | 2 | 3 |
| Clunderwen | 0 | 1 | 0 |
| Cosheston | 1 | 3 | 0 |
| Crundale | 7 | 3 | 37 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Hayscastle Cross | 0 | 0 | 1 |
| Hermon | 1 | 1 | 0 |
| Hook | 1 | 3 | 6 |
| Houghton | 0 | 0 | 2 |
| Hundleton | 0 | 1 | 0 |
| Jeffreyston | 1 | 0 | 0 |
| Llandyfái | 0 | 40 | 0 |
| Llangwm | 1 | 0 | 0 |
| Maenclochog | 1 | 1 | 0 |
| Mathri | 2 | 0 | 0 |
| Milton | 0 | 2 | 0 |
| New Hedges | 0 | 3 | 1 |
| Penalun | 3 | 2 | 3 |
| Pentlepoir | 2 | 41 | 9 |
| Y Garn | 4 | 19 | 1 |
| Rhosfarced | 1 | 0 | 1 |
| Spittal | 5 | 1 | 0 |
| Llandudoch | 2 | 4 | 3 |
| St Florence | 0 | 18 | 16 |
| Tafarn-sbeit | 2 | 1 | 0 |
| Tegryn | 0 | 2 | 1 |
| Tredemel | 0 | 22 | 12 |
| **Is-gyfansymiau** | **39** | **173** | **117** |
| | | | |
| **Pentrefi Lleol Mawr** | | | |
| Burton | 1 | 2 | 1 |
| Burton Ferry | 0 | 0 | 1 |
| Camrose | 5 | 4 | 3 |
| East Williamston | 0 | 1 | 1 |
| Freystrop | 2 | 1 | 1 |
| Hill Mountain | 0 | 2 | 1 |
| Keeston | 4 | 1 | 1 |
| ?Llandudwal | 1 | 1 | 0 |
| Pen-y-bryn | 1 | 0 | 0 |
| Scleddau | 1 | 27 | 0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Stepaside | 0 | 0 | 2 |
| **Is-gyfansymiau** | **15** | **39** | **11** |
| | | | |
| **Pentrefi Lleol Bach** | | | |
| Treamblod | 2 | 1 | 0 |
| Cold Blow | 0 | 2 | 1 |
| Glandŵr | 0 | 0 | 1 |
| Little Honeyborough | 0 | 1 | 0 |
| Llanteglos | 0 | 3 | 0 |
| Llanhuadain | 1 | 0 | 0 |
| Llwyncelyn | 0 | 0 | 1 |
| Maddox Moor | 1 | 0 | 0 |
| Martletwy | 1 | 1 | 1 |
| Pen-ffordd | 1 | 0 | 0 |
| Redberth | 0 | 1 | 1 |
| Tremarchog | 1 | 0 | 0 |
| Trefgarn | 2 | 0 | 0 |
| Waltwn | 0 | 3 | 2 |
| **Is-gyfansymiau** | **9** | **12** | **7** |
| | | | |
| **Cefn Gwlad Agored** | | | |
| Y tu allan i ffin anheddiad | 60 | 51 | 32 |
| **Is-gyfansymiau** | **60** | **51** | **32** |
| **Cyfanswm yr Adroddiad** | **459** | **588** | **405** |